



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



Gwerthusiad o effeithiolrwydd Cytundebau Tai Cymunedol

cymunedau
cynhwysiant cymdeithasol
tai

Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL
Y LLYWODRAETH

CSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy



Mae copïau ychwanegol o'r ddogfen hon ar gael am ddim oddi wrth:

Uned Ymchwil a Gwybodaeth
Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful CF48 1UZ

Ffôn: 01685 729131

E-bost: CC&A.ymchwil@cymru.gsi.gov.uk

Gwefan: <http://www.cymru.gov.uk/cyfiawndercymdeithasolacadfywio>

Cynnwys

Rhif Tudalen

Cydnabyddiaethau

Pennod 1: Cyflwyniad	5
Pennod 2: Adolygiad Polisi	9
Pennod 3: Gwaith Partneriaeth - adolygiad o lenyddiaeth	21
Pennod 4: Gwerthuso Effeithiolrwydd Cytundebau Tai Cymunedol	25
Pennod 5: Cytundebau Tai Cymunedol - Cynigion ar gyfer y Ffordd Ymlaen	47
Atodiad 1: Llyfryddiaeth	53
Atodiad 2: Ffynonellau Gwybodaeth ar y We	57
Atodiad 3: Cytundeb Tai Cymunedol	59
Atodiad 3a: Gofynion Cynllunio Statudol Awdurdodau Lleol	69
Atodiad 4: Holiadur Cyfweiliadau Ffôn - awdurdodau lleol	71
Atodiad 5: Holiadur Cyfweiliadau Ffôn - cymdeithasau tai	73
Atodiad 6: Rhestr o Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai fu'n Cymryd Rhan yn y Cyfweiliadau Ffon	75
Atodiad 7: Rhestr o Asiantaethau Rhanddeiliaid Allweddol a gafodd Gyfweiliad yn Ystod y Prosiect	77
Atodiad 8: Cwestiynau a Ddefnyddiwyd yn ystod Cyfweiliadau Astudiaethau Achos lle yr oedd Cytundeb Tai Cymunedol yn ei le	79
Atodiad 9: Cwestiynau a Ddefnyddiwyd yn ystod Cyfweiliadau Astudiaethau Achos lle nad oedd Cytundeb Tai Cymunedol yn ei le	89
Atodiad 10: Cytundebau Tai Cymunedol: Cynigion ar gyfer y Ffordd Ymlaen	99
Atodiad 11: Adroddiad ar Ganlyniad yr Ymgynghoriad ar y Cynigion Polisi a Gynhwyswyd yn y Papur Trafod	109
Atodiad 12: Rolau a Chyfrifoldebau Arfaethedig Partïon mewn Perthynas â Ffurf Ddiwygiedig y Cytundeb Tai Cymunedol	115

Cydnabyddiaethau

Hoffai awduron yr adroddiad fynegi ein diolchiadau i'r canlynol:

- swyddogion awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a rhanddeiliaid allweddol fu'n cymryd rhan yn y cyfweiliadau ffôn
- swyddogion awdurdodau lleol a chymdeithasau tai fu'n cymryd rhan yn y cyfweiliadau astudiaethau achos, yn enwedig y swyddogion awdurdodau lleol fu'n ein cynorthwyo wrth drefnu'r cyfweiliadau hynny
- grŵp llywio'r prosiect Llywodraeth Cynulliad Cymru fu'n goruchwylio'r prosiect

Simon Inkson, Anne Delaney a Tamsin Stirling
Housing+Cymru

Pennod 1 Cyflwyniad

1 Cefndir yr Ymchwil

Cytundebau gwirfoddol yw Cytundebau Tai Cymunedol (CTCau) a sefydlwyd rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Datblygwyd y model ar gyfer CTCau gan Fforwm Landlordiaid Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru ym mis Hydref 1998, a argymhellodd y dylai awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ar draws Cymru fabwysiadu'r cytundebau. Fforwm byr ei oes oedd Fforwm Landlordiaid Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru, oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru (FfCTC). Bu'r cynrychiolwyr yn cydweithio i gynhyrchu dau gynnyrch, yr oedd un ohonynt yn ffurf fodel ar CTC (cysylltwyd copi yn atodiad 3), a'r llall yn set o egwyddorion a mesurau perfformiad a rennir ar gyfer landlordiaid cymdeithasol.

Gwnaed cyfres o ymrwymadau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â CTCau yn ei strategaeth dai genedlaethol **Cartrefi Gwell i Bobl Cymru: Strategaeth Dai Genedlaethol Cymru**¹.

Y rhain oedd:

- ymgymryd ag adolygiad o effeithiolrwydd CTCau;
- gweithio gyda chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru i alluogi pob awdurdod lleol i osod CTCau yn eu lle gyda chymdeithasau tai lleol erbyn gwanwyn 2003; a
- chyhoeddi arweiniad arfer da ar eu gweithredu a'u manteision.

Comisiynwyd Housing+Cymru, consortiwm o ymgynghorwyr tai annibynnol a leolwyd yng Nghymru, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymgymryd ag ymchwil ar effeithiolrwydd CTCau yn ystod haf 2005.

Nod CTCau oedd darparu cyfrwng ar gyfer gwaith partneriaeth mwy effeithiol rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ar flaenoriaethau ac amcanion a rennir. Bwriadwyd y cytundeb hefyd i lenwi'r bwlch a grëwyd drwy uno Tai Cymru â'r Swyddfa Gymreig. Gyda'r uniad hwn dirywiodd cytundebau Tai Strategol, oedd yn gytundebau tridarn ar lefel awdurdod lleol rhwng Tai Cymru, yr awdurdod lleol a chymdeithasau tai â statws datblygu.

Nod y CTC model a ddatblygwyd gan Fforwm Landlordiaid Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru oedd sicrhau bod gweithgareddau cymdeithasau tai yn ategu rhai'r awdurdod lleol. Nod allweddol y cytundeb hwn oedd rhoi cyfle i gymdeithasau tai:

*"reflect and complement the corporate activities of the Council integrating the provision of housing services with national, local and community needs."*²

Roedd potensial i CTCau fod yn ehangach eu cwmpas na'r Cytundebau Tai Strategol blaenorol, gan gwmpasu nid yn unig faterion tai, ond hefyd cyfraniad tai i amcanion ehangach fel adfywio cymunedol.

¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001a:26).

² Cytundebau Tai Cymunedol: Cynnig gan Fforwm Landlordiaid Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru. (Hydref 1998).

*"Registered Social Landlords are seen as contributing to meeting the wider needs not only in terms of joint working arrangements and development, but also in terms of 'housing plus' and community initiatives."*³

Roedd y model ar gyfer y cytundebau a ragwelwyd gan Fforwm Landlordiaid Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru yn cynnwys dwy elfen:

- cytundeb ffurfiol yn nodi prif nodau ac amcanion y partïon i'r cytundeb, yn cynnwys dulliau monitro, cyd-gysylltu ac adolygu; ac
- amserlen neu gynllun perfformiad oedd yn cynnwys gweithredoedd a thargedau y gallid eu hadolygu yn flynyddol.

Roedd y CTC model yn cynnwys amrywiaeth o faterion strategol a gweithredol.

2 Amcanion a Dulliau'r Ymchwil

Ers datblygu'r CTC model ym 1998, mae'r amgylchedd polisi y mae awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn gweithredu oddi mewn iddo wedi newid yn sylweddol. Mae'r adolygiad o CTCau yn cynnig cyfle pwysig ac amserol i ailystyried eu rôl yng ngoleuni'r newidiadau hyn. Nodwyd yn y fanyleb ar gyfer y prosiect ymchwil bod amcanion y prosiect fel a ganlyn:

- i) gwerthuso effeithiolrwydd hyd yma y CTCau o safbwynt cyflawni eu disgwyliadau a nodwyd;
- ii) cynghori ar a ellir defnyddio CTCau mewn ffyrdd mwy effeithiol i wireddu amcanion strategol awdurdodau lleol ac os felly, sut; a
- iii) datblygu awgrymiadau polisi ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru i hwyluso mwy o ddefnydd o CTCau a gwella eu heffeithiolrwydd.

Dechreuwyd ar yr ymchwil ym mis Mehefin 2005, a gwnaed y gwaith maes

ar gyfer yr ymchwil rhwng Hydref 2005 a Gorffennaf 2006. Arweiniwyd y prosiect gan Grŵp Llywio'r Prosiect, oedd yn cynnwys aelodau staff o Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth Cynulliad Cymru a chynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru a Shelter Cymru.

Roedd yr ymchwil yn cynnwys pedwar cyfnod allweddol ac fe'u nodir isod.

a Adolygiad polisi a llenyddiaeth

Roedd hwn yn cwmpasu adolygu'r llenyddiaeth mewn perthynas â gwaith partneriaeth yn gyffredinol a gwaith partneriaeth mewn tai. Fe'i hysbyswyd hefyd gan adolygiad o'r agenda polisi cyfredol mewn perthynas â llywodraeth leol a chymdeithasau tai. Yn ogystal, hysbyswyd yr adolygiad polisi gan gyfweiliadau ffôn a gynhaliwyd gydag aelodau staff o asiantaethau rhanddeiliaid allweddol (gweler isod).

Defnyddiodd yr adolygiad llenyddiaeth lenyddiaeth helaeth ac amrywiol ar waith partneriaeth. Er nad yw'r llyfryddiaeth yn hollgynhwysfawr, mae'n cynnwys ystod o ffynonellau sy'n amrywio yn nhermau eu pwrpas, eu cwmpas a'u cwmpasiad daearyddol.

b Cyfweiliadau ffôn gydag awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a rhanddeiliaid allweddol

Cynhaliwyd cyfweiliadau gydag uwch reolwyr tai mewn awdurdodau lleol yng Nghymru ac uwch reolwyr mewn cymdeithasau tai oedd yn datblygu⁴. Cynhaliwyd y cyfweiliadau ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2005. Pwrpas y cyfweiliadau ffôn oedd sefydlu:

- pa mor eang yr oedd CTCau yn cael eu defnyddio;

³ Fforwm Landlordiaid Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru. Hydref (1998:3).

⁴ Gweler atodiadau 4 a 5 am gopiâu o'r holiaduron.

- y rhesymau dros fabwysiadu CTCau;
- fformat y CTCau;
- effeithiolrwydd CTCau; ac
- effeithiolrwydd trefniadau gwaith partneriaeth eraill.

Lle yr oedd CTCau yn eu lle, gwahoddwyd awdurdodau lleol i anfon at yr ymgynghorwyr gopi o'r cytundeb er mwyn eu dadansoddi. Darparodd chwech o'r wyth awdurdod lleol â CTCau gopiâu ac fe'u hadolygwyd. Roedd y dadansoddiad yn archwilio strwythur a chynnwys y CTCau a'r trefniadau ar gyfer monitro eu gweithrediad.

Lle nad oedd CTCau yn eu lle, nod yr ymchwili oedd canfod:

- pam nad oeddent yn eu lle; ac
- effeithiolrwydd gwaith partneriaeth rhwng yr awdurdod lleol a'r cymdeithasau tai yn ei ardal.

Y bwriad gwreiddiol oedd y byddai cyfweiliadau yn cael eu cynnal gydag uwch reolwyr ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol a phob un o'r 27 o gymdeithasau tai oedd yn datblygu. Cwblhawyd cyfweiliadau yn llwyddiannus mewn 21 awdurdod lleol (95%) ac mewn 22 o gymdeithasau tai (81%)⁵.

Nodwyd cyfres o sefydliadau rhanddeiliaid allweddol ar ddechrau'r prosiect a chynhaliwyd cyfweiliadau ffôn gydag aelod perthnasol o'r staff yn ystod Ionawr a Chwefror 2006⁶. Pwrpas y cyfweiliadau hyn oedd canfod eu gwybodaeth mewn perthynas â'r canlynol:

- cefndir datblygu CTCau;
- y defnydd o CTCau yng Nghymru;
- trefniadau partneriaethau tai eraill;
- sut mae gwaith partneriaeth mewn tai

wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf; ac

- enghreifftiau o arfer positif mewn perthynas â gwaith partneriaeth mewn tai.

c Astudiaethau achos

Ymgwymerwyd â'r astudiaethau achos er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r canlynol:

- cefndir datblygiad y CTC, lle roedd un yn ei le, a'i effeithiolrwydd;
- pam nad oedd CTC wedi'i ddatblygu pan nad oedd un yn ei le; ac
- effeithiolrwydd gwaith partneriaeth rhwng asiantaethau tai ac awdurdodau lleol yn gyffredinol a'r cyfraniad a wneir gan gymdeithasau tai o ran mynd i'r afael â phroblemau digartrefedd.

Nodwyd chwe awdurdod lleol a cheisiwyd cyfweiliadau â'r staff canlynol neu eu cydweithiwr cyfatebol agosaf:

- Pennaeth Tai;
- Pennaeth Cynllunio Corfforaethol;
- Pennaeth Cynllunio; a
- Rheolwr y Gwasanaeth Digartrefedd.

Ymgwymerwyd â chyfweiliadau grŵp gyda chymdeithasau tai oedd yn gweithredu yn yr ardal leol. Gwahoddwyd pob cymdeithas dai i anfon un cynrychiolydd i'r cyfweiliad. Roedd yr awdurdodau lleol a ddewiswyd yn amrywiaeth o rai dinesig a gwledig ac yn cynnwys rhai oedd wedi sefydlu CTCau gyda chymdeithasau tai a rhai nad oeddent wedi gwneud hynny. Cynhaliwyd y cyfweiliadau ym mis Chwefror a Mawrth 2006⁷. Ymgorfforir crynodebau o adroddiadau'r astudiaethau achos yn nhestun pennod 4.

⁵ Cysylltir rhestr o'r awdurdodau lleol a'r cymdeithasau tai a gymerodd ran yn y cyfweiliadau ffôn yn atodiad 6.

⁶ Cysylltir rhestr yn atodiad 7.

d Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer y ffordd ymlaen

Yn dilyn cwblhau'r gwaith maes, anfonodd yr ymgynghorwyr bapur trafod i holl awdurdodau lleol Cymru, yr holl gymdeithasau tai a'r asiantaethau rhanddeiliaid allweddol ddiwedd mis Mai 2006. Roedd y papur yn nodi'n fras ganfyddiadau'r ymchwil, y cyd-destun polisi cyfnewidiol a chynigion ar gyfer y ffordd ymlaen mewn perthynas â'r defnydd o CTCau⁸.

Gwahoddwyd ymarferwyr a staff o asiantaethau rhanddeiliaid allweddol i fynychu dau weithdy a gynhaliwyd yn Ne a Gogledd Cymru ar ddiwedd Mehefin a dechrau Gorffennaf 2006, i drafod yr awgrymiadau polisi oedd wedi'u cynnwys yn y papur trafod. Yn ogystal, gwahoddwyd sefydliadau nad oeddent yn gallu anfon cynrychiolwyr i'r gweithdai i anfon eu sylwadau ysgrifenedig ar yr awgrymiadau polisi i'r ymgynghorwyr. Mynychodd 25 o gyfranogwyr y ddau

weithdy a derbyniwyd sylwadau ysgrifenedig gan 3 sefydliad⁹. Defnyddiwyd y sylwadau a dderbyniwyd gan ymarferwyr a rhanddeiliaid ar y papur trafod i lunio'r awgrymiadau polisi sydd wedi'u cynnwys ym Mhennod 5.

3 Strwythur yr adroddiad

Strwythurir gweddill yr adroddiad fel a ganlyn:

Mae Pennod 2 yn adolygu'r cyd-destun polisi ar gyfer gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai.

Mae Pennod 3 yn cynnig adolygiad wedi'i ffocysu o'r llenyddiaeth ar waith partneriaeth fel y mae'n cysylltu â CTCau.

Mae Pennod 4 yn nodi canfyddiadau'r ymchwil ar effeithiolrwydd CTCau.

Mae Pennod 5 yn nodi awgrymiadau polisi ar gyfer dyfodol Cytundebau Tai Cymunedol.

⁷ Cysylltir copïau o'r holiaduron a ddefnyddiwyd gyda staff awdurdodau lleol a chymdeithasau tai lle roedd CTC yn ei le yn atodiad 8. Cysylltir copïau o'r holiaduron a ddefnyddiwyd gyda staff awdurdodau lleol a chymdeithasau tai lle nad oedd CTC yn ei le yn atodiad 9.

⁸ Cysylltir copi yn atodiad 10.

⁹ Cysylltir adroddiad yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd yn y gweithdy a'r rheiny a dderbyniwyd yn ysgrifenedig yn atodiad 11.

Pennod 2 Adolygiad Polisi

1 Cyflwyniad

Rhydd y bennod hon adolygiad o'r amgylchedd polisi yng Nghymru cyn, ac yn dilyn datblygu'r Cytundeb Tai Cymunedol model ym 1998. Er bod y prosiect yn canolbwyntio ar CTCau, cytunwyd gyda'r Grŵp Llywio y byddai gan yr adolygiad polisi gylch gorchwyl ehangach ac y byddai'n darparu trosolwg o drefniadau partneriaeth yn fwy cyffredinol a'r amgylchedd polisi ehangach. Mae'r bennod yn dod i ben drwy ganolbwyntio ar yr amgylchedd polisi yn Lloegr a'r Alban cyn llunio casgliadau am waith partneriaeth yn y sector tai yng Nghymru.

2 Gwaith partneriaeth yng Nghymru

Bu gwaith partneriaeth yn llinyn cyson yn rhedeg drwy ddatblygiad polisi cyhoeddus yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU ers mwy nag 20 mlynedd. Ar ddiwedd y 1970au, gwelwyd polisi oedd yn ymddangos ar ddinasoedd mewnol, gyda'i bwyslais ar gydweithio agosach rhwng y llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, fel trobwynt ym mholisi dinesig Prydain¹⁰. Ar ddechrau'r 1980au, dechreuodd y llywodraeth Geidwadol raglen o ddiwygiadau gafodd effaith fawr ar y ffordd yr oedd gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflwyno, yn cynnwys helaethder a natur gwaith partneriaeth. Anogwyd llywodraeth leol i sefydlu partneriaethau cyhoeddus/preifat i fynd i'r afael â phroblemau lleol ac i archwilio opsiynau ar gyfer prynu darparu'r gwasanaeth i mewn¹¹. Gyda chyflwyno Tendro Cystadleuol Gorfodol rhoddwyd dyletswydd ar awdurdodau lleol i brofi pa mor gost

effeithiol oedd eu gwasanaethau ac i brynu gwaith i mewn os oedd darparwyr eraill yn fwy cystadleuol. Mewn perthynas â darparu tai cymdeithasol, o ganlyniad i bolisi a newidiadau i drefniadau ariannol disodlwyd awdurdodau lleol fel darparwyr uniongyrchol gan gymdeithasau tai, ac anogwyd awdurdodau lleol i gymryd rôl fwy strategol. Fel y gwelwn isod, mae'r pwyslais ar waith partneriaeth wedi parhau'n ddi-dor ers y 1980au, er y cafwyd rhai newidiadau o safbwynt pwyslais.

3 Gwaith partneriaeth yn y sector tai

Yn ystod y 1980au, roedd polisi'r llywodraeth yn golygu bod cymdeithasau tai yn disodli awdurdodau lleol fel prif ddarparwyr tai cymdeithasol ychwanegol yng Nghymru, er, tan yn gymharol ddiweddar, roedd nifer bach o awdurdodau lleol yn cynnal rhaglenni adeiladu. Fodd bynnag, roedd gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai (a'u rheoleiddiwr Tai Cymru) yn gyfyngedig, ac fel arfer yn gysylltiedig â datblygu cynlluniau tai cymdeithasol newydd ac enwebiadau i osodiadau cymdeithasau tai.

Ym 1991, cyflwynodd Tai Cymru Gytundebau Tai Strategol, â'r nod o gysylltu datblygu tai cymdeithasol newydd gydag amcanion polisi awdurdodau lleol unigol. Pwrpas y Cytundeb Tai Strategol yw:

- a) *to further the working relationship with local authorities;*
- b) *to recognise the importance of the strategic responsibilities of local authorities; and*
- c) *to provide a more formal basis for partnership.*¹²

¹⁰ Hastings, A. (1996).

¹¹ Hastings, A. a A. McArthur (1995).

¹² Tai Cymru (1992).

Cyn ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru ym 1996, roedd Tai Cymru wedi ffurfio Cytundebau Tai Strategol gyda 9 o'r 37 cyngor dosbarth¹³. Wrth adolygu ei berthynas â llywodraeth leol o'i sefydlu ym 1989 i ad-drefnu llywodraeth leol, awgrymodd Tai Cymru mai'r nifer cymharol fach o Gytundebau Tai Strategol oedd:

*"perhaps the most disappointing feature of the last seven years."*¹⁴

Yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol a sefydlu awdurdodau unedol haen sengl, ceisiodd Tai Cymru ffurfio Cytundebau Tai Strategol gyda phob un o'r 22 awdurdod lleol. Er na chyflawnodd hyn, roedd mwy na 50% wedi llofnodi cytundebau erbyn adeg uno Tai Cymru ag Is-adran Dai y Swyddfa Gymreig ym mis Ionawr 1999.¹⁵

Ar adeg yr uno, roedd gwerthfawrogiad yn ymddangos ymysg ymarferwyr tai yn y sector awdurdod lleol a chymdeithasau tai o'r canlynol:

- y cyfraniad y gallai cymdeithasau tai ei wneud i gyflwyno nodau ac amcanion ehangach yr awdurdodau unedol newydd; a'r
- angen i gymdeithasau tai hyrwyddo eu gweithgareddau i swyddogaethau y tu hwnt i dai o fewn yr awdurdodau newydd.

Canlyniad hyn oedd datblygu'r CTC model gan Fforwm Landlordiaid Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru. Ceisiodd y CTC model sicrhau bod ystod ehangach o weithgareddau yn cael eu hymgorffori yn y cytundeb, gan gydnabod y cyfraniad y gall tai ei wneud:

*"not only meeting housing needs, but also to assisting the regeneration of healthy communities."*¹⁶

Nododd yr atodlen i'r cytundeb restr helaeth o feysydd gweithgaredd yr ystyriwyd y dylid eu hymgorffori o fewn CTC. Roedd hyn yn cynnwys tai strategol, rheoli tai gweithredol a gweithgareddau cynhwysiad cymdeithasol.

4 Y cyd-destun polisi newidiol yng Nghymru

Ers 1998, mae'r amgylchedd polisi gwaith partneriaeth ar gyfer llywodraeth leol a chymdeithasau tai yng Nghymru wedi newid yn sylweddol. Ers ei sefydlu, bu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gadarn ymrwymedig i waith partneriaeth. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn gosod rhwymedigaeth unigryw ar y Cynulliad i ymgynghori â sefydliadau busnes a gwirfoddol. Ym 1998, sefydlodd y Cynulliad gynghorau partneriaeth ffurfiol â llywodraeth leol (y Cyngor Partneriaeth), y gymuned fusnes (Y Cyngor Partneriaeth Fusnes) a'r sector gwirfoddol (Y Cyngor Partneriaeth Sector Gwirfoddol).

Mae datblygiadau polisi diweddar yng Nghymru wedi atgyfnerthu pwysigrwydd, neu yn wir, y rheidrwydd i lywodraeth leol weithio'n agos â phartneriaid lleol a chenedlaethol i gyflawni amcanion strategol pwysig.

Creu'r Cysylltiadau

Mae agenda eang Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus - a nodir yn *Creu'r Cysylltiadau*, a gyhoeddwyd yn hydref 2004¹⁷, yn tanlinellu pwysigrwydd hanfodol cydweithio ar

¹³ Tai Cymru (1994) Y ddogfen ddiweddaraf gan Tai Cymru yn dangos nifer y Cytundebau Tai Strategol a luniwyd yw'r Polisiâu a Chynlluniau Buddsoddi 1994/95.

¹⁴ Bader, J. (1996:9-10).

¹⁵ Tai Cymru (1998).

¹⁶ Fforwm Landlordiaid Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru (1998:2).

¹⁷ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004).

draws ffiniau sefydliadol a daearyddol. Gellir cyflawni amcanion allweddol *Creu'r Cysylltiadau*, sef cyflwyno safonau cyson uchel sy'n gwella mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus, sefydlu, myfyrio ar a chwrdd ag anghenion a blaenoriaethau cymunedau a dinasyddion, a chanolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na phrosesau dim ond os yw sefydliadau yn cydweithio.

Mae *Creu'r Cysylltiadau* hefyd yn cwmpasu argymhellion adolygiad Gershon ar effeithlonrwydd y sector cyhoeddus¹⁸. Mae'r ddau yn pwysleisio pwysigrwydd partneriaethau a chydweithio fel ffordd o wireddu enillion mewn effeithlonrwydd. Anogir awdurdodau lleol i ystyried caffael proffesiynol sy'n fwy ar y cyd, gan symleiddio swyddogaethau cefnogi a mwyafu'r gwerth o fuddsoddi cyfalaf. Disgwylir i awdurdodau lleol Cymru yn y dyfodol nodi'r enillion mewn effeithlonrwydd y maent wedi'u cyflawni yn y flwyddyn ddiwethaf gyda thargedau cyffredinol, a thargedau am enillion yn benodol o well caffael yn eu Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (RhCG). Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Gwerth Cymru, wedi cyhoeddi yn ddiweddar bapur ymgynghori ar wireddu enillion effeithlonrwydd drwy gaffael cydweithredol sy'n atgyfnerthu pwysigrwydd gweithio gyda sefydliadau partner¹⁹.

Mae'n bwysig cydnabod hefyd bod y cyd-destun daearyddol ar gyfer gwaith partneriaeth yn newid. Mae *Creu'r Cysylltiadau* yn pwysleisio pwysigrwydd cael gwasanaethau sy'n sensitif i amgylchiadau lleol a chael pobl leol i ymwneud â gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn helpu i

sicrhau bod datrysiadau a luniwyd yn lleol, gyda rheiny yn eu tro yn rhai mwy effeithiol, yn cael eu datblygu ar gyfer problemau lleol. Mae potensial hefyd i'r ymagwedd hon ailgynnu cyfranogiad y cyhoedd. Mae'r rhaglen *Cymunedau'n Gyntaf* yn enghraifft o fenter sy'n gwbl seiliedig ar ddatrysiadau lleol ar gyfer problemau lleol, ar y sail mai gan y bobl a'r sefydliadau lleol mae'r wybodaeth leol hanfodol. Yn 2006 roedd partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf yn yr ardaloedd canlynol:

- y 100 adran etholaethol o amddifadedd uchaf yng Nghymru (fel y pennwyd gan Fynegai Amddifadedd Lluosog 2000);
- 32 o glytiau o amddifadedd (lefel is-adran etholaethol); ac
- 11 cymuned o ddiddordeb (cymunedau sectoraidd o fewn ardal ddaearyddol a ddiffiniwyd).

Yn ogystal, mae pwysau hefyd i ffurfio partneriaethau rhanbarthol mwy, weithiau i wireddu effeithlonrwydd, i geisio ar y cyd am arian, neu i fynd i'r afael â materion sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol. Mae awdurdodau Cymru wedi ffurfio pedwar corff awdurdod lleol rhanbarthol i hwyluso cydweithio ar faterion a gwasanaethau fel trafndiaeth, datblygiad economaidd a gwaredu gwastraff²⁰. Ym maes tai, mae rhanbarthiaeth hefyd ar yr agenda. Mae cynllun gweithredu *Creu'r Cysylltiadau* yn sôn yn benodol am bartneriaethau rhanbarthol, fel Partneriaeth Blaenau'r Cymoedd, fydd yn ceisio defnyddio buddsoddi mewn tai, yn arbennig mewn perthynas â'r adnewyddu ar raddfa fawr a gynllunnir o safbwynt tai cymdeithasol, fel un o'r prif gyfryngau adfywio yn y rhanbarth.

¹⁸ Syr Peter Gershon (2004).

¹⁹ Gwerth Cymru (2006).

²⁰ <http://www.wlga.gov.uk/content.php?nID=336;IID=1>

Rhesymoli Cynlluniau

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol ar awdurdodau lleol baratoi strategaeth gymunedol i hyrwyddo a gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardal, a chyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy a chyfle cyfartal. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei wneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol, wrth baratoi strategaethau cymunedol, yn ymgynghori â cheisio cyfranogiad sefydliadau a phobl y maent yn eu hystyried yn rhai priodol. Mae arweiniad ar baratoi strategaethau cymunedol²¹ yn ei wneud yn glir bod yn rhaid i gyfranogiad partneriaid fod yn gynhwysfawr ac yn ystyrlon, gan ymestyn o lunio blaenoriaethau lleol i fonitro a gwerthuso canlyniadau. Er bod yr arweiniad sy'n cefnogi datblygu strategaethau cymunedol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, mae'r pwyslais ar weithio ar y cyd gyda phartneriaid yn sicr yn parhau, yn enwedig o ystyried cyfeiriad datblygiadau polisi diweddar eraill.

Er y bydd awdurdodau lleol yn parhau i baratoi strategaethau cymunedol, mae'n debygol y bydd gofynion cynllunio statudol eraill yn cael eu lleihau'n sylweddol rhwng 2006 a 2009²². Disgwylir i awdurdodau lleol gael tair strategaeth lefel uchel yn unig, wedi'u gosod o dan y strategaeth gymunedol. Bydd y strategaethau hyn, yn cwmpasu iechyd, gofal cymdeithasol a lles, plant a phobl ifanc a'r cynllun datblygu lleol, yn gosod gweledigaethau hir dymor a rennir ar gyfer cwrdd ag anghenion lleol a chyfrannu at flaenoriaethau cenedlaethol. Yn ogystal, bydd awdurdodau lleol yn cyfrannu at Gynllun Gofodol Cymru y mae iddo gylch gorchwyl daearyddol ehangach ac sy'n gosod gweledigaeth a gweithredoedd blaenoriaeth ar gyfer chwe is-adran yng Nghymru.

Gwaredwyd y gofyniad ar gyfer strategaethau gwasanaeth penodol byr dymor a thymor canolig (fel y Strategaeth Dai) o 2008, er y gall awdurdodau lleol benderfynu eu datblygu a'u defnyddio o hyd. Fodd bynnag, nid oes rhaid i unrhyw strategaethau o'r fath a ddatblygir gydymffurfio ag unrhyw arweiniad, ac nad oes angen ychwaith eu cyflwyno i'r Cynulliad.

Mae'r newid i nifer bach o strategaethau lefel uchel yn cryfhau'r angen am waith partneriaeth, gan ni ellir mynd i'r afael â nifer o'r materion dan sylw - er enghraifft, defnydd mwy cynaliadwy o'r tir, gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc a gwell iechyd i'r boblogaeth yn gyffredinol gan unrhyw sefydliad neu sector unigol ar ei ben ei hun.

Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (RhCG)

Cyflwynwyd RhCG yn 2002, ac mae'n adeiladu ar y fframwaith Gwerth Gorau a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999. Mae Deddf 1999 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i geisio gwelliant parhaus yn y ffordd y maent yn gweithredu eu swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, ac ansawdd y gwasanaethau. Mae RhCG wedi cymryd egwyddorion Gwerth Gorau a'u gosod o fewn cyd-destun hunanasesu a gweithredu ar gyfer gwella yn seiliedig ar risg. Mae arweiniad diwygiedig RhCG yn gosod pwyslais cynyddol ar bwysigrwydd cynnwys partneriaid yn y broses o gynllunio, cyflwyno ac adrodd am welliant. Yn fwy penodol, mae'r arweiniad yn awgrymu y dylai partneriaid/defnyddwyr gwasanaeth fod ynghlwm wrth asesiadau blynyddol gwasanaethau a swyddogaethau ac yn unrhyw adolygiadau sylfaenol eraill y mae awdurdodau yn penderfynu eu

²¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001b).

²² Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005a).

cynnal o bryd i'w gilydd. Nid oes model argymelledig ar gyfer cyflwyno asesiadau, ond noda'r nodiadau arweiniad y dylent gwmpasu nodau, anghenion, cyflwyno, effeithlonrwydd, gallu, atebolrwydd a chynhwysiad y gwasanaeth.

*"Authorities should aim in all cases to base their assessments on as wide a range of views and evidence as possible, and to conduct them inclusively. This should generally involve reflecting the views of service users, partner organisations, community groups and peers as appropriate."*²³

Yn nhermau adolygiadau cyfnodol, mae'r arweiniad yn sôn yn benodol y dylai awdurdodau lleol ystyried cynnal adolygiadau ar y cyd gydag awdurdodau lleol eraill a phartneriaid, yn enwedig pan y gallai fod posibilrwydd ar gyfer cydweithio wrth gyflwyno gwasanaethau.

Dywed yr arweiniad hefyd y dylai canlyniadau adolygiadau perfformiad blynyddol ac asesiadau risg ac unrhyw adolygiadau cyfnodol gael eu hintegreiddio'n llawn i mewn i brosesau cynllunio a chyllidebol awdurdodau lleol a bod angen eu cyfathrebu'n weithgar i ddefnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid.

Er bod arweiniad RhCG yn gosod pwyslais sylweddol ar gyfranogiad partneriaid wrth gynllunio, cyflwyno a gwerthuso gwasanaethau, nid oes model rhagnodol yn bodoli. Penderfyniad yr awdurdodau lleol ydyw sut y maent yn dehongli ac y cymhwyso'r gofyniad. Mae'n debygol felly y bydd yr ymagweddau yn amrywio rhwng awdurdodau ac o bosib hyd yn oed rhwng gwasanaethau o fewn awdurdod. Er mai dyddiau cynnar ydyw yn hanes arweiniad diwygiedig RhCG, bydd yn bwysig gweld sut mae cyfranogiad partneriaid mewn perthynas â gwasanaethau sy'n ymwneud

â thai yn datblygu, yn enwedig o ystyried y cynnig i waredu'r gofyniad ar gyfer strategaeth dai.

Adolygiad Beecham o Gyflwyno Gwasanaethau Lleol

Ym mis Gorffennaf 2005, penodwyd Syr Jeremy Beecham i ymgymryd ag adolygiad cynhwysfawr o gyflwyno gwasanaethau lleol yng Nghymru. Roedd dau brif nod i'r adolygiad, sef:

- nodi gwelliannau yn y trefniadau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau lleol, sydd mor radical ac mor flaengar ag y bo angen; ac
- archwilio sut y gellir defnyddio, datblygu ac addasu'r trefniadau presennol ar gyfer atebolrwydd i gefnogi'r blaengaredd hwn.

Bu'r adolygiad yn archwilio cyflwyno gwasanaethau mewn meysydd allweddol, gan dalu sylw arbennig i'r materion trawstoriadol sy'n ganolog i wella canlyniadau. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar awdurdodau lleol, cyrff ieuchyd a sefydliadau lleol eraill sy'n cyflwyno gwasanaethau yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol ac annibynnol ac archwiliodd y ffordd orau i fwyafu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyflwyno er budd defnyddwyr gwasanaethau a thalwyr trethi.

Adroddodd yr adolygiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Gorffennaf 2006²⁴. Argymhellodd yr adolygiad y dylai Cymru anelu at fod yn enghraifft batrymol o lywodraethu gwlad fach ac y dylid gyrru hyn gan bedwar ffactor llwyddiant hollbwysig:

- cyfranogiad dinasyddion;
- cyflwyno;
- partneriaeth; a
- her.

²³ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005d:13).

²⁴ Beecham, J. (2006).

Cydnabu'r adolygiad bwysigrwydd gwaith partneriaeth a'r angen i bensaernïaeth gyfan gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ynghyd â diwylliant, sgiliau ac ymddygiad y rheiny sy'n gweithio ynddynt, gael eu gwneud yn fwy addas ar gyfer cyflwyno a rennir.

Er nad oedd yr adolygiad yn argymhell ad-drefnu strwythurol, awgrymodd fod angen gweithredu er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau cyfalaf ac y gellid cyflawni hyn yn y modd mwyaf effeithiol drwy gydweithio ar draws sefydliadau.

Casgliad ac argymhelliad allweddol o'r adolygiad oedd datblygu Contractau Gweithredu Partneriaeth (CGPau), lle mae'r sefydliadau cyflwyno lleol allweddol yn cyd-drafod gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Adrannau Llywodraeth y DU nad ydynt wedi'u datganoli i gytuno ar set o weithredoedd blaenoriaeth ar gyfer yr ardal. Dylai'r cytundebau hyn fod yn gydbwysedd a gyd-drafodwyd o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol a chafwyd cydnabyddiaeth fod y broses gyd-drafod ei hun yn hollbwysig wrth sicrhau gwelliant o safbwynt cyflwyno gwasanaethau i ddinasyddion. Argymhellodd adroddiad yr adolygiad y dylid treialu CGPau mewn nifer bach o ardaloedd awdurdodau lleol gydag enw da am weithio amlasiantaeth effeithiol.

5 Y cyd-destun polisi tai cyfnewidiol

Mae pwysigrwydd gwaith partneriaeth hefyd yn rhedeg drwy bolisi tai yng Nghymru ar ôl 1998. Mae strategaeth dai genedlaethol ac arweiniad mwy penodol ar, er enghraifft, cefnogi pobl a digartrefedd, oll yn pwysleisio pwysigrwydd gwasanaethau tai awdurdodau lleol yn gweithio gyda phartneriaid allweddol.

Er enghraifft, mae arweiniad drafft ar ddatblygu strategaethau tai lleol yn dweud y dylid datblygu'r strategaeth:

*"involving key local partners in formulating, implementing, monitoring and reviewing the Local Housing Strategy."*²⁵

Cyhoeddwyd arweiniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn benodol ar sut y dylai awdurdodau lleol gynnwys y sector preifat wrth ddatblygu a chyflwyno eu strategaethau tai²⁶. Yn fwy diweddar, mae'r cynllun gweithredu pum mlynedd *Creu'r Cysylltiadau*²⁷ yn nodi y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio ffurfio cydweithio cryfach o rai tai.

Mae nifer o newidiadau mewn polisi wedi atgyfnerthu'r angen am waith partneriaeth fwy effeithiol rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai.

Pwysigrwydd cynyddol y swyddogaeth dai strategol
Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cafwyd gwerthfawrogiad cynyddol o bwysigrwydd marchnad dai gytbwys fel elfen hanfodol wrth ddatblygu cymunedau cymdeithasol gyfiawn a chynaliadwy. Erbyn hyn ystyrir prinder tai perchennog ddeiliad, o ganlyniad i gynnydd sylweddol mewn prisiau tai ledled Cymru yn fater allweddol gan bobl leol, y cyfryngau a gwleidyddion fel ei gilydd. Ar ddau achlysur, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno is-ddeddfwriaeth ar ddigartrefedd ac wedi gwneud adolygiad cyflawn o'r Strategaeth Ddigartrefedd Genedlaethol gyda ffocws clir ar atal digartrefedd a dileu'r defnydd o lety gwely a brecwast.

Erbyn hyn mae cyfraniad gwariant tai i economïau lleol a'i botensial i chwarae rôl mewn strategaethau adfywio yn dechrau cael ei werthfawrogi. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa ddiwedd y 1990au,

²⁵ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006a).

²⁶ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003).

²⁷ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005b).

Ile y gwelwyd cyfraniad tai tuag at gyflawni nodau ac amcanion cenedlaethol a lleol yn ymylol ar y gorau.

Ar yr un adeg, mae gwell gwerthfawrogiad o bwysigrwydd hanfodol rôl dai strategol awdurdodau lleol wedi dechrau ymddangos. Ar ddiwedd y 1990au, roedd rôl dai strategol awdurdodau lleol fel arfer wedi'i gyfyngu i "alluogi" cyflwyno tai fforddiadwy newydd, rhai elfennau ar adnewyddu'r sector preifat a chynhyrchu'r Strategaeth Dai Leol. Mae dealltwriaeth sy'n datblygu bellach yn bodoli ynghylch pwysigrwydd rôl dai strategol awdurdodau lleol a'r hyn y mae'r swyddogaeth ei hun yn ei olygu. Yn ei Fanifesto ar gyfer Llywodraeth Leol Cymru²⁸ cydnabu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) bwysigrwydd y swyddogaeth dai strategol a gwneud datblygu'r swyddogaeth hon yn un o'u blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd ddilynol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiweddar wedi cefnogi, drwy'r gronfa Grant Rheoli Tai Cymdeithasol, fenter gan Sefydliad Tai Siartredig Cymru i ddatblygu sylfaen sgiliau'r staff tai strategol o fewn awdurdodau lleol Cymru.

Cydnabuwyd pwysigrwydd cynyddol y swyddogaeth dai strategol a'r angen i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth agos â chymdeithasau tai gan FfCTC a CLILC ym mis Mawrth 2006 pan lansiwyd eu Protocol Gwaith Partneriaeth. Mae'r protocol yn nodi'r meysydd lle y dylai cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol gydweithio mewn partneriaeth. Bydd y ddau sefydliad yn annog awdurdodau lleol unigol a chymdeithasau tai sy'n gweithio yn eu hardaloedd i fabwysiadu'r protocol²⁹.

Effaith trosglwyddo stoc ar y swyddogaeth dai strategol

Mae'r disgwyliad yn *Cartrefi Gwell i Bobl Cymru* y dylai pob landlord cymdeithasol gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn 2012 wedi annog llawer o awdurdodau lleol i ystyried yr opsiynau sydd ar gael iddynt. Mae rhai wedi dod i'r casgliad nad ydynt yn gallu cwrdd â'r safon a'i chynnal y tu hwnt i 2012 o fewn y model perchenogaeth presennol. Mae un awdurdod lleol, Pen-y-bont ar Ogwr wedi trosglwyddo ei stoc tai i gymdeithas dai sydd newydd ei sefydlu. Ar adeg ysgrifennu mae pum awdurdod lleol wedi ymrwymo i gynnal pleidlais ymysg eu tenantiaid ar drosglwyddo (Torfaen, Sir Fynwy, Abertawe, Rhondda Cynon Taf a Chasnewydd) ac mae nifer o rai eraill yn mynd drwy'r broses o arfarnu'r opsiynau ar hyn o bryd. Bydd y rôl dai strategol a dulliau effeithiol ar gyfer cynllunio a gweithredu gwaith partneriaeth yn hanfodol bwysig i'r awdurdodau hynny y trosglwyddir eu stoc. Mae angen i unrhyw drefniadau yn y dyfodol ar gyfer gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ddarparu ar gyfer sefyllfa lle nad oes gan yr awdurdod lleol unrhyw stoc tai a lle un o'i berthnasau tai allweddol yw gyda'r gymdeithas dai sydd wedi derbyn y stoc honno.

Effaith rhesymoli cynlluniau ar dai

Mae'r newidiadau a gyflwynir gan resymoli cynlluniau yn cynnwys peryglon posib. Mae'r symudiad i nifer bach o strategaethau lefel uchel a rennir yn golygu y gallai trefniadau partneriaeth gwasanaeth penodol, er enghraifft, mewn meysydd sy'n gysylltiedig â thai, ei chael ei anodd canfod eu lle yn y darlun strategol ehangach hwn. Mae perygl y gallai gweithredu cynigion rhesymoli'r cynllun danseilio'r swyddogaeth

²⁸ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2005).

²⁹ Welsh Housing Quarterly (2006).

dai strategol ar lefel leol. Golyga hyn bod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ystyried yn ofalus yr arweiniad y mae'n ei gynnig i awdurdodau lleol ar gyflwyno'r swyddogaeth dai strategol yn effeithiol.

Effaith Creu'r Cysylltiadau yn y sector tai

Mae *Creu'r Cysylltiadau* yn sôn yn benodol am bartneriaethau rhanbarthol. Ym maes tai, mae rhanbarthiaeth yn ffactor pwysig, sy'n cael ei amlygu gan nifer o gonsortia awdurdodau lleol sy'n cydweithio fel Fforwm Tai Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru (FfTRhDDdC), Partneriaeth Dai Ranbarthol Gogledd Cymru a'r Rhwydwaith Awdurdodau Tai Gwledig (RhATG). Mae'r cydweithio rhanbarthol hwn, sydd yn bennaf yn cynnwys awdurdodau lleol, yn dechrau dwyn ffrwyth gyda Chynghorau Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen yn cynnig cynhyrchu strategaeth dai ranbarthol ym mis Ebrill 2007.

Fodd bynnag, mae effaith agenda *Creu'r Cysylltiadau* wedi bod yn fwy amlwg yn y sector cymdeithasau tai. Ym mis Gorffennaf 2004, cyhoeddwyd Datblygu Partneriaethau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn dilyn ymgynghoriad ar ddyfodol datblygu a chaffael y Grant Tai Cymdeithasol. Yn y papur gwnaed y cysylltiad rhwng agenda *Creu'r Cysylltiadau* ac uchelgais y Cynulliad i wireddu arbedion effeithlonrwydd. Yn hydref 2004 ac yn gynnar yn 2005, ffurfiwyd cymdeithasau tai yn gonsortia. Mae'r consortia, yn rhannol, wedi'u seilio ar fodelau o gydweithio rhanbarthol ac maent wedi cymryd cyfrifoldeb dros reoli'r rhaglen Grant Tai cymdeithasol i ddatblygu tai cymdeithasol newydd gan awdurdodau lleol unigol.

Mae lefel y gwaith partneriaeth o fewn consortia yn amrywio. Tra o fewn rhai consortia, cyfyngir gwaith partneriaeth i ddatblygu tai cymdeithasol newydd, mewn eraill cafodd ei ymestyn i ystyried cydweithio llawer agosach ar draws ystod o feysydd, yn cynnwys ystyried caffael ar y cyd mewn perthynas â chynnal a chadw tai, rheoli tai a gwasanaethau cefnogi.

Gwerth Gorau i Gymdeithasau Tai a'r Cod Rheoleiddio

Mae disgwyliadau cryf y bydd cymdeithasau tai yn gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol. Estynnwyd y cynllun Gwerth Gorau i'r sector cymdeithasau tai yn 2001 ac mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mabwysiadwyd cod rheoleiddio diwygiedig ar gyfer cymdeithasau tai ym mis Mawrth 2006. Bydd arolygu gan Swyddfa Archwilio Cymru yn erbyn y cod rheoleiddio newydd yn cynnwys edrych ar gadernid trefniadau partneriaethau lleol. Mae'r cod rheoleiddio newydd yn cynnwys disgwyliad allweddol i gymdeithasau:

*"work in partnership with awdurdodau lleol to identify and provide for the housing related needs of their area."*³⁰

6 Y darlun mewn mannau eraill o'r DU

Yn dilyn ein hadolygiad cryno o drefniadau gwaith partneriaeth yn Lloegr a'r Alban, mae'n glir fod gwaith partneriaeth yn rym ysgogol yr un mor gryf yn Lloegr a'r Alban ag y mae yng Nghymru, er bod llawer o'r offerynnau polisi yn amrywio.

Yn Lloegr, mae cyflwyno Cytundebau Ardal Lleol (CALLau) wedi bod yn ddatblygiad allweddol. Fe'u cyflwynwyd mewn 21 o ardaloedd pilot ym mis Hydref 2004, a dulliau ydynt i gyflwyno gwell canlyniadau parthed gwasanaethau

³⁰ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006b:4).

lleol drwy well cydlynw rhwng y llywodraeth yn ganolog ac awdurdodau lleol a'u partneriaid. Cyd-drafodir y cytundebau rhwng partneriaid lleol a Swyddfeydd y Llywodraeth (ar ran y llywodraeth yn ganolog), ac maent yn nodi ystod o ganlyniadau cytunedig a rennir gan yr holl bartneriaid cyflwyno gyda dangosyddion, targedau a ffurfiâu ariannu cysylltiedig. Strwythurir y CALLau o gwmpas tair thema - plant a phobl ifanc, cymunedau cryfach a mwy diogel a ieuchyd a phobl hŷn. Mae gwerthusiad cynnar o'r cynllun peilot³¹, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2005, yn bositif ar y cyfan am y fenter, ac estynnwyd y prosiect peilot i gwmpasu 40 o ardaloedd awdurdod lleol yn 2005/06.

Mae CALI yn dilyn nifer o fentrau partneriaeth eraill mwy penodol, sydd naill ai'n seiliedig ar ardaloedd yn benodol, neu'n ymwneud â thema. Yn bwysicaf oll ers 2000, fel rhan o strategaeth genedlaethol ar adnewyddu cymdogaethau, mae'r Llywodraeth wedi annog awdurdodau lleol i sefydlu Partneriaethau Strategol Lleol (PSLLau), yn seiliedig, lle bynnag y bo'n bosib, ar bartneriaethau presennol fel partneriaethau cynllunio cymunedol neu bartneriaethau Parth Gweithredu Iechyd. Bwriad Partneriaethau Strategol Lleol yw dod ag awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaeth eraill, busnes, y sector gwirfoddol a chymunedau at ei gilydd, er mwyn datblygu ymagweddau mwy cydlynus tuag at broblemau cymdogaethau sydd wedi'u hamddifadu. Cefnogwyd ffurfio a gwaith PSLLau ar draws Lloegr gan raglen ymchwil a datblygu Gweithgor Ffurio Partneriaethau Strategol, a sefydlwyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog ac oedd

yn weithredol rhwng mis Medi 2001 a mis Mawrth 2004.

Mae Agenda Gershon³² yn sefydlu targedau heriol i awdurdodau lleol Lloegr wireddu arbedion blynyddol o 2.5%. Cyflawnir arbedion drwy safoni arfer gorau, ffurfio partneriaethau, caffael a rennir/ar y cyd a'r defnydd o rym y farchnad, ac mae'n ofynnol ar awdurdodau lleol gynhyrchu "datganiadau effeithlonrwydd blynyddol", yn yr un modd â chymdeithasau tai.

Adolygwyd y fethodoleg Asesu Perfformiad Cynhwysfawr (APC) er mwyn ystyried yr angen am wella arbedion effeithlonrwydd ac i adlewyrchu'r pwyslais uwch ar waith partneriaeth. Mae un o'r prif themâu, sef gallu, yn cynnwys archwiliad o pa mor effeithiol y mae awdurdodau lleol yn gweithio gydag eraill i wella eu potensial i gyflwyno. Bydd ffocws hefyd ar y defnydd o adnoddau ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth. Er enghraifft, mae un o'r Prif Linyddau Archwilio (PLA) ar gyfer archwiliadau tai yn cynnwys ystod o gwestiynau ar reoli gwerth am arian drwy bartneriaethau, caffael a chymryd golwg hir dymor.

Mae Archwiliad Lyons³³ i ddyfodol llywodraeth leol yn Lloegr yn gwneud nifer o argymhellion pellgyrhaeddol, yn cynnwys ymestyn pŵer llywodraeth leol mewn perthynas â chyflwyno lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae argymhelliad arall yn ymwneud yn benodol â chryfhau gallu llywodraeth leol i ddylanwadu ar bartneriaid drwy gyflwyno dyletswydd statudol ar asiantaethau lleol i gydweithio â llywodraeth leol.

Mae'r syniad o "ddatganoli dwbl" a nodwyd gan David Milliband³⁴

³¹ SDBW (2005).

³² Gershon, P. (2004).

³³ Lyons, M. (2006).

³⁴ David Milliband (2006) Araith gan David Milliband o'r enw "Empowerment not abandonment" i gynhadledd flynyddol Cyngor Cenedlaethol y Sefydliadau Gwirfoddol. 21ain Chwefror 2006.

(y cyn Weinidog dros Gymunedau a Llywodraeth Leol), o'r farn y byddai datganoli pŵer ymhellach i lywodraeth leol yn ddibynnol ar lywodraeth leol yn chwarae rôl fwy strategol o fewn eu cymunedau ac yn rhannu pŵer gydag unigolion a chymunedau, yn enwedig sefydliadau trydydd sector (gwirfoddol). Byddai datganoli dwbl yn gofyn am y canlynol:

- awdurdodau lleol i fod yn fwy agored i farn a safbwyntiau sefydliadau trydydd sector wrth ddatblygu strategaethau;
- darparu contractau tymor hwy i ddarparwyr sector preifat a gwirfoddol, lle mae'r llywodraeth wedi darparu arian ar sail tair blynedd i'r awdurdod lleol;
- pan yn datblygu ac yn gosod contractau, nodi'r canlyniadau i'w cyflwyno, yn hytrach na'r allbynnau manwl; a
- lle y mae asiantaethau yn gweithio ar draws silos proffesiynol, symleiddio trefniadau adrodd.

Ystyrir y syniad o ddatganoli dwbl yn thema arweiniol ar gyfer trydydd tymor y llywodraeth Lafur, gan fynd i'r afael â bwlch pŵer drwy roi fwy o reolaeth i bobl leol dros eu bywyd.

Mae datblygiadau polisi yn yr Alban hefyd wedi atgyfnerthu pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth. Mae'r un gofynion i awdurdodau lleol gydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu cynllun cymunedol lleol yn eu lle. Mae Cytundebau Canlyniadau Lleol wedi eu cyflwyno ar draws chwe ardal bolisi - cyrhaeddiad addysgol, gwasanaethau addysg a phlant, llythrennedd oedolion, cysgu ar y stryd, gofal cymunedol i'r henoed a Chronfa Gwasanaethau Cymdogaethau Gwell. Mae'r cytundebau,

sy'n debyg i Gytundebau Ardal Lleol yn Lloegr, yn seiliedig ar ganlyniadau a'r bwriad yw eu bod yn cysylltu blaenoriaethau cenedlaethol â chanlyniadau gwasanaethau lleol, tra'n caniatáu i awdurdodau lleol a'u partneriaid cynllunio cymunedol yr hyblygrwydd i ddatblygu datrysiadau lleol i broblemau lleol. Mae nifer o awdurdodau lleol yn yr Alban hefyd yn ystyried rhannu uwch reolwyr a chyflwyno gwasanaethau ar draws dau neu fwy o awdurdodau cyfagos mewn ymdrech i wella trefniadau llywodraethu a lleihau gorbenion³⁵.

7 Casgliadau

Mae'r agenda polisi yng Nghymru yn gosod pwyslais cynyddol ar awdurdodau lleol yn gweithio'n agos gyda phartneriaid, yn cynnwys cymdeithasau tai, i gytuno ar flaenoriaethau, cyflwyno gwasanaethau sy'n hygyrch ac yn sensitif i'r hyn y mae pobl yn ei ddymuno a'r hyn y mae ei angen arnynt, cyflawni canlyniadau allweddol, a gwireddu arbedion effeithlonrwydd.

O bosib, y mae nifer fawr o ffyrdd y gall awdurdodau lleol a chymdeithasau tai gydweithio, a hynny'n strategol ac yn weithredol. Mae'r fframwaith polisi yng Nghymru yn rhoi hyblygrwydd sylweddol i awdurdodau lleol i gwrdd â'r gofynion eang o gwmpas gwaith partneriaeth yn y modd y maent yn ei ystyried sydd orau. Nid oes unrhyw batrymlun cenedlaethol ar gyfer cyfranogi, ar yr amod bod yr ymagwedd a fabwysiedir yn ystyried barn y gymuned leol a phartneriaid.

Mae partneriaethau strategol yn canolbwyntio'n gynyddol ar themâu a materion y "darlun mawr", fel plant a phobl ifanc, iechyd a lles cymdeithasol. Mae hyn yn cynyddu'r pwysigrwydd i asiantaethau tai allweddol, yn cynnwys

³⁵ Erthygl ar wefan www.improvementservice.org.uk i'w chael drwy'r ddolen ganlynol http://www.improvementservice.org.uk/index.php?option=com_content&task=view&id=180&Itemid=233

gwasanaethau tai awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, chwarae rhan weithgar yn y partneriaethau hyn. Mae dileu'r gofyniad yn y dyfodol ar awdurdodau lleol i ddatblygu Strategaeth Dai yn atgyfnerthu pwysigrwydd rhoi "lle wrth y bwrdd strategaeth" i dai.

Gall Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella o bosib gynnig pont rhwng strategaethau lefel uchel trawstoriadol a chyflwyno gwasanaethau lleol. Mae arweiniad RhCG diwygiedig yn pwysleisio pwysigrwydd cysylltu â'r gymuned a phartneriaid wrth gynllunio, cyflwyno a monitro gwasanaethau (o fewn cyd-destun blaenoriaethau strategaethau cymunedol), er mai mater i'r awdurdodau lleol a'u partneriaid yw cytuno sut y dylid gwneud hyn.

Er bod y swyddogaeth dai strategol yn golygu bod yr awdurdod lleol yn creu, yn datblygu ac yn cynnal perthnasau gweithio positif gydag ystod eang o randdeiliaid a phartneriaid, ansawdd y berthynas rhwng awdurdod lleol a'i gymdeithasau tai partner sy'n pennu effeithiolrwydd cyflwyno'r swyddogaeth dai strategol.

Gellid dadlau ein bod ar gam hollbwysig yn natblygiad perthnasau rhwng awdurdodau a chymdeithasau tai. Mae'r amgylchedd partneriaeth yn symud yn gyflym, ac

mae materion trawstoriadol allweddol fel digartrefedd, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a chyfraniad tai i'r economi leol yn ei gwneud yn bwysicach fyth fod awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol. Mae'r posibilrwydd o drosglwyddo stoc mewn nifer cynyddol o awdurdodau lleol yn golygu y bydd rhaid eu bod wedi cryfhau eu swyddogaeth dai strategol a nodi'n glir sut y byddant yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r sefydliad trosglwyddo a'r cymdeithasau tai eraill yn eu hardal leol. Y mater hwn oedd yn tanategu'r galwad diweddar gan Sefydliad Tai Siartredig Cymru ar i Lywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth â CLILC, gynhyrchu arweiniad ar gyflwyno'r swyddogaeth dai strategol yng Nghymru³⁶.

Mae gwaith partneriaeth yn bwysicach nac erioed, ond o fewn cyd-destun mwy o ryddid a hyblygrwydd ar y lefel leol. Mae'r angen am wahanol berthnasau a'r pwyslais cynyddol ar rwydweithio a broceriaeth yn gofyn am sgiliau a chymwyseddau newydd, yn ogystal â modelau partneriaeth newydd. Felly, mae'r angen am ffurf ar gytundeb rhwng yr awdurdod lleol a'r partneriaid allweddol sydd ynghlwm wrth gyflwyno'r swyddogaeth dai strategol o bosib yn fwy heddiw nac yr oedd ym 1998.

³⁶ Sefydliad Tai Siartredig Cymru (2005).

Pennod 3 Gwaith partneriaeth - adolygiad o lenyddiaeth

1 Cyflwyniad

Darpara'r bennod hon drosolwg o'r llenyddiaeth mewn perthynas â gwaith partneriaeth. Mae llenyddiaeth helaeth ac amrywiol ar waith partneriaeth a chytunwyd â'r Grŵp Llywio byddai'r adolygiad yn gyfyng ei gwmpas, ac wedi'i ganolbwyntio ar feysydd o berthnasedd penodol i CTCau. Yn ogystal, roedd yr adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf oll ar ffynonellau wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd o ymarferwyr.

Er gwaethaf amrywiaeth y llenyddiaeth, roedd yn bosib nodi pedair thema gyffredin yr archwiler hwy isod.

2 Y cyd-destun polisi

Mae nifer o ffynonellau, rhai academiaidd yn bennaf, yn canolbwyntio ar hanes datblygu partneriaethau gwasanaethau cyhoeddus, naill ai ar draws y sector cyhoeddus yn gyffredinol³⁷ neu mewn perthynas â mathau penodol o bartneriaethau³⁸. Mae llawer o'r ffynonellau a anelir at gynulleidfaoedd o ymarferwyr, sy'n canolbwyntio mwy ar y cyd-destun polisi uniongyrchol, yn nodi ystod o resymau dros waith partneriaeth, yn cynnwys:

- mynd i'r afael â phroblemau amlddimensiwn, fel amgylchedd lleol gwael, a/neu amddifadedd cymdeithasol;
- integreiddio gwasanaethau yn well;
- deall problem neu anghenion/hoffterau pobl yn well;
- cael mynediad i gyllid;

- gwneud y mwyaf o adnoddau presennol/gwireddu effeithlonrwydd;
- lledaenu risgiau;
- datblygu ffyrdd mwy blaengar o weithio; ac
- oherwydd bod yna ofyniad statudol.

Nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr ac mae gwahanol bartneriaethau yn amlwg yn gosod gwahanol bwyslais ar wahanol amcanion.

3 Diffinio partneriaethau

Yn yr un modd ac y ceir llawer o bartneriaethau, mae llawer o wahanol ffyrdd i ddiffinio a chategoreiddio partneriaethau. Mae llawer o ddiffiniadau yn canolbwyntio ar sail gyfreithiol neu drefn drefniadaethol partneriaethau. Er enghraifft, mae'r Comisiwn Archwilio (1998) yn nodi pedwar prif fath o strwythur trefniadaethol ar gyfer partneriaethau:

- i) sefydliad ar wahân;
- ii) sefydliad "rhith";
- iii) cydleoli staff o sefydliadau partner; a
- iv) grŵp llywio heb adnoddau staff dynodedig.³⁹

Mae rhai diffiniadau yn canolbwyntio ar bwrpas partneriaethau, gyda'r gwahaniaeth mwyaf cyffredin yn digwydd rhwng partneriaethau busnes a chymdeithasol. Er enghraifft, er bod i gatedoreiddio partneriaethau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (SSCCaC) nifer o ddimensiynau, y ddau brif fath o bartneriaeth a nodir yw busnes, lle mae'r amcanion yn rhai masnachol, a chymdeithasol, lle mae'r amcanion yn gymdeithasol ac yn economaidd⁴⁰.

³⁷ Hastings, A. & A. McArthur, (1995).

³⁸ Hastings, A. (1996).

³⁹ Comisiwn Archwilio (1998).

⁴⁰ CIPFA (1994).

Mae diffiniadau eraill yn canolbwyntio ar raddau'r bartneriaeth, er y caiff hyn ei fynegi mewn gwahanol ffyrdd. Mae rhai ffynonellau yn cyfeirio at ysgol gyfranogiad Arnstein⁴¹ lle y disgrifir y ffurf leiaf cyfranogol ar bartneriaeth fel "llawdriniol" a'r mwyaf cyfranogol fel "rheoli dinasyddion"⁴². Yn ei gwaith, diffiniodd Arnstein bartneriaeth fel y radd isaf o reoli dinasyddion, lle y caiff pŵer ei ailddosbarthu drwy gyd-drafod a lle y rhennir cyfrifoldebau cynllunio a gwneud penderfyniadau.

Mae Sefydliad y Cyflogwyr yn nodi pum math o bartneriaeth o gydfodoli arwynebol i gydberchenogaeth lawn⁴³. Mae CIPFA, ar y llaw arall, yn cyfeirio at "raddau neu ddyfnder y bartneriaeth" o'r model cyfathrebu yn unig, lle mae partïon yn cydnabod bod ganddynt rôl i'w chwarae mewn perthynas â'i gilydd, ond eu bod yn cyfathrebu â'i gilydd yn unig, o uniad llawn lle mae'r partïon yn ffurfio cronfa adnoddau ar y cyd. Mae CIPFA yn argymhell y dylid mapio partneriaethau yn unol â dwy echelin - un yn cwmpasu'r dimensiwn cymdeithasol/busnes a'r llall ddyfnder/arwynebolrwydd cymharol y bartneriaeth.

4 Gofynion ar gyfer gwaith partneriaeth effeithiol

Mae sawl ffynhonnell yn canolbwyntio ar y gofynion ar gyfer gwaith partneriaeth effeithiol. Ar lefel gyffredinol, mae gofynion tebyg yn ymddangos:

- ymrwymiad;
- nodau a rennir;
- cydweddiad diwylliannol;
- amcanion/targedau SMART;
- adnoddau/gallu digonol;

- rolau/cyfrifoldebau clir; a
- strwythur priodol.

Mae rhai ffynonellau yn canolbwyntio ar ofynion fwy "meddal" gwaith partneriaeth effeithiol fel ymddygiad, agweddau ac arddull chwaraewyr allweddol. Mae eraill yn canolbwyntio ar faterion ymarferol "caletach" fel cwrdd â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol angenrheidiol, cadw cofnodion cywir, sefydlu cytundeb neu gontract a chael bwrdd partneriaeth cyfansoddedig gywir.

Mae llawer o ffynonellau yn ceisio bod o gymorth ymarferol drwy gynnwys rhestrau gwirio arfer da ac enghreifftiau o arfer da. Er enghraifft, mae adroddiad CIPFA yn cynnwys fel atodiad restr wirio yn cwmpasu:

- y cyfnod cyn-bartneriaeth;
- y cyfnod treialu;
- ymrwymiad i'r bartneriaeth;
- gwneud i'r bartneriaeth weithio; ac
- edrych tua'r dyfodol.

Mae'r Comisiwn Archwilio hefyd wedi datblygu rhestr wirio ddadansoddol yn seiliedig ar gylch bywyd partneriaeth, o benderfynu cychwyn ar bartneriaeth, i adolygu llwyddiant⁴⁴.

Mae teclyn asesu partneriaeth a ddatblygwyd gan y Nuffield Institute ar gyfer asesu Partneriaethau Strategol yn Lloegr yn seiliedig ar chwe egwyddor partneriaeth allweddol:

- cydnabod a derbyn yr angen am bartneriaeth;
- datblygu eglurder a realaeth pwrpas;
- sicrhau ymrwymiad a pherchenogaeth;

⁴¹ Arnstein, S (1969).

⁴² Wilcox, D. (2004).

⁴³ Sefydliad y Cyflogwyr ar gyfer Llywodraeth Leol (dd)

⁴⁴ Comisiwn Archwilio (1998).

- datblygu a chynnal ymddiriedaeth;
- creu trefniadau partneriaeth clir a chadarn; a
- monitro, mesur a dysgu.⁴⁵

Mae adroddiad o 2004 ar gydweithio gan Sefydliad Tai Siartredig Cymru yn argymhell y dylai cymdeithasau tai ddatblygu Codau Partneriaethau Tai sy'n gosod y paramedrau ar gyfer gweithio gyda phartneriaid⁴⁶. Dylai'r paramedrau hyn, sy'n adlewyrchu arfer da cydnabyddedig, gwmpasu materion fel dirprwyo pwerau, rhannu gwybodaeth ac adeiladu gallu.

Mae peth arweiniad arfer da ar waith partneriaeth yn fwy penodol i'r gwasanaeth, er enghraifft mae Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (mewn partneriaeth â'r Gorfforaeth Dai, y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol) wedi cyhoeddi arweiniad ar gytundebau ac eithriadau enwebu, er mwyn cynorthwyo cydweithio ar ddigartrefedd⁴⁷.

5 Graddau ac effeithiolrwydd gwaith partneriaeth

Mae nifer o ffynonellau wedi edrych ar raddau ac effeithiolrwydd gwaith partneriaeth. Cafodd adroddiad Sefydliad Tai Siartredig Cymru ar gydweithio ar faterion cysylltiedig â thai yng Nghymru er bod sefydliadau yn dweud bod gweithio gyda phartneriaeth yn rhywbeth cyffredin, roedd mwyafrif y cydweithio yn anffurfiol ac roedd cysylltiadau ag asiantaethau datblygu iechyd a diogelwch yn benodol yn wan.

Cafodd adolygiad o Strategaethau Tai Lleol yng Nghymru ystod o wendidau mewn

perthynas â'u datblygiad, yn cynnwys cyfranogiad annigonol gyda phartneriaid allweddol⁴⁸. Yn wir, un o'r ysgogiadau gwreiddiol y tu ôl i gyflwyno CTCau oedd dymuniad i weld mwy o gydweithredu rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ar faterion tai, yn benodol ar ddigartrefedd.

Yn Lloegr, cafwyd pryderon hefyd ynghylch effeithiolrwydd cydweithredu wrth fynd i'r afael â digartrefedd. Cafodd gwerthusiad o strategaethau digartrefedd yr holl awdurdodau lleol gan Housing Quality Network Services (HQNS) dystiolaeth nad oedd cymdeithasau tai wedi bod ynghlwm yn agos bob amser wrth ddatblygu'r strategaethau digartrefedd⁴⁹.

Cafodd adroddiad ar waith partneriaeth yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac a gynhyrchwyd gan Brifysgol Cymru, nifer uchel o bartneriaethau hefyd⁵⁰. Maent yn amcangyfrif, ar gyfartaledd, y gallai awdurdodau lleol fod ynghlwm wrth cymaint â 92 o bartneriaethau lleol. Cafwyd ganddynt hefyd rwystredigaeth a siom helaeth mewn perthynas â threfniadau partneriaeth. Y prif broblemau oedd:

- disgwyliadau gwrthdrawiadol;
- dosbarthu llafur yn anghyfartal rhwng partneriaid;
- diffyg pwerau a chyfrifoldebau clir; a
- bod partneriaethau yn fyrhoedlog ac yn dioddef o ddiffyg adnoddau.

⁴⁵ Nuffield Institute for Health (2003).

⁴⁶ Sefydliad Tai Siartredig Cymru (2004).

⁴⁷ SDBW (2004f).

⁴⁸ Adroddiad i Bwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth Cynulliad Cymru 16eg Ionawr 2005.

⁴⁹ SDBW (2004e).

⁵⁰ Bristow, G. et al (2003).

Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar adfywio yng Nghymru⁵¹ hefyd wedi canfod gwendidau yn sut y mae asiantaethau yn cydweithio ar faterion adfywio. Roedd eu canfyddiadau yn cynnwys:

- cydlynu cyfyng;
- nad yw trefniadau partneriaeth ar lefel awdurdodau lleol wedi cael eu rhesymoli;
- bod nifer y gwahanol strategaethau yn faich, ac yn rhwstr i osod blaenoriaethau effeithiol;
- mae ariannu tymor byr yn gweithio yn erbyn cynllunio hir dymor;
- mae gwaith partneriaeth gyda'r sector preifat yn wan; a
- lle nad oes strategaeth glir, mae awdurdodau lleol yn llunio'u blaenoriaethau i gydweddu â'r arian sydd ar gael.

Cafodd Sefydliad Tai Siartredig Cymru⁵² fod tri phrif rwystr i waith partneriaeth effeithiol ar dai yng Nghymru:

- adnoddau;
- amser ac amserlenni; ac
- agendâu gwahanol.

Dau wendid ychwanegol a nodwyd gan lawer o astudiaethau y tu allan i Gymru yw diffyg ymrwymiad a monitro gwael o safbwynt perfformiad/canlyniadau.

6 Casgliad

Mae swm sylweddol o ddeunydd wedi'i gyhoeddi ar waith partneriaeth ac mae'r gofynion cyffredinol ar gyfer arfer effeithiol wedi'u sefydlu ers amser. Mae llawer o restrau gwirio a phecynnau cymorth ar gael i helpu sefydliadau asesu cryfder a gwendidau eu trefniadau eu hunain.

Ychydig yn unig o wybodaeth sydd ar gael ar y gwahanol ymagweddau sy'n cael eu mabwysiadu yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â phartneriaethau yn ymwneud â thai. O ystyried lluosogrwydd y partneriaethau sy'n bodoli ar draws gwasanaethau cyhoeddus, mae'n bwysig cael dull ar gyfer diffinio/categoreiddio ymagweddau, a hefyd fframwaith ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd.

⁵¹ Swyddfa Archwilio Cymru (2005).

⁵² Y Sefydliad Tai Siartredig Cymru (2004).

Pennod 4 Gwerthuso Effeithiolrwydd Cytundebau Tai Cymunedol

1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r canfyddiadau o amrywiol gyfnodau'r ymchwil ac yn dod i ben drwy ddarparu gwerthusiad o CTCau sy'n ystyried pa mor dda y bu iddynt gyflawni eu pwrpas gwreiddiol.

2 Canfyddiadau ymchwil

Gosodir y canfyddiadau mewn tair is-adran. Y rhain yw:

- ardaloedd lle y defnyddir CTCau;
- ardaloedd lle nas defnyddir CTCau; a
- materion yn ymwneud â gwaith partneriaeth.

2.1 Ardaloedd lle y defnyddir CTCau

Mae'r is-adran hon, sy'n canolbwyntio ar ardaloedd lle mae CTC yn ei le, yn nodi canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â:

- y defnydd o CTCau;
- y rhesymau dros gyflwyno CTC;
- y mathau o CTC;

- effeithiolrwydd CTCau;
- cryfderau CTCau;
- gwendidau CTCau; ac
- effaith CTCau ar ddigartrefedd.

2.1.1 Y Defnydd o CTCau

Ar adeg cynnal yr ymchwil, roedd gan wyth o awdurdodau lleol (36%), CTC yn ei le. Y rhain oedd Caerdydd, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Powys, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg.

Cyflwynwyd mwy na hanner y CTCau ar ddiwedd y 1990au ac ym mlyneddodd cynnar y ganrif newydd (gweler Tabl 1), o fewn ychydig flynyddoedd i Fforwm Landlordiaid Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru argymhell eu mabwysiadu a chyhoeddi arweiniad eang ar y fformat y dylid ei ddefnyddio ar gyfer y cytundebau. Llofnodwyd y CTC cyntaf ar ddechrau 1999 gan Gyngor Bro Morgannwg a Chymdeithas Dai Newydd⁵³.

Tabl 1. Cyfnod y cyflwynwyd CTC

Cyfnod y cyflwynwyd CTC	Nifer y CTCau
Cyn 2000	3
2000-2002	2
2003-2004	2
2005	1
Cyfanswm	8

⁵³ Cartref (1999).

2.1.2 Rhesymau dros Gyflwyno CTC

Rhoddwyd dau brif reswm dros gael CTC:

- argymhellwyd eu defnydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru;
- gallant ddarparu fframwaith neu strwythur defnyddiol ar gyfer gweithio gyda chymdeithasau tai.

Pwysleisiodd nifer bach o awdurdodau lleol resymau oedd yn benodol i'r awdurdod unigol dros gael CTC yn ei le. Roedd rhesymau o'r fath yn cynnwys:

- ei wneud yn haws cydweithio ar faterion fel digartrefedd; a
- mwyaflu mewnbwn cymdeithasau tai i mewn i ddatblygiad strategol a chynllunio gwasanaethau.

Mewn un awdurdod lleol, bwriedir datblygu CTC a ddatblygwyd yn ddiweddar i gryfhau'r ymagwedd strategol i gwrdd ag anghenion tai yr ardal ar adeg lle y ceir pwysau sylweddol mewn perthynas â'r galw a'r angen am dai.

Mewn un awdurdod lleol, nodwyd bod y CTC wedi cael ei gyflwyno

"i gymryd lle'r Cytundeb Tai Strategol... ac i gydnabod y ffaith fod gan y gymdeithas dai fwy o rôl i'w chwarae nac yn y gorffennol wrth gyfrannu at gyflwyno nodau ac amcanion tai y Cyngor a gwelwyd ei fod yn gyfle i'r gymdeithas gael ei thynnu'n agosach at y cyngor."

2.1.3 Mathau o CTC

O'r wyth awdurdod lleol lle roedd CTC yn ei le, darparodd chwech ohonynt gopïau o'r cytundeb i'w adolygu. Darperir canlyniadau'r dadansoddiad ym mharagraffau 2.1.3(a) i 2.1.3(i).

Roedd yr arweiniad a gyhoeddwyd ym 1998 gan Fforwm Landlordiaid Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru yn gyffredinol iawn. Mae'r cytundeb templed

ei hun, sy'n llai na dwy dudalen, wedi'i gyfyngu i bwy ddylai'r partïon fod, eu rolau priodol, sut y dylid monitro, adolygu a therfynu'r cytundeb, a threfniadau, adnoddau a chysylltiadau monitro, cyd-gysylltu ac ymgynghori. Mae sylwedd y cytundeb yn cael ei adael yn llwyr i ddisgresiwn yr awdurdodau lleol a'u partneriaid a chaiff ei gynnwys mewn atodlen gysylltiedig. Rhagwelwyd y byddai'r atodlen yn cwmpasu materion partneriaeth strategol a gweithredol ac y byddai'n seiliedig ar gamau. Byddai'r cytundeb am dair blynedd, ond adolygir yr atodlen a'i diweddarau yn flynyddol. Dylid ystyried yr atodlen:

"as a performance plan in terms of the best value regime".⁵⁴

2.1.3(a) Fformat CTCau

Mae mwyafrif y CTCau yn dilyn templed y CTC model yn agos gyda'r cytundeb yn cwmpasu'r partïon i'r cytundeb a'r telerau, wedi'i gefnogi gan atodlen seiliedig ar gamau. Mae yna, fodd bynnag, rai eithriadau. Mae dau o CTCau awdurdodau lleol yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol ar:

- gyd-destun;
- amcanion a blaenoriaethau'r cyngor;
- ymrwymïadau'r cyngor i gymdeithasau tai; a
- disgwyliadau'r cyngor mewn perthynas â chymdeithasau tai.

2.1.3(b) Partïon i CTCau

Mewn chwe awdurdod lleol, mae'r CTCau yn gydgytundebau gyda'r holl brif gymdeithasau tai sy'n gweithredu o fewn ardal yr awdurdod lleol.

Mewn un awdurdod lleol, mae'r CTC gydag un gymdeithas dai leol, y mae'r

⁵⁴ Fforwm Landlordiaid Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru (1998:4).

Cyngor yn ei hystyried fel ei brif bartner cymdeithasau tai. Nid oedd unrhyw rai o'r cymdeithasau tai eraill oedd yn gweithredu yn yr ardal yn rhan o CTC.

Mewn ardal awdurdod lleol arall, mae gan y Cyngor gytundebau ar wahân gyda'r ddwy brif gymdeithas dai leol.

Awdurdod Lleol 1

Yn yr ardal hon, mae perthnasau gwaith positif yn bodoli rhwng yr awdurdod lleol a'r holl gymdeithasau tai ac mae gan yr awdurdod CTC gydag un gymdeithas leol. Mae gan bob un ddealltwriaeth dda o'r rolau a'r cyfrifoldebau priodol a gwelwyd bod dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o rôl cymdeithasau tai wedi cynyddu yn ddiweddar.

Gwelwyd y CTC gan gyfranogwyr fel rhywbeth effeithiol wrth ffurfioli trefniadau gweithio ar y cyd rhwng y Cyngor a'r gymdeithas dai. Mae'r cytundeb yn nodi:

- y prif feysydd lle mae angen gwaith partneriaeth;
- y swyddogion o'r ddwy asiantaeth gyda chyfrifoldeb dros y gweithgareddau hyn;
- pa mor aml y byddant yn cwrdd; a
- fframwaith ar gyfer monitro ansawdd y gwaith partneriaeth rhwng swyddogaeth dai y cyngor a'r gymdeithas dai.

Y gwendid a adroddwyd gan y cyngor a'r gymdeithas dai oedd bod y CTC wedi'i gyfyngu i wasanaethau tai ac nad oedd yn cael ei ystyried fel cytundeb corfforaethol.

Mae pob sefydliad sy'n gweithredu yn yr ardal leol yn mwynhau perthnasau gweithio positif gyda'r Cyngor, yn enwedig y swyddogaeth dai, ac ni ystyriwyd y CTC ei hun yn ffactor gyfrannol pwysig i newidiadau yn ansawdd gwaith partneriaeth yn yr ardal leol. Ystyriwyd ffactorau eraill, fel pwysigrwydd cynyddol tai fforddiadwy ar yr agenda corfforaethol, rôl yr awdurdod lleol wrth bennu'r defnydd o'r Grant Tai Cymdeithasol a'r pwysau cynyddol o safbwynt digartrefedd a wynebier gan yr awdurdod lleol, yn ffactorau cyfrannol pwysig wrth wella ansawdd gwaith partneriaeth. Ychydig yn unig y mae'r CTC wedi ei gyfrannu at gyflwyno gwasanaethau i bobl ddigartref yn yr ardal leol.

2.1.3(c) Rolau partïon i CTCau

Mae mwyafrif y CTCau yn mabwysiadu'r rolau a nodwyd yn y model, er enghraifft:

- mae'n ofynnol ar yr awdurdod lleol i gynhyrchu Strategaeth a Chynllun Gweithredu Tai (SChGT)⁵⁵ sy'n ystyried materion tai ar draws pob sector a thenantiaeth;
- rhaid i'r SChGT gynnwys cyfeiriad at ddogfennau cynllunio strategol y cyngor fel a nodwyd mewn Atodiad i'r cytundeb ynghyd â strategaethau a pholisïau corfforaethol eraill;
- bydd yr awdurdod lleol yn sefydlu'r anghenion tai a chymunedol o fewn ei ardal mewn partneriaeth â chymdeithasau tai ac asiantaethau eraill;
- bydd yr awdurdod lleol yn hyrwyddo cyfranogiad y gymdeithas/cymdeithasau tai yn natblygiad yr holl fentrau datblygu cymunedol perthnasol o fewn yr awdurdod lleol ac mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol; a
- bydd y gymdeithas dai yn cynorthwyo'r Cyngor gyda chwrdd â'i rwymedigaethau statudol yn unol â'r

⁵⁵ Roedd y SChGT, a gyflwynwyd gan y Swydd Gymreig yn rhagflaenydd i'r Strategaeth Dai Leol.

cytundeb ar y telerau a nodir yn yr atodlen mewn perthynas â gweithio ar y cyd, a mentrau datblygu a chymunedol.

Mae un awdurdod lleol yn ymestyn y rolau hyn o fewn y cytundeb ei hun, er enghraifft, mae'n cyfeirio at drefniadau cynllunio strategol corfforaethol ehangach y cyngor.

Mewn dau awdurdod lleol, mae'r CTCau hefyd yn cynnwys manylion ymrwymïadau presennol partneriaid i'r cytundeb. Mae ymrwymïadau un awdurdod lleol yn cwmpasu enwebiadau, cyngor, gweithio ar y cyd, datblygiad a hyfforddiant staff, rheoli tai, datblygiad a buddion. Mae ymrwymïadau'r ail CTC yn cwmpasu saith ar hugain o wahanol bynciau/materion. O ganlyniad, mae CTCau y ddau awdurdod oddeutu ugain tudalen o hyd (heb gynnwys yr atodlenni/cynlluniau gweithredu atodedig). Mae hyn yn cymharu â thua tair tudalen ar gyfer y CTCau eraill. Yn CTCau y ddau awdurdod lleol hyn, mae'r atodlenni yn fwy detholus hefyd, gan ganolbwyntio ar gamau newydd sydd eu hangen, er enghraifft, yn cynnwys un ar ddeg o gamau/tasgau o'u cymharu â chwe deg wyth mewn CTC arall.

2.1.3(d) Hyd, terfynu ac adnewyddu CTCau

Roedd hyd y cytundebau yn amrywio o flwyddyn i bum mlynedd. Mewr un ardal awdurdod lleol, blwyddyn oedd hyd y CTC, mewn tair ardal, roedd yn para tair blynedd ac mewn dwy ardal arall, roedd yn para pum mlynedd. Roedd pob un yn amodol ar adolygiad blynyddol a thri mis o rybudd ar gyfer eu terfynu.

Mae pob un yn cyfeirio at yr angen i ddilyn gwasanaeth cyflafareddiad cytunedig, ond dim ond dau sy'n cyfeirio at drefniadau cyflafareddu penodol (gwasanaeth Sefydliad Tai Siartredig Cymru).

2.1.3(e) Monitro CTCau

Mae'r holl CTCau yn cynnwys trefniadau ar gyfer monitro'r cytundeb. Mae dau o'r CTCau yn cynnwys ymrwymiad i bartneriaid gwrdd yn chwarterol, dau ar sail ddwywaith y flwyddyn, ac un i gwrdd yn chwarterol ar gyfer cymdeithasau tai sydd wedi'u dynodi'n barthau, a ddwywaith y flwyddyn ar gyfer cymdeithasau tai nad ydynt wedi'u dynodi'n barthau.

Yn yr ardal awdurdod lleol sy'n weddill yr oedd ganddi'r CTC y cytunwyd arno'n fwyaf diweddar, mae ymrwymiad i sefydlu Grŵp Monitro ac Adolygu, ond nid yw'r cytundeb yn nodi pa mor aml y bydd y grŵp yn cwrdd. Mae CTC yr awdurdod lleol hwn hefyd yn gosod y trefniadau monitro o fewn cyd-destun fframwaith cyfathrebu ehangach.

2.1.3(f) Cyd-gysylltu ac ymgynghori

Mae pob un o'r chwe CTC yn dyblygu'r trefniadau cyd-gysylltu ac ymgynghori a nodwyd yn y CTC model yn agos.

2.1.3(g) Adnoddau a ymrwymwyd i CTCau

Mae'r chwech yn dyblygu'r adran ar adnoddau a ymrwymwyd i'r cytundeb yn y CTC model yn agos.

2.1.3(h) Telerau ychwanegol a gynhwyswyd yn y CTCau

Mae CTC un awdurdod lleol yn cynnwys adrannau ar egwyddorion sylfaenol a chyfle cyfartal.

2.1.3(i) Yr atodlenni sy'n gysylltiedig â CTCau

Mae gwahaniaethau yn yr atodlenni sy'n adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng cytundebau. Fel y nodir uchod, mae dau CTC yn cynnwys ymrwymïadau presennol ym mhrif gorff y cytundeb ac felly mae'r atodlenni ar ffurf cynlluniau gweithredu wedi'u targedu i raddau helaeth. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos

un o'r awdurdodau lleol lle gweithiodd y partneriaid gyda'i gilydd am ddwy flynedd i ddatblygu'r cytundeb, yn cynnwys nifer o'r ymrwymïadau a gynhwyswyd oddi

mewn iddo. Yna defnyddir yr atodlen i gipio'r camau gweithredu angenrheidiol er mwyn cynyddu'r cytundeb.

Awdurdod Lleol 2

Yn yr ardal hon, llofnodwyd CTC yn ddiweddar gan y cyngor a'r holl gymdeithasau sy'n gweithredu yn yr ardal, yn dilyn cyfnod helaeth o ddatblygu. Dyfeisiwyd matrices hefyd i fesur perfformiad cymdeithasau yn erbyn y CTC, gyda'r bwriad y bydd perfformiad yn cael ei gysylltu â dethol partneriaid o ddewis y cyngor ar gyfer datblygu.

Mae'r CTC yn parhau i ganolbwyntio ar dai yn bennaf, yn hytrach na bod yn eiddo corfforaethol (ac mae perthnasau rhwng cymdeithasau tai ac adrannau'r cyngor ac eithrio'r adrannau tai yn amrywio), ac mae angen o hyd i ychwanegu cynllun gweithredu SMART er mwyn cyflwyno amcanion CTC, ac am fonitro cadarn rheolaidd mewn perthynas â'r camau gweithredu a gytunwyd. Fodd bynnag, mae'r holl bartïon yn cytuno bod datblygiad y CTC eisoes wedi cael effaith fawr yn nhermau gwell perfformiad, ac, yn hollbwysig, wrth adeiladu perthynas fwy cyfartal gyda mwy o ymddiriedaeth, a'i fod wedi bod yn ymgais wirioneddol ar waith partneriaeth.

Roedd yr holl bartïon yn teimlo bod CTCau yn ffurf briodol ar gytundeb er mwyn cynyddu gweithio ar y cyd rhwng cymdeithasau ac awdurdodau.

Mewn dau awdurdod lleol arall, mae'r atodlenni i'r CTCau yn llawer mwy cynhwysfawr, yn cwmpasu ystod eang o feysydd gweithredol a strategol ac yn nodi'n glir y mater, y camau gweithredu targed, y swyddog(ion) cyfrifol ac amserlenni. Dyrennir rhai o'r camau gweithredu i staff yr awdurdodau lleol o swyddogaethau eraill.

Yn y ddau awdurdod lleol sy'n weddill, mae atodlenni'r CTCau yn llawer mwy amwys, ac nid ydynt yn nodi'n glir y tasgau, y cyfrifoldebau na'r amserlenni. Er enghraifft:

Awdurdod Lleol A

- Bydd y cyngor yn ymgynghori ac yn cyd-gysylltu â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (LCCau) ynghylch partneriaethau posib mewn perthynas â strategaethau adfywio yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

- Mae'r cyngor a'r LCCau lleol yn cytuno i ddefnyddio'r CTC fel cyfrwng i archwilio cyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd yn y meysydd canlynol:
 - mynediad i dai cymdeithasol
 - cyfranogiad tenantiaid
 - cymunedau cynaliadwy
 - perthynas gydag adrannau eraill yr awdurdod unedol

Awdurdod Lleol B

- Bydd y bartïon yn sefydlu dull er mwyn i'r cyngor a'r LCCau partner ystyried prosesu Cymhorthdal Tai yn rheolaidd.
- Byddai'r cyngor yn hoffi archwilio ymhellach gyda LCCau partner sut y gallant gynorthwyo'r cyngor wrth gwrdd â'i ddyletswydd i ddarparu ar gyfer cartrefi digartref statudol ac anstatudol.

Awdurdod Lleol 3

Yn yr ardal hon, llofnodwyd CTC yn gynnar, yn bennaf o ganlyniad i ddymuniad y cymdeithasau tai lleol. Teimlodd y cymdeithasau iddo fod yn ddefnyddiol ar y pryd o ran canolbwyntio sylw ar y ffaith eu bod yn dymuno cyfranogi, a sut y gallant gyfranogi. Fodd bynnag, nid oedd y CTC yn cynnwys targedau penodol, ac ni gafodd ei adolygu na'i fonitro o gwbl.

Cytunodd pob parti bod y CTC i gychwyn wedi dylanwadu ar weithgareddau ac ysgogi nifer o enghreifftiau o weithio ar y cyd gyda swyddogaeth dai'r cyngor, ond roedd yn cael ei weld fel dogfen dai, ac ychydig yn unig o effaith a gafodd yn gorfforaethol. Bellach nid yw'r CTC yn cael ei ddefnyddio, ac mae wedi'i ddisodli gan ffora strategol eraill y cyngor, gyda chyfranogiad gweithredol yn digwydd ar sail materion unigol.

Mae ansawdd y gwaith partneriaeth rhwng y cyngor a chymdeithasau bellach yn dda ar y cyfan, gyda chymdeithasau ynghlwm wrth ystod eang o ffora strategol a threfniadau gweithredol. Fodd bynnag, teimlodd cymdeithasau nad oedd llawer hyd yma o ddealltwriaeth gorfforaethol yn y cyngor am yr hyn y gallai cymdeithasau ei gyfrannu.

Cafwyd barn gymysg ynghylch a oedd CTCau yn ffurf briodol ar gytundeb i gynyddu gweithio ar y cyd. Ar y cyfan, roedd y farn o blaid rhyw fath o gytundeb oedd yn gysylltiedig â strategaethau lefel uchel y cyngor, yn cynnwys ystod ehangach o gyrff cysylltiedig â thai na chymdeithasau tai, ac adrannau'r cyngor y tu hwnt i'r adran dai, gyda thargedau clir ar gyfer cyflwyno amcanion cytunedig.

Pwrpas gwreiddiol y CTC oedd i'r atodlen i'r cytundeb fod yn ddogfen fyw yn cynnwys targedau ar gyfer yr awdurdod lleol a'r gymdeithas dai, y byddai'n cael ei monitro'n rheolaidd ac yr adolygir a diwygir ei chynnwys yn rheolaidd. Mewn un awdurdod lleol, adroddwyd nad oedd y cynnwys wedi newid yn sylweddol dros y blynnyddoedd diwethaf a bod trefniadau monitro wedi'u cyfyngu gan ddiffyg mesurau perfformiad. Mewn awdurdod lleol arall, lle roedd y sbardun ar gyfer datblygu'r CTC wedi dod gan y cymdeithasau tai yn hytrach na'r awdurdod lleol, rodd y CTC yn cynnwys cynllun gweithredu cyfyngedig, ac nid oedd wedi cael ei fonitro, ei adolygu na'i ddiwygio ers ei ddatblygu.

Mae'r amrywiad yn nhermau cynnwys yr atodlen, ansawdd yr atodlen a nifer y partïon i'r atodlen yn awgrymu nad oedd y bwriad gwreiddiol wedi cael ei ddeall yn glir.

Dangosodd yr astudiaethau achos yr ystyriwyd y CTC yn fwyaf effeithiol yn yr hir dymor mewn ardaloedd lle cafwyd mwy o fuddsoddi adnoddau wrth ddatblygu'r CTC, ac yn benodol atodlen y cytundeb. Mewn ardaloedd lle roedd y CTC mewn gwirionedd yn fersiwn "barod" o'r cytundeb, ystyriwyd mai ganddyn nhw oedd y lleiaf o effaith hir dymor.

2.1.4 Effeithiolrwydd CTCau

Mewn ardaloedd lle roedd CTC yn ei le, gofynnwyd i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai a oedd CTCau wedi helpu i wella gwaith partneriaeth, ac ynghylch eu defnyddioldeb parhaus. Dywedodd chwech o'r wyth awdurdod lleol gyda CTCau yn eu lle fod y cytundebau wedi gwella gwaith partneriaeth, dywedodd un nad oedd y cytundebau wedi gwneud unrhyw wahaniaeth a dywedodd un awdurdod lleol ei fod yn rhy gynnar i gynnig barn ar y mater.

Rhoddwyd y rhesymau canlynol gan yr awdurdodau lleol hynny a nododd fod gwaith partneriaeth wedi gwella o ganlyniad i gyflwyno'r CTC:

- mae'r CTC yn darparu fframwaith/strwythur, ac yn dod â mwy o ddisgyblaeth i berthnasau;
- mae'r CTC yn gwella perthnasau, yn adeiladu ymddiriedaeth a dealltwriaeth o sefydliadau y naill a'r llall;
- roedd y CTC yn sbardun ar gyfer datblygu trefniadau/cytundebau partneriaeth eraill, er enghraifft, cofrestri cyffredin;
- mae'r CTC yn dod â threfniadau presennol ac ati ynghyd ac yn helpu i sicrhau nad oes unrhyw fylchau sylweddol;
- roedd y CTC yn annog canolbwyntio ar yr ystod gyfan o faterion partneriaeth (nid enwebiadau a datblygiad yn unig); ac
- roedd y CTC yn darparu cyfle i fynd i'r afael â materion mewn ffordd lai amddiffynnol.

Mewn un awdurdod lleol, awgrymwyd er yr oedd y CTC yn wreiddiol yn gatalydd i wella gwaith partneriaeth, roedd y gwelliannau dilynol mewn gweithio ar y cyd yn tueddu i ddigwydd drwy faterion gweithredol nad oeddent o fewn cwrpas y CTC. Yn gyffredinol, teimlwyd nad oedd y CTC wedi cael effaith sylweddol.

Roedd tri o'r wyth awdurdod lleol gyda CTC yn ei le yn tueddu i ystyried y cytundeb fel fframwaith ar gyfer dwyn ynghyd a ffurfioli cytundebau a threfniadau partneriaeth presennol, yn hytrach na chyfrwng i ysgogi newid. Mae hyn er gwaethaf y gwelliant cychwynnol mewn perthnasau a gwaith partneriaeth oedd yn ganlyniad i ddatblygu'r CTCau.

Awgrymodd yr un awdurdod lleol a nododd nad oedd y CTC wedi gwella

gweithio ar y cyd fod perthnasau wedi bod yn dda cyn hynny a bod y cytundeb wedi ffurfioli'r trefniadau yn unig.

Roedd cymdeithasau tai wedi'u rhannu ynghylch a oedd y CTC wedi gwella gwaith partneriaeth. Roedd sylwadau positif yn cynnwys:

"Canfyddwyd ein cymdeithas fel rhywbeth o'r tu allan - nid fel rhywbeth lleol. Mae'r CTC wedi gorfodi ein cyfranogiad ag X bron."

"Mae'r CTC wedi newid agweddau tuag at weithio ar y cyd. Gwnaed ymrwymiad o ran amser ac adnoddau gan y gymdeithas i gyfranogi gyda'r awdurdod lleol. Ni fydd y CTC yn gwneud unrhyw wahaniaeth heb yr ymrwymiad hwn."

"Mae'r CTC yn rhoi eglurder, yn nodi trefniadau clir ar gyfer cydweithio."

Roedd barn eraill yn cynnwys:

"Ni chafodd unrhyw effaith o gwbl. Cafwyd llawer o gyhoeddusrwydd da pan gafodd ei lofnodi. Does dim byd wedi digwydd ers hynny."

"Roedd y CTC yn adlewyrchiad o berthynas oedd yn bodoli eisoes, nid yn ymgais i wella pethau. Ffurfioli perthynas a oedd eisoes yn un dda wnaeth y CTC. Nid yw'r CTC yn ardaro o gwbl."

Roedd cymdeithasau tai mewn un ardal awdurdod lleol yn bositif iawn am y broses o gynhyrchu'r CTC. Er enghraifft:

"Mae enghreifftiau o ymddiriedaeth a pherthnasau positif (e.e. cofrestr mynediad i'r anabl) a allai fod yn rhagflaenydd rhestr aros gyffredin. Mae datblygiadau cyn y protocol wedi paratoi'r ffordd."

"...mae'n cyfundrefnu llawer o berthnasau presennol. Roedd cynhyrchu CTC yn broses ddefnyddiol iawn - roedd modd mynd i'r afael â rhai materion anodd."

Roedd yr awdurdodau lleol â CTCau yn eu lle am fwy na blwyddyn wedi'u rhannu ynghylch pa mor ddefnyddiol oeddent. Dywedodd tua hanner ohonynt

fod y cytundebau wedi dod yn llai defnyddiol a'u bod mewn gwirionedd wedi cael eu disodli gan ddatblygiadau eraill. Adroddwyd bod CTCau wedi bod yn gatalyddion effeithiol ar gyfer ysgogi gwelliannau mewn gwaith partneriaeth ar ddiwedd y 1990au/dechrau'r 2000au pan oedd perthnasau rhwng awurdodau lleol a chymdeithasau tai yn fwy anodd, ond bod yr agenda partneriaeth wedi symud ymlaen. Er enghraifft:

"i ddechrau roedd (y CTC) yn gylch gorchwyl defnyddiol iawn ar gyfer gweithio ar y cyd a datblygu polisi ar y cyd, ond dros y 18 mis - 2 flynedd mae ei effeithiolrwydd wedi lleihau oherwydd bod cymaint o newid wedi digwydd."

"mae'r awdurdod lleol yn dal i weithio gyda chymdeithasau tai ac yn symud ymlaen er gwaetha'r ffaith na chafwyd unrhyw gyfarfodydd CTC dros y 12 mis diwethaf."

"cafodd y CTC ei ddisodli gan ystod o bartneriaethau eraill y cawsom ein hannog i'w sefydlu gyda LCCau."

Fodd bynnag, mae nifer o awdurdodau lleol yn parhau'n bositif am werth parhaus y cytundebau. Er enghraifft:

"Mae'r CTC yn declyn defnyddiol iawn."

Mae pawb yn gwybod ar gyfer beth y maent yn gweithio ac mae'n eu helpu i'w gyflwyno."

"Mae'r CTCau yn ddefnyddiol. Maent yn dod â ni a LCCau yn agosach, ac yn dod â disgyblaeth a fframwaith a ffocws ar bethau efallai na fyddem yn sylwi arnynt fel arall."

Mewn dau yn unig o'r saith awdurdod lleol gyda chytundebau yn eu lle am fwy na blwyddyn, ystyriwyd bod y CTC wedi dod â newidiadau i flaenoriaethau neu ffyrdd o weithio yr awdurdod neu'r gymdeithas dai. Fodd bynnag, roedd un awdurdod lleol yn ystyried y broses o ddatblygu'r CTC fel ffordd o gyflwyno newid a gwelliant i drefniadau gwaith partneriaeth a darparu:

"cyfle i gael trafodaeth fanwl am faterion sydd wedi bod dan yr wyneb ers blyneddau a chael pawb o gwmpas y bwrdd i drafod ffyrdd cyffredin ymlaen."

Awdurdod Lleol 4

Yn yr ardal hon, mae CTC wedi bod yn ei le gyda'r prif gymdeithasau tai sy'n gweithredu yn yr ardal ers 2003. Cyflwynwyd y CTC er mwyn darparu strwythur ffurfiol a chytundeb gweithio rhwng yr awdurdod lleol a'r cymdeithasau tai ac fe'i ystyrir gan y Cyngor fel teclyn gweithio da er mwyn cyflwyno'r strategaeth dai leol. Yn gyffredinol, roedd yr awdurdod yn ystyried bod gwaith partneriaeth gyda chymdeithasau tai yn effeithiol iawn.

Roedd y farn ar effeithiolrwydd gwaith partneriaeth yn amrywio rhwng y cymdeithasau tai unigol, ond yn gyffredinol fe'i ystyriwyd yn weddol effeithiol, yn enwedig mewn perthynas â'r swyddogaeth dai strategol. Ystyriwyd y CTC gan bartneriaid cymdeithasau tai fel ysgogwr pwysig mewn perthynas â gwaith partneriaeth yn ei ddyddiau cynnar ac fel un dull i'r awdurdod sefydlu ei rôl strategol. Teimlwyd y gwnaed cynnydd sylweddol ar faterion strategol a nodwyd yn y CTC, ond llai felly ar faterion strategol. Teimlwyd bod diffyg adnoddau i weithredu cynnwys y CTC yn effeithiol ar y ddwy ochr.

Nod y CTC oedd bod yn ddogfen gorfforaethol, gan ddod ag adrannau nad oeddent yn ymwneud â thai i'r drafodaeth, gyda'r Fforwm Tai Strategol yn brif ddull er mwyn cyflawni hyn. Roedd y farn ynghylch llwyddiant hyn yn amrywio, gyda'r cymdeithasau yn ystyried y cytundeb fel rhywbeth oedd yn canolbwyntio ar dai yn bennaf. Teimlwyd mai eithaf cyfyngedig oedd effaith y CTC ar faterion gweithredol o gwmpas digartrefedd.

Roedd yr holl bartïon yn teimlo bod cytundeb o ryw fath yn briodol ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau strategol yn cael eu cyflwyno, ond bod model y CTC wedi dyddio ychydig. Teimlodd yr awdurdod fod y cysyniad o gytundebau ardaloedd lleol yn ddefnyddiol er mwyn ystyried ffurf cytundeb yn y dyfodol.

Roedd cymdeithasau tai wedi'u rhannu ynghylch pa mor ddefnyddiol oedd CTCau. Dywedodd pedair cymdeithas dai fod y CTC yr oeddent yn rhan ohono yn effeithiol:

"Roedd yn gatalydd - nid yn feibl, ond yn fframwaith. Mae'n dibynnu ar pa mor rhagweithiol ydych wrth ei ddatblygu."

"Agorodd ddrysau i ni."

Dywedodd pum cymdeithas dai nad oedd y CTC yr oeddent yn rhan ohono yn effeithiol:

"Fel dogfen, mae'n hollol amherthnasol."

"Ar ei ben ei hun, nid yw'n effeithiol, er ei fod wedi cychwyn cyfarfodydd rheolaidd sydd wedi adeiladu perthnasau."

"Mae gennym berthnasau da beth bynnag felly nid oes ei angen."

Dangosodd yr astudiaethau achos lle roedd CTCau yn dilyn bwriad gwreiddiol y cytundeb model ac y defnyddiwyd yr atodlen i'r CTC fel cynllun perfformiad a fonitryd ac a ddiweddarwyd yn rheolaidd, cawsant eu hystyried yn fwy effeithiol gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, na'r rheiny lle roedd yr atodlen o ansawdd wael.

2.1.5 Cryfderau CTC

Mewn ardaloedd lle roedd CTC yn ei le, gofynnwyd i staff yr awdurdod lleol a chymdeithasau tai nodi cryfderau'r CTC. Roedd y rhain yn amrywio o un ardal leol i'r llall, yn dibynnu ar ansawdd y CTC ei hun. Yn gyffredinol fe'u hystyriwyd fel a ganlyn:

- yr ysgogiad cychwynnol a roddodd i fentrau gwaith partneriaeth;
- y gwerth a gynigiodd fel dull o nodi problemau a datblygu datrysiadau ar eu cyfer;
- ei ddefnyddioldeb fel fframwaith i reoli perthnasau rhwng y cyngor a'r gymdeithas dai;

- y cyfle yr oedd yn ei ddarparu i adolygu perfformiad yn erbyn cyflwyno amcanion a rennir;
- y rôl yr oedd y cytundeb ei hun wedi chwarae wrth ddatblygu rôl dai strategol y cyngor; a'r
- cyfle yr oedd yn ei ddarparu i gymdeithasau tai gyfranogi mwy yn natblygiad a chyflwyno'r Strategaeth Dai Leol.

Mewn un awdurdod lleol a oedd wedi cwblhau datblygu CTC yn ddiweddar, ystyriwyd mai'r cryfderau oedd:

- y rôl yr oedd yn ei chwarae wrth hyrwyddo ffocws ar yr ystod gyfan o faterion partneriaeth;
- y rôl roedd y broses ddatblygu wedi ei chwarae wrth alluogi mynd i'r afael â materion mewn ffordd lai amddiffynnol a datblygu diwylliant o bartneriaeth wirioneddol; a
- y ffaith ei fod yn annog pob parti i ganolbwyntio ar eu prosesau ar gyfer cyflwyno'r prif faterion o fewn y cytundeb.

Mewn ardal awdurdod lleol arall, ystyriwyd bod gan y CTC werth o fewn yr awdurdod lleol wrth ddangos pwysigrwydd y rôl dai strategol.

2.1.6 Gwendidau CTCau

Mewn ardaloedd lle roedd CTC yn ei le, gofynnwyd i staff awdurdodau lleol a chymdeithasau tai nodi gwendidau'r CTC. Nodwyd nifer ohonynt:

- diffyg prynu i mewn/ymrwymiad i CTCau gan adrannau eraill awdurdodau lleol fel cynllunio, datblygiad economaidd;
- gorgyffwrdd gyda threfniadau partneriaeth eraill;
- diffyg gallu i fonitro/parhau â'r momentwm;

- y cytundeb yn rhy eang, gyda diffyg ffocws;
- heb fod yn ddeinamig, ddim yn declyn strategol ar gyfer gwella ac felly mae'n dyddio;
- nid yw perthnasau da yn dibynnu ar gytundeb - bydd yn ddefnyddiol dim ond os yw perthnasau yn wael;
- yn canolbwyntio gormod ar dai - mae angen i'r berthynas â chymdeithasau tai fod yn ehangach;
- yn ymagwedd o'r pen i lawr, ac yn hawdd yn troi'n un peth arall sydd angen ei wneud;
- roedd hyd yr amser y cymerwyd i ddatblygu'r cytundeb ei hun yn golygu ei fod yn rhannol wedi'i oddiweddyd gan ddigwyddiadau;
- nid oedd yn cynnwys unrhyw dargedau penodol, felly nid oedd unrhyw eglurder ynghylch yr hyn yr oedd y partïon yn ceisio'i gyflawni;
- cafodd ei gymeradwyo ar lefel uwch swyddogion ac nid oedd staff gweithredol oedd yn is o fewn hierarchaeth sefydliadau yn ymwybodol o'i gynnwys; ac
- eithaf uchelgeisiol mewn rhai meysydd.

Mewn nifer o ardaloedd awdurdodau lleol, cytunwyd bod y CTC wedi gwella gwaith partneriaeth rhwng y gymdeithas dai a swyddogaeth dai'r awdurdod lleol, ond nid gyda'r Cyngor yn gyffredinol.

2.1.7 Effaith CTCau ar Ddigartrefedd

Yn yr ardaloedd astudiaethau achos lle roedd CTC yn ei le, gofynnwyd i staff awdurdodau lleol a chymdeithasau tai nodi pa effaith oedd cyflwyno CTC wedi'i chael ar y ffyrdd y mae cymdeithasau tai yn cynorthwyo'r awdurdod lleol i gwrdd â'i oblygiadau digartrefedd a'i effaith ehangach ar bobl ddigartref.

Yn gyffredinol, ystyriwyd bod effaith y CTC ar gyflwyno gwasanaethau i bobl ddigartref ac ar y lefel o gymorth a gynigiwyd i awdurdodau lleol gan gymdeithasau tai yn fach.

Yn yr holl awdurdodau astudiaethau achos, waeth a oedd CTC yn ei le ai peidio, adroddwyd dros y pum mlynedd diwethaf fod yr awdurdod lleol a'r cymdeithasau tai wedi cynyddu eu cydweithredu mewn perthynas â darparu llety i bobl sy'n ddigartref. Ym mhob ardal, gwelwyd bod gan gymdeithasau tai well ddealltwriaeth o ddyletswyddau statudol yr awdurdod lleol a'r angen i rannu'r baich statudol gyda'r awdurdod lleol. Mewn ardaloedd lle roedd CTC yn ei le, teimlwyd nad oedd y CTC yn ddylanwadol yn hyn o beth.

Fodd bynnag, mewn un awdurdod lleol oedd wedi datblygu CTC yn ddiweddar, roedd y cytundeb yn cynnwys trefniadau i'r awdurdod lleol fonitro perfformiad cymdeithasau tai unigol mewn perthynas ag agweddau allweddol ar eu gwaith, yn cynnwys gosodiadau i gartrefi digartref. Adroddwyd bod:

"y CTC, ac yn enwedig y defnydd o'r matrices perfformiad, yn dechrau cael effaith fawr ... ar faterion rheoli tai gan roi iddynt broffil llawer uwch, a bod y canlyniadau yn dechrau cael eu gweld yn nhermau gwell perfformiad, yn enwedig ym meysydd enwebiadau, eithriadau a chymorth gyda digartrefedd."

2.2 Ardaloedd lle nas defnyddir CTCau

Mae'r is-adran hon, sy'n canolbwyntio ar ardaloedd lle nad oedd CTC yn ei le, yn nodi canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â'r canlynol:

- rhesymau dros beidio â defnyddio CTCau; a
- cynllun i gyflwyno CTCau.

Mae Tabl 2 yn darparu gwybodaeth am y defnydd o CTCau a bwriadau awdurdodau

lleol i gyflwyno CTCau. Nid oedd gan dair ar ddeg o awdurdodau lleol CTC yn ei le⁵⁶.

Tabl 2. Y defnydd o CTCau

Sefyllfa mewn perthynas â CTC	Nifer yr Awdurdodau Lleol
CTC yn ei le	8
CTC wedi'i gynllunio	6
Dim CTC wedi'i gynllunio	7
Cyfanswm	21

2.2.1 Rhesymau dros beidio â chyflwyno CTC

Dywedodd saith awdurdod lleol nad oedd ganddynt CTC yn ei le nad oedd unrhyw gynlluniau gyda hwy i gyflwyno un, ac nid oeddent yn teimlo bod angen gwneud hynny. Roedd y rhesymau a nodwyd dros hyn yn amrywio. Dywedodd rhai awdurdodau lleol bod CTCau wedi diflannu oddi ar yr agenda cenedlaethol, a dywedodd eraill fod y trefniadau

gwaith partneriaeth gyda chymdeithasau tai yn effeithiol ac felly nid oedd angen eu ffurfioli gyda CTC. Er enghraifft:

"dechreuon ni weithio ar un 4 blynedd yn ôl. Cyn iddo gael ei fabwysiadu'n ffurfiol, diflannodd oddi ar restr flaenoriaethau pawb, ac ni gafodd ei orffen."

"byddai cytundeb tai cymunedol ond yn cadarnhau'r hyn yr ydym yn ei wneud beth bynnag."

Awdurdod Lleol 5

Nid oes CTC yn ei le, ond mae'r awdurdod lleol a'r cymdeithasau tai yn mwynhau perthynas waith bositif iawn. Gellid cysylltu hyn ag ystod o faterion a nodwyd yn ystod y cyfweiliadau:

- diwylliant - nid yw'r awdurdod lleol na'r cymdeithasau tai yn sefydliadau mawr ac maent wedi gorfod dibynnu ar waith partneriaeth erioed er mwyn cyflawni amcanion sefydliadol;
- perthnasau personol - mae'r trosiant staff yn fach ac roedd gweld staff yn symud rhwng yr awdurdod lleol a'r gymdeithas dai yn rhywbeth cyffredin. Mae hyn wedi galluogi i staff allweddol ddatblygu perthnasau hirsefydlog yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch cilyddol; ac
- eglurder - mae gan y ddau sefydliad ddealltwriaeth dda o rolau a chyfrifoldebau yr asiantaeth arall, ac fe gynorthwyir hyn drwy gynnwys cynghorwyr allweddol ar Fwrdd y gymdeithas.

Roedd perthnasau rhwng yr adran gynllunio a chymdeithasau tai wedi gwella yn ddiweddar a gellir priodoli hyn i amlygrwydd cynyddol tai fforddiadwy ar yr agenda gwleidyddol corfforaethol.

Tra bod yr holl gyfranogwyr yn cydnabod y byddai CTC yn ychwanegu ffurfioldeb i'r berthynas rhwng yr awdurdod lleol a chymdeithasau tai, teimlwyd na fyddai ynddo'i hun yn gwella gwaith partneriaeth rhwng y cyngor a chymdeithasau tai. Roed rhai cyfranogwyr yn teimlo y byddai datblygu CTC yn tynnu sylw oddi ar bethau eraill, gan arallgyfeirio adnoddau prin o gyflwyno gwaith partneriaeth i ddatblygu'r cytundeb.

⁵⁶ Nid oedd yr ymchwilyr wedi gallu cynnal cyfweiliad yng Ngwynedd, yr 22ain awdurdod lleol.

Dywedodd un awdurdod lleol nad oeddent yn teimlo bod yr amser yn iawn i gyflwyno CTC oherwydd eu bod yn edrych ar drosglwyddo stoc, ac os byddai hyn yn mynd yn ei flaen, byddai angen iddynt adolygu eu holl gytundebau yn llwyr.

Ystyriwyd mai'r gofynion allweddol ar gyfer gwaith partneriaeth effeithiol oedd cael amcanion a rennir, a pherthynas a adeiladwyd ar fod yn agored ac ar ymddiriedaeth. Teimlodd nifer o awdurdodau lleol nad oedd cael cytundeb ffurfiol yn ychwanegu unrhyw beth, ac mewn rhai ffyrdd, ei fod yn cyfeirio adnoddau i ffwrdd oddi wrth gyflwyno mentrau gwaith partneriaeth. Gwelwyd gan rai bod CTCau yn cyflwyno "biwrocratiaeth ddiangen" ac yn cymryd adnoddau staff i ffwrdd oddi wrth flaenoriaethau eraill lle roedd gallu strategol llawer o awdurdodau lleol yn gyfyngedig.

Roedd peth amheuaeth hefyd ynghylch y buddion y byddai CTC yn eu cynnig. Roedd yr awdurdodau lleol a'r cymdeithasau tai yn gweld perygl y gallai cytundeb ddyddio'n gyflym ac aros ar y silff. Fodd bynnag, roedd un prif swyddog tai mewn awdurdod lleol oedd yn weddol amheus am CTCau yn dweud eu bod yn bwriadu cyflwyno cofrestr dai gyffredin ac y gallai hyn o bosib ffurfio sail ar gyfer CTC.

2.2.2 Cynllun i gyflwyno CTC

Dywedodd nifer o awdurdodau lleol eu bod yn ystyried cyflwyno CTC yn y dyfodol (gweler Tabl 2). Adroddodd dau awdurdod lleol eu bod yn gweithio ar gytundebau drafft ar adeg yr ymchwil a nododd pedwar arall ei bod yn ystyried o ddifrif cyflwyno cytundeb.

Fodd bynnag, cafwyd ymdeimlad bod cyflwyno CTC wedi bod ar y rhestr o "bethau i'w gwneud" ers peth amser i nifer o awdurdodau lleol a bod yr

ymrwymiad wedi'i oddiweddyd yn aml gan flaenoriaethau eraill. Dywedodd nifer o awdurdodau lleol er eu bod wedi edrych yn gyfnodol ar ddatblygu CTC, nid oedd unrhyw un yn eu gwthio i wneud hynny felly roedd yn "llithro oddi ar yr agenda" yn barhaus. Hefyd, gwelwyd CTCau gan nifer o awdurdodau lleol fel cyfrwng gan fwyaf i "dacluso" trefniadau partneriaeth presennol, a allai egluro'r diffyg blaenoriaeth mewn perthynas â'u datblygu. Lle roedd datblygu CTC yn cael ei ysgogi'n gryf ar adeg yr ymchwil, roedd hynny oherwydd y gwnaed ymrwymiad ffurfiol i wneud hynny. Mewn un achos, roedd yr ymrwymiad wedi'i gynnwys yn y strategaeth dai; mewn un arall, roedd wedi llifo o adolygiad Gwerth Gorau.

Mewn un awdurdod lleol oedd yn mwynhau gwaith partneriaeth positif gyda chymdeithasau tai, mae cytundeb drafft wedi bod yn y broses o gael ei ddatblygu ers sawl blwyddyn, ond nid oedd wedi'i orffen na'i lofnodi. Dywedodd staff yr awdurdod lleol a chymdeithasau tai pe na fyddai gwaith partneriaeth mor effeithiol o fewn yr ardal, byddai mwy o flaenoriaeth wedi'i roi i orffen a llofnodi'r cytundeb. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch sut y byddai datblygu a gweithredu CTC yn arallgyfeirio adnoddau oddi wrth weithgareddau gwaith partneriaeth.

Mewn awdurdod lleol arall oedd yn bwriadu cyflwyno CTC, roedd pwysau allanol fel gwerthoedd tir uwch, diffyg tai fforddiadwy a'r angen i gefnogi ymgeiswyr/tenantiaid hawdd eu niweidio wedi cynyddu pwysigrwydd gweithio'n agos gyda chymdeithasau tai. Fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch yr adnoddau fyddai eu hangen i ddatblygu, cyflwyno a monitro CTC wedi golygu nad oedd y cynlluniau hyn wedi'u datblygu ymhellach.

Awdurdod Lleol 6

Nid oes gan yr awdurdod hwn CTC yn ei le. Disgrifiwyd perthnasau gwaith rhwng yr awdurdod lleol a chymdeithasau tai fel rhai positif mewn perthynas â chynllunio cymunedol a thai. Fodd bynnag, nid oedd gwaith partneriaeth gyda swyddogaethau ar wahân i dai o fewn yr awdurdod lleol wedi'u datblygu cystal, er bod rhannau amrywiol o'r awdurdod yn derbyn yn raddol y dylai cymdeithasau tai gael eu cynnwys mewn trafodaethau.

Mae gan yr awdurdod grŵp cyd-gysylltu cymdeithasau tai sy'n cwrdd yn chwarterol ac mae ganddo agenda anffurfiol yn seiliedig ar faterion o bwysigrwydd cilyddol, sef ar hyn o bryd digartrefedd a gosodiadau yn seiliedig ar ddewis. Nid dull ffurfiol yw'r cyfarfodydd hyn i adolygu gweithio ar y cyd.

Mae'r awdurdod a'r cymdeithasau tai partner yn ymrwymedig i ddatblygu CTC yn y dyfodol. Y prif rwystr i ddatblygu CTC yw'r amser y mae'r awdurdod yn ei ystyried y byddai'n ei gymryd i ddatblygu CTC effeithiol a'r diffyg adnoddau o fewn y swyddogaeth dai strategol i'w weithredu.

Byddai'r awdurdod a'r cymdeithasau tai yn dymuno i CTC yn y dyfodol gefnogi gweithio ar y cyd ar draws yr awdurdod ac maent yn gweld hyn fel maes blaenoriaeth. Mae'r awdurdod yn gweld rhesymoli cynlluniau a chyd-destun trosglwyddiadau stoc posib mewn nifer o awdurdodau lleol fel cyfle i wreiddio unrhyw gytundeb yn y dyfodol yn fwy effeithiol o fewn corff corfforaethol yr awdurdod lleol. Cwestiynwyd y term cytundeb tai cymunedol gan yr awdurdod a chymdeithasau tai o safbwynt a oedd yn creu rhwystr i gyflawni 'prynu i mewn' corfforaethol.

Roedd yr awdurdod yn ystyried y byddai CTC yn rhoi sylwedd i waith partneriaeth ac y byddai'n helpu diffinio ystod y trefniadau gweithio ar y cyd presennol a rhai posib. Mae'r ffaith fod gan yr awdurdod nifer o gonsortia cymdeithasau tai yn cael ei gydnabod fel ffactor y byddai angen ei ystyried wrth ddatblygu unrhyw gytundeb yn y dyfodol.

Mae ymwybyddiaeth glir gan bob parti fod gwaith partneriaeth yn ymwneud â pherthnasau a phobl, waeth bynnag a oes cytundeb ffurfiol yn ei le ai peidio.

2.3 Materion yn ymwneud â gwaith partneriaeth

Mae'r is-adran hon, sy'n canolbwyntio ar bob maes waeth bynnag a oedd CTC yn ei le ar adeg yr ymchwil, yn nodi canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas ag:

- Effaith CTCau ar raddau ac effeithiolrwydd gwaith partneriaeth; a
- CTCau a'r dyfodol.

2.3.1 Effaith CTCau ar raddau ac effeithiolrwydd gwaith partneriaeth

Gofynnwyd cwestiynau tebyg i aelodau staff awdurdodau lleol a chymdeithasau

tai a gyfranogodd yn y cyfweiliadau ffôn ynghylch graddau ac effeithiolrwydd gwaith partneriaeth ar lefel leol, er gwaethaf a oedd CTC yn ei le ai peidio.

Dangosodd y cyfweiliadau ei fod yn ymddangos bod cynnydd wedi bod yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn swm y gweithgarwch partneriaeth ar lefelau strategol a gweithredol.

Priodolodd ymarferwyr a rhanddeiliaid y cynnydd mewn gwaith partneriaeth ar lefel leol i nifer o resymau, fel:

- rôl fwy yr awdurdod lleol wrth bennu'r defnydd o'r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol (GTC) a'i reoli;

- y flaenoriaeth wleidyddol gynyddol a gysylltir â chyflwyno tai fforddiadwy;
- cynnydd mewn pwysau digartrefedd o ganlyniad i newidiadau i'r categorïau blaenoriaeth angen;
- mwy o barodrwydd gan gymdeithasau tai i drefnu cartrefi i bobl ddigartref;
- gwell dealltwriaeth gilyddol a gwell gwerthfawrogiad o rolau cymdeithasau tai ar lefel leol;
- rhoddwyd mwy o gyfeiriad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru;
- swyddogaeth dai strategol wedi'i hariannu'n dda;
- mwy o barodrwydd gan awdurdodau lleol i ymwneud â chymdeithasau tai;
- mwy o barodrwydd gan gymdeithasau tai i drafod a chaniatáu materion; a
- mwy o gydraddoldeb yn y bartneriaeth rhwng swyddogaeth dai yr awdurdod lleol a chymdeithasau tai.

Ni ystyriwyd bod gwaith partneriaeth heb ei broblemau, gyda staff awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn nodi setiau o ffactorau oedd yn creu tensiynau ac yn gwneud gwaith partneriaeth yn broblematig.

Y materion a nodwyd gan staff cymdeithasau tai oedd:

- gan yr awdurdodau lleol mae'r pŵer ac felly mae partneriaethau yn eu ffafrio hwy - nhw sy'n arwain yr agenda;
- gall cyfranogiad fod yn fater o ddilyn y drefn yn unig, gyda chymdeithasau tai yn cael eu tynnu i mewn ar y funud olaf i ddilysu'r hyn y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud;
- mae diffyg arweinyddiaeth strategol gan yr awdurdod lleol;
- mae awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar y niferoedd sy'n cael eu hailgartrefu pan mae yna faterion ehangach fel cynaliadwyedd, ac ati; a
- chysylltiadau gwael gydag agenda ehangach yr awdurdod lleol yn arwain at anghysondebau corfforaethol.

Y materion a nodwyd gan staff awdurdodau lleol oedd:

- tensiynau dros fynediad i eiddo cymdeithasau tai, er bod datblygu cofrestri cyffredin a systemau gosod yn seiliedig ar ddewis yn ymddangos eu bod yn lleddfu rhai o'r problemau hyn;
- dywedodd mwyafrif yr awdurdodau lleol eu bod yn ei chael yn haws gweithio gyda Chymdeithasau Tai wedi'u lleoli'n lleol. Mae ganddynt well perthynas, maent yn gwybod beth yw'r anghenion lleol ac maent yn fwy parod i fod yn hyblyg;
- dywedodd rhai awdurdodau lleol eu bod yn haws gweithio gyda'r cymdeithasau tai mwy o faint gan fod mwy o allu ganddynt a'u bod yn llai plwyfol; a
- gall cymdeithasau tai fod yn amharod i gydweithredu gyda'i gilydd mewn partneriaethau ehangach.

Nododd staff awdurdodau lleol, staff cymdeithasau tai a staff o asiantaethau rhanddeiliaid allweddol ystod o bartneriaethau strategol a gweithredol sydd wedi cael eu datblygu rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai dros y blynyddoedd diwethaf, er bod math a chryfder y partneriaethau yn amrywio ar draws Cymru. Yn nhermau trefniadau gweithredol:

- mae gan yr holl awdurdodau lleol gytundebau enwebu gyda'u partneriaid cymdeithasau tai, ac eithrio lle mae cofrestri/systemau gosodiadau seiliedig ar ddewis wedi disodli'r angen am drefniadau enwebu;
- mae cofrestri tai cyffredin mewn 6 ardal awdurdod lleol ac maent yn cael eu hystyried mewn 3 ardal arall;

- mae nifer o awdurdodau lleol â chofrestri tai cyffredin yn ystyried cyflwyno polisïau dyrannu cyffredin;
- mae symudiad mewn sawl ardal tuag at systemau gosodiadau seiliedig ar ddewis cyffredin;
- roedd ystod o gytundebau gweithredol eraill yn eu lle, yn cynnwys:
 - cytundebau eithrio/gwahardd dros dro;
 - cynlluniau gosodiadau;
 - cytundebau cyd-denantiaid;
 - cytundebau Budd-dal Tai;
 - Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda darparwyr cyngor/cefnogaeth/llety; a
 - chytundebau asiantaethau Gofal a Thrwsio.

Yn nhermau partneriaethau strategol, y canlynol a nodwyd amlaf:

- Fforwm Tai (neu Partneriaeth/grŵp cyd-gysylltu ac ati);
- Fforwm Digartrefedd;
- Grŵp Strategaeth Tai Pobl Dduon & Lleiafrifoedd Ethnig;
- Strategaeth Cefnogi Pobl/grŵp cyd-gysylltu; a

- Swyddogion Galluogi Tai Gwledig.

Roedd grwpiau strategol eraill a nodwyd yn cynnwys grwpiau cyd-gysylltu Grant Tai Cymdeithasol (GTC), grwpiau tai fforddiadwy, grwpiau datblygiad economaidd a grwpiau a dargedwyd at grwpiau anghenion penodol, er enghraifft, iechyd meddwl. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ymddengys mai'r meysydd twf ar gyfer partneriaethau rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ar lefel strategol a gweithredol yw diogelwch cymunedol ac adfywio ardaloedd.

Ymddengys bod awdurdodau lleol gyda CTCau (yn eu lle am fwy na 12 mis), ychydig yn fwy tebygol o gael cytundebau gweithredol, fel cofrestri tai cyffredin, yn eu lle (gweler Tablau 3 & 4 isod). Fodd bynnag, mae angen i ni drin y canlyniadau hyn yn ofalus. Casglwyd y canlyniadau mewn arolwg cyfweiliadau ffôn, nad yw'n gyfrwng delfrydol ar gyfer casglu gwybodaeth mor fanwl a chafwyd peth dryswch ynghylch diffiniadau rhai cytundebau, er enghraifft, cynlluniau gosodiadau. Hefyd, ni allwn gymryd yn ganiataol mai'r CTC oedd yn gyfrifol am esgor ar y cytundebau eraill hyn.

Tabl 3. Cytundebau gweithredol eraill

Cytundebau Gweithredol	Awdurdodau lleol lle mae CTC yn ei le		Awdurdodau lleol lle nad oes CTC yn ei le	
	Oes	Nac oes	Oes	Nac oes
Cofrestr Dai Gyffredin	3	5	3	10
Polisi dyraniadau cyffredin	1	7	1	12
Cytundeb enwebiadau (yn cynnwys cwmpasu gan y gofrestr dai gyffredin)	8	0	13	0
Cytundeb gwahardd dros dro	4	4	4	9
Cytundeb gorfodi tenantiaeth	2	6	0	13
Cytundeb cyfranogi cyd-denantiaid	3	5	1	12

Tabl 4. Trefniadau gweithredol waeth a yw CTC yn ei le ai peidio

Cytundebau Gweithredol	% o awdurdodau lleol lle mae cytundeb yn ei le ac mae CTC yn ei le	% o awdurdodau lleol lle mae cytundeb yn ei le ac nid oes CTC yn ei le
Cofrestr Dai Gyffredin	38%	27%
Polisi dyraniadau cyffredin	13%	9%
Cytundeb enwebiadau (yn cynnwys cwmpasu gan y gofrestr dai gyffredin)	100%	100%
Cytundeb gwahardd dros dro	50%	33%
Cytundeb gorfodi tenantiaeth	25%	0
Cytundeb cyfranogi cyd-denantiaid	38%	9%

Gofynnwyd i'r holl staff awdurdodau lleol a chymdeithasau tai a gyfranogodd yn y cyfweiliadau ffôn sgorio effeithiolrwydd gwaith partneriaeth ar raddfa o un i ddeg. Mae'r sgorau cymedrig yn dangos ychydig yn unig o amrywiad yn ôl a oes CTC yn ei le. Graddiodd yr awdurdodau lleol effeithiolrwydd eu partneriaethau strategol a gweithredol yn 7, waeth a oedd ganddynt CTC yn ei le ai peidio. Roedd cymdeithasau tai a oedd yn rhan o CTC yn graddio gwaith partneriaeth strategol a gweithredol gydag awdurdodau lleol yn 7, o'i gymharu â sgôr cymedrig o 6 i gymdeithasau tai nad oeddent yn rhan o CTC. Dylid nodi bod yr ystod o sgorau ar gyfer cymdeithasau tai lle nad oedd CTC yn ei le yn eang iawn (rhwng 1 a 9).

Roedd wyth cymdeithas dai oedd yn rhan o CTC gydag un awdurdod lleol yn gweithio gydag un awdurdod lleol arall o leiaf lle nad oedd CTC yn ei le. O'r pum cymdeithas dai oedd yn gallu cynnig barn ar a oedd CTC yn gwneud gwahaniaeth positif i'r berthynas, roedd dau yn teimlo ei fod yn gwneud gwahaniaeth, a dywedodd tri ohonynt fod ganddynt berthnasau mwy positif gydag awdurdodau lleol nad oedd ganddynt CTC gyda hwy.

Darlun cymysg sy'n ymddangos o'r cyfnod hwn o'r ymchwil. Er bod graddau'r gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ymddengys nad oedd CTCau yn ffactor cyfrannol sylweddol. Mewn ardaloedd lle roedd CTC yn ei le, ymddengys ei fod ychydig yn fwy tebygol bod ffurfiau eraill ar gytundebau gwaith partneriaeth yn eu lle. Fodd bynnag, ni ymddengys bod effeithiolrwydd gwaith partneriaeth yn cael ei effeithio'n sylweddol gan bresenoldeb CTC.

2.3.2 CTCau a'r dyfodol

Mynegodd mwyafrif yr ymarferwyr gafodd eu cyfweild yn ystod yr astudiaethau achos y farn fod angen rhyw ffurf ar gytundeb rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai er mwyn sicrhau:

- y gellir cynnal ffocws clir ar sut y gall tai a chymdeithasau tai gyfrannu at gyflwyno amcanion y Cynllun Cymunedol;
- y gellir monitro cyfraniad partneriaethau tuag at gyflwyno amcanion a rennir; a
- bod y berthynas rhwng yr awdurdod lleol a'r gymdeithas dai yn cael ei chydabod a'i ffurfioli.

Mewn nifer bach o achosion, nododd ymarferwyr yr angen i gytundebau fod yn ehangach na'r sector cymdeithasau tai, gan dynnu i mewn randdeiliaid allweddol eraill i'r swyddogaeth dai strategol. Nododd ymarferwyr fod angen gofal mewn perthynas ag unrhyw gytundebau yn y dyfodol hefyd. Roedd eu pryderon yn cynnwys:

- cydnabod na all cytundebau eu hunain greu perthynas waith bositif sy'n dibynnu ar barch cilyddol a barn bositif am y naill barti gan y llall; a
- rhybuddio yn erbyn gor-gymhlethu, yng ngoleuni gallu strategol cyfyngedig o fewn awdurdodau lleol a chymdeithasau tai.

2.4 Adolygiad o effeithiolrwydd CTCau

Daw'r bennod i ben drwy geisio sefydlu pa mor effeithiol y bu CTCau mewn arfer ac a ydynt yn cynrychioli ffurf ar gytundeb y gellir parhau i'w gymhwyso'n ddefnyddiol yng Nghymru. Mae sefydlu effeithiolrwydd CTCau yn golygu bod angen ystyried y canlynol:

- rhai o fwriadau gwreiddiol y CTC model;
- sut mae'r cytundebau wedi cael eu gweithredu; a
- ffactorau eraill y gallai fod wedi dylanwadu ar eu defnydd a'u heffeithiolrwydd.

Bydd trafodaethau yn canolbwyntio ar bob un o'r meysydd canlynol:

- gweithredu CTCau;
- i ba raddau y cyflawnodd y cytundebau berchenogaeth gorfforaethol;
- i ba raddau yr oedd CTCau yn ymgorffori atodlenni y gellid eu hystyried yn gynlluniau perfformiad; ac
- effaith CTCau ar waith partneriaeth.

2.4.1 Gweithredu CTCau

Mae'r ffaith nad yw CTCau yn cael eu defnyddio'n eang yn awgrymu nad yw ymarferwyr yn y sectorau awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn ystyried eu bod yn arbennig o berthnasol i'w hamgylchiadau. Fodd bynnag, gallai'r defnydd cyfyngedig o CTCau hefyd fod yn gysylltiedig â diffyg unrhyw ffurf ar hyrwyddo'r cytundebau a'r adnoddau a ddyrannwyd i'r swyddogaeth dai strategol ar lefel leol.

Datblygwyd y CTC model gan fforwm oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o CLILC a FfCTC. Roedd y cytundeb yn wirfoddol, ac ni gafodd ei hyrwyddo'r eang gan y naill sefydliad na'r llall, na'i hyrwyddo'n sylweddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, er bod hyn yn darged yn *Cartrefi Gwell i Bobl Cymru*. Nid yw felly yn syndod mawr bod eu defnydd yn gyfyngedig.

Mewn awdurdodau lleol lle mae'r adnoddau a ymrwymir i'r swyddogaeth dai strategol yn annigonol i gyflawni'r swyddogaeth yn ddigonol, ni ddylai ein synnu na fyddai datblygu CTC yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth nac yn dasg cyflawnadwy.

2.4.2 Cyflawni perchenogaeth gorfforaethol ehangach

Roedd cyflawni perchenogaeth gorfforaethol ehangach yn un o uchelgeisiau allweddol y CTC model.

*"Rather than an agreement being entered into between a Housing Department and the Association(s), it is felt important to refer to the Council in its entirety. This is aimed at achieving a corporate ownership to the agreement and ensuring that Registered Social Landlords are drawn into the wider aims and objectives of the authority(ies)."*⁵⁷

⁵⁷ Fforwm Landlordiaid Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru (1998:2).

Pwrpas datblygu cytundeb oedd yn ehangach na swyddogaethau tai yr awdurdod lleol oedd er mwyn:

“ensure that they did justice to the potential range of services that can characterise the authority/association partnership.”⁵⁸

Un o'r problemau a nodwyd gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai lle roedd CTCau yn eu lle oedd yr anhawster wrth geisio cynnwys swyddogaethau awdurdodau lleol nad oeddent yn ymwneud â thai yn naill ai datblygu'r CTC ei hun, neu wrth weithredu'r camau gweithredu a nodwyd yn y CTC. Yr anhawster hwn oedd y gwendid mwyaf cyffredin a nodwyd mewn perthynas â'r CTC.

Nid yw methiant i ennill derbyniad ehangach o fewn yr awdurdod lleol yn golygu bod y cytundebau eu hunain yn ddiffygiol. Datblygwyd CTCau gan staff tai mewn awdurdodau lleol, mewn partneriaeth â chydweithwyr mewn cymdeithasau tai, a gwelwyd y cytundebau eu hunain fel dogfennau “tai” yn hytrach na dogfennau “corfforaethol”. Mae'n ddigon posib bod penseiri'r CTCau gwreiddiol yn rhy optimistaidd ynghylch gallu'r swyddogaeth dai i ddylanwadu ar agenda corfforaethol ehangach.

Pe bai CTCau wedi cael eu hyrwyddo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'u cefnogi gan arweiniad, mae'n bosib y byddai mwy o gyfranogiad corfforaethol wedi digwydd mewn perthynas â'u datblygu a byddai'r cytundebau eu hunain wedi cyflawni gwell ymdeimlad o berchenogaeth gorfforaethol.

2.4.3 Yr atodlenni fel cynlluniau perfformiad

Mae'r CTC model yn awgrymu y dylai'r CTC gynnwys dwy ran, gyda'r ail yn cynnwys:

“A schedule which can be developed to be a performance plan between an authority and a single association. This will outline the respective targets for the coming year and will be the basis for review at the end of the year.”⁵⁹

O archwilio CTCau, ymddengys bod nifer wedi methu ag ymgorffori cynlluniau gweithredu/perfformiad. Mewn rhai achosion, roedd y CTC yn cynnwys y cytundeb yn unig heb atodlen fanwl yn nodi camau gweithredu a thargedau y byddai'r partion i'r cytundeb yn eu hadolygu a'u monitro. Ymddengys bod hyn yn awgrymu naill ai diffyg dealltwriaeth pwrpas CTCau, neu'r angen am ddatblygu a chymeradwyo cytundeb er mwyn dilyn y drefn yn unig.

Parthed y CTCau hynny oedd yn cynnwys atodlenni manwl, diffyg cyffredin oedd nad oedd y cynllun camau gweithredu/perfformiad yn cael ei adolygu mor rheolaidd ag a nodwyd yn y cytundeb. Priodolwyd y methiant hwn i fonitro'r atodlen i'r CTC mewn mwy nag un achos i ddiffyg adnoddau a'r ffaith fod y CTC wedi cael ei ddisodli gan drefniadau gwaith partneriaeth eraill.

Roedd y ffaith fod CTCau yn cael eu hystyried fel cynlluniau oedd yn dyddio yn dangos diffyg gwerthfawrogiad o'r bwriad gwreiddiol y tu ôl i'w datblygu. Pwrpas y CTC, fel a nodwyd yn y CTC model, oedd iddi fod yn ddogfen fyw, yn cael ei hadolygu a'i diweddarau yn rheolaidd ac yn gosod targedau heriol i'r awdurdod lleol a'r gymdeithas dai ymdrechu i'w cyflawni. Ni ddylai CTCau wedi eu disodli gan drefniadau gwaith partneriaeth eraill - yn hytrach dylent fod wedi cael eu cynnwys o fewn eu cwrmpas.

⁵⁸ Cartref (1998:1).

⁵⁹ Fforwm Landlordiaid Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru. Hydref (1998:4).

Mae'r methiant o safbwynt dilyn yr arweiniad mewn arfer yn awgrymu nad oedd yn glir. Yn ogystal, mae'r ffaith nad oedd y dasg o ddatblygu, monitro, adolygu a diweddarau CTCau wedi'i chwblhau'r llwyddiannus yn y rhan fwyaf o achosion yn awgrymu nad oedd yr adnoddau yr oedd eu hangen i wneud hyn yn bodoli o fewn yr awdurdod lleol. Cefnogir hyn gan gasgliadau adroddiad diweddar i Banel Prif Swyddog Tai Cymru Gyfan ar allu'r swyddogaeth dai strategol ar draws awdurdodau lleol.⁶⁰

2.4.4 Effaith CTCau ar waith partneriaeth

Gofynnwyd i swyddogion awdurdodau lleol a chymdeithasau tai am raddau ac effeithiolrwydd gwaith partneriaeth mewn ardaloedd lle yr oedd CTCau yn eu lle a hefyd lle nad oeddent yn eu lle. Ymddengys na chafodd CTCau lawer o effaith ar raddau nac effeithiolrwydd gwaith partneriaeth. Mae archwilio agosach fodd bynnag yn awgrymu nad dyma o reidrwydd yw'r sefyllfa.

Er mai diwylliant sefydliadau, yn enwedig yr awdurdod lleol, sy'n effeithio ar effeithiolrwydd gwaith partneriaeth, mewn nifer o achosion adroddwyd mai datblygu'r CTC oedd y catalydd ar gyfer gwella gwaith partneriaeth pan y'i datblygwyd i gychwyn, neu ei fod wedi chwarae rhan wrth greu cydweithredu lle nad oedd yn bodoli eisoes.

Yn ogystal, ymddengys bod gan yr ymagwedd tuag at ddatblygu'r CTC effaith sylweddol ar ei ddefnyddioldeb. Mewn un ardal awdurdod lleol, adroddwyd gan swyddogion yr awdurdod lleol a swyddogion cymdeithasau tai, fod y broses o ddatblygu'r CTC yn ffordd o ddatblygu diwylliant o weithio

cydweithredol. Yn yr awdurdod lleol hwn, lle mae'r CTC a ddatblygwyd yn ddiweddar yn cynnwys trefniadau i fonitro perfformiad rheoli tai cymdeithasau tai a chysylltu hyn â dyrannu'r Grant Tai Cymdeithasol, adroddwyd bod effaith y CTC wedi bod yn sylweddol mewn perthynas ag enwebiadau, eithriadau a chymorth gyda digartrefedd.

Mae'n debygol bod effeithiolrwydd CTCau wedi'i leihau gan awdurdodau lleol yn ymrwymo adnoddau annigonol i fonitro, adolygu a diweddarau, gan alluogi ei ddisodli gan drefniadau gwaith partneriaeth eraill. Fodd bynnag, fel y mae'r enghraifft fwyaf diweddar o CTC wedi dangos, lle mae'r cytundebau yn cael eu datblygu yng ngwir ysbryd partneriaeth, y cynllun perfformiad yn cael ei fonitro ac y cysylltir cymhellion â chyflawni amcanion a rennir gall CTCau gael effaith sylweddol, gan sicrhau bod awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn rhannu amcanion cyffredin ac yn gweithio'n agos i'w cyflawni.

2.5 Casgliad

Mae effeithiolrwydd CTCau hyd yma wedi bod yn gyfyngedig. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na all CTCau, neu fath tebyg o gytundeb, fod yn effeithiol yn y dyfodol. Rhwystrowyd effeithiolrwydd CTCau gan ddau brif ffactor - diffyg arweiniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r adnoddau cyfyngedig a ddarparwyd i'r swyddogaeth dai strategol ar lefel leol.

Pe bai CTCau wedi cael eu hyrwyddo'n helaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac arweiniad wedi'i ddarparu ar eu datblygu a'u defnydd, mae'n bosib y byddai'r cytundebau a ddatblygwyd:

- wedi bod yn fwy niferus;
- yn cyfatebu'n well i fwriad gwreiddiol CTCau mewn perthynas â'u fformat a'u datblygiad; a

⁶⁰ Beirnie K. (2006).

- wedi cyflawni gwell cyfranogiad corfforaethol a gwell perchenogaeth gorfforaethol.

Pe byddai gan swyddogaeth dai strategol awdurdodau lleol Cymru fwy o allu mae'n bosib:

- y byddai nifer y CTCau yn eu lle wedi bod yn fwy niferus;
- byddai proffil tai a'r cyfraniad y gall wneud i gyflwyno amcanion corfforaethol wedi cael ei godi, gan helpu i gyflawni cyfranogiad corfforaethol ehangach a mwy o berchenogaeth gorfforaethol o'r CTC; a
- byddai cyfran uwch o CTCau wedi cael eu gweithredu yn unol â'r arweiniad cyfyngedig a gynhyrchwyd yn y CTC model.

Teimlwn y gall ffurf ddiwygiedig ar CTCau chwarae rôl wrth gryfhau'r swyddogaeth dai strategol a symud yr agenda partneriaeth a gweithio cydweithredol ymlaen mewn tai, ond bod angen gwneud llawer er mwyn mynd i'r afael â'r ddau ffactor hyn. Rydym yn mynd i'r afael â'r materion hyn ym Mhennod 5.

Crynodeb o'r Canfyddiadau

- Nid yw CTCau yn cael eu defnyddio'n eang - dim ond wyth (36%) o awdurdodau lleol Cymru sydd ag un yn ei le
- Un o'r prif resymau a nodwyd dros beidio â chyflwyno CTCau oedd y lefel o adnoddau oedd eu hangen er mwyn datblygu a gweithredu cytundeb
- Ynghylch y CTCau hynny sydd yn eu lle:
 - roedd amrywiad yn y partïon i'r cytundebau, yr ymagweddau a fabwysiadwyd i ddatblygu'r cytundebau a'u cynnwys; ac
 - ystyriwyd mwyafrif y CTCau fel catalyddion effeithiol ar gyfer gwella gwaith partneriaeth pan gawsant eu datblygu gyntaf.
- Roedd defnyddioldeb hir dymor CTCau:
 - wedi'i bennu gan y broses o ddatblygu'r cytundeb;
 - yn tueddu i ddibynnu ar ansawdd yr atodlen, ac yn rhan fwyaf yr achosion roedd y rhain yn wan, ac nid oedd tasgau, cyfrifoldebau ac amserlenni yn cael eu nodi'n fanwl; ac
 - yn tueddu i ddibynnu ar y trefniadau ar gyfer monitro'r atodlen, ac yn rhan fwyaf yr achosion roedd y rhain yn wael.
- Ymddengys bod mwyafrif yr awdurdodau lleol yn ystyried y CTC yn bennaf fel fframwaith ar gyfer dwyn cytundebau presennol a threfniadau partneriaeth ynghyd a'u ffurfioli
- Gwendid cyffredin CTCau oedd y tueddiad i'w hystyried yn gorfforaethol fel "cytundebau tai" a'r ffaith nad oeddent, mewn arfer, wedi'u "perchenogi" gan yr awdurdod yn gorfforaethol nac wedi'u clymu i mewn gydag adrannau/cyfarwyddiaethau eraill awdurdodau lleol.

- Ni ymddengys bod gan CTCau effaith sylweddol ar waith partneriaeth o gwmpas digartrefedd, er mewn un awdurdod lleol lle cafodd perfformiad cymdeithasau tai ei fonitro a'i ddefnyddio i bennu dyrannu'r grant tai cymdeithasol adroddwyd bod y cytundeb wedi cael effaith fawr.
- Ni ymddengys bod effeithiolrwydd gwaith partneriaeth yn ddibynnol ar a oes CTC yn ei le ai peidio, er bod awdurdodau lleol gyda CTCau yn eu lle yn fwy tebygol o gael ffurfiau eraill ar gytundebau gweithredol yn eu lle.
- Ymddengys bod gwaith partneriaeth effeithiol o ganlyniad yn bennaf i ddiwylliant y sefydliadau dan sylw, yn enwedig diwylliant yr awdurdod lleol ac ymddengys ei fod yn dibynnu ar gyfres o faterion perthynol fel:
 - ymddiriedaeth;
 - bod yn agored;
 - parodrwydd i rannu gwybodaeth a phrofiadau;
 - cydnabyddiaeth o sgiliau a galluoedd asiantaethau partner a'r cyfraniad posib y gall pob parti ei wneud; a'r
 - parodrwydd i gynnwys partneriaid nid yn unig o ran cytuno ar ddogfennau, ond wrth nodi materion y mae angen mynd i'r afael â hwy ac wrth ddatblygu datrysiadau.
- Cafodd yr ymchwiliad lawer o enghreifftiau o fentrau gwaith partneriaeth creadigol a oedd wedi'u datblygu yn absenoldeb CTC, neu'r tu allan i'r trefniadau CTC presennol.
- Mae ansawdd yr arweiniad ar CTCau ac absenoldeb arweiniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ddatblygu a gweithredu CTCau wedi golygu:
 - bod y defnydd o CTCau wedi bod yn gyfyngedig;
 - nad yw CTCau wedi cyflawni perchenogaeth gorfforaethol;
 - cafwyd diffyg cysondeb yn yr ymagweddau at eu datblygu; ac
 - mae amrywiaeth sylweddol yn eu hansawdd a'u cynnwys.
- Mae diffyg gallu y swyddogaeth dai strategol yn awdurdodau lleol Cymru wedi golygu:
 - bod y defnydd o CTCau wedi bod yn gyfyngedig;
 - nad yw CTCau wedi cyflawni perchenogaeth gorfforaethol ehangach; a
 - chafwyd diffyg cysondeb yn yr ymagwedd at ddatblygu CTCau a'u gweithredu.

Pennod 5 Cytundebau Tai Cymunedol - cynigion ar gyfer ffordd ymlaen

1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn dwyn ynghyd llinynnau allweddol o'r penodau blaenorol cyn nodi cynigion ar gyfer ffurf ddiwygiedig ar gytundeb rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai. Yn wreiddiol nodwyd y cynnig yn y papur trafod cysylltiedig yn atodiad 10 a dylanwadwyd arno ymhellach o ganlyniad i ymatebion a dderbyniwyd drwy'r broses ymgynghori gydag ymarferwyr ac asiantaethau rhanddeiliaid allweddol.

2 Themâu allweddol

Mae nifer o themâu allweddol wedi ymddangos o'r arolygon ffôn a'r cyfweiliadau astudiaethau achos, trafodaethau gydag ymarferwyr a rhanddeiliaid allweddol ac adolygiadau polisi a llenyddiaeth sydd wedi hysbysu ffurf a chynnwys y cynigion ar gyfer y ffordd ymlaen.

Yn gyntaf, ceir symudiad graddol polisi llywodraeth leol yn y DU dros y ddau ddegawd diwethaf. Bu hwn yn symudiad i ffwrdd oddi wrth cyflawni gwasanaethau yn uniongyrchol tuag at bwyslais cynyddol ar y rôl arweinyddiaeth gymunedol strategol a gweithio mewn partneriaeth gydag ystod o ddarparwyr sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i gyflwyno amcanion a gyd-gytunwyd. Rhoddwyd pwyslais pellach ar y duedd DU gyfan hon gan adroddiad adolygiad Beecham ar gyflwyno gwasanaethau lleol. Un o'r pedwar ffactor hanfodol ar gyfer llwyddiant wrth gyflwyno gwasanaethau lleol yn effeithiol a nodwyd gan adolygiad Beecham yw gwaith partneriaeth. Mae adolygiad Beecham yn nodi bod angen i waith partneriaeth symud tuag at lefel fwy soffistigedig sy'n gofyn am

newidiadau mewn diwylliant ac ymddygiad arweiniol, datblygu sgiliau priodol a gallu a mwy o uchelgais mewn perthynas â phartneriaeth.

O fewn y sector tai, amlygir y rôl arweinyddiaeth gymunedol gan rôl dai strategol awdurdodau lleol. Mae'r swyddogaeth hon yn ei wneud yn ofynnol ar yr awdurdod lleol ymyrryd mewn partneriaethau gydag asiantaethau eraill i helpu llunio'r system dai leol a sicrhau y cyflwynir amcanion y Strategaeth Gymunedol sy'n gysylltiedig â thai.

Mae cymdeithasau tai yn bartneriaid allweddol wrth sicrhau cyflwyno amcanion tai ac amcanion strategol ehangach awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae perfformiad y rôl dai strategol yn awdurdodau lleol Cymru yn amrywio llawer. Mewn nifer bach o ardaloedd, mae pwysigrwydd system dai gytbwys fel rhan hanfodol o ddatblygiad cymunedau sy'n gyfiawn yn gymdeithasol ac yn gynaliadwy yn cael ei ddeall yn glir. Yn yr ardaloedd hyn, ariennir y swyddogaeth dai strategol yn dda ac mae'n gweithredu yn effeithiol. Fodd bynnag, yn rhan fwyaf yr ardaloedd awdurdodau lleol, nid yw'r ddealltwriaeth hon wedi'i datblygu'n dda ac nid yw'r swyddogaeth yn derbyn adnoddau digonol.

Yn ail, gallai'r fframwaith cynllunio diwygiedig llywodraeth leol a nodwyd yn y cynigion i resymoli'r cynllun o bosib danseilio'r swyddogaeth dai strategol ar lefel leol. Er mwyn osgoi hyn, bydd gweithredu'r cynigion hyn yn golygu y bydd angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ystyried yn ofalus yr arweiniad y mae'n ei gynnig i awdurdodau lleol ar gyflawni'r swyddogaeth dai strategol yn effeithiol, er mwyn sicrhau bod cymdeithasau tai

yn cael eu cynnwys yn natblygiad y Strategaeth Gymunedol a'r tri chynllun statudol lefel uchel.

Yn drydydd, yn ddiweddar gwelsom dwf mewn gweithio cydweithredol yn y sector cyhoeddus a ysgogwyd yn rhannol gan agenda *Creu'r Cysylltiadau* Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn y sector tai, bu'r cydweithredu hwn yn bennaf ar sail ranbarthol ac mae wedi cynnwys awdurdodau lleol. Yn y sector cymdeithasau tai, mae sefydlu consortia datblygu wedi creu cydweithredu eang rhwng cymdeithasau tai ac mae hyn yn dechrau ymestyn y tu hwnt i ddatblygiad tai cymdeithasol i gynnwys gwasanaethau canolog a gweithgareddau rheoli tai. Yn y tymor canolig, mae agenda *Creu'r Cysylltiadau* yn debygol o arwain at fwy o gydweithredu ar draws sectorau a ffiniau gweinyddol.

Yn bedwerydd, cafodd y gwerthusiad o CTCau nad oeddent yn cael eu defnyddio'n eang. Mewn nifer o achosion lle y'u defnyddiwyd, ar ôl gweithredu fel catalydd cychwynnol ar gyfer camau gweithredu, roedd yn ymddangos mai effaith ymylol a gawsant ar waith partneriaeth. Gellir priodoli'r rhesymau ynghylch pam yr oedd effaith y CTCau yn llai na'r disgwyl i nifer o ffactorau. Y rhai pwysicaf oedd diffyg hyrwyddo, natur gyfyngedig ar arweiniad a gallu cyfyngedig ar lefel leol i ddatblygu a chyflwyno'r cytundebau. Mae effaith gallu cyfyngedig wedi golygu, mewn nifer o ardaloedd, er bod datblygu CTC wedi'i gynllunio, ni ddigwyddodd. Yn rhan fwyaf yr ardaloedd lle cafodd CTCau eu datblygu, roedd adnoddau cyfyngedig yn golygu na chafodd naill ai'r atodlen neu'r cynllun perfformio ei ddatblygu'n llawn, neu na fonitrwyd ei weithredu yn effeithiol.

Yn bumed, lle y datblygwyd CTCau, methwyd â'u gwreiddio'n llawn yn

gorfforaethol o fewn yr awdurdod lleol. Gellir priodoli hyn i'r swyddogaeth dai yn methu â chysylltu â swyddogaethau corfforaethol eraill, a methu â dangos iddynt bwysigrwydd tai, neu i'r ffaith mai cytundebau gwirfoddol oedd CTCau rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai oedd yn golygu nad oedd gorfodaeth ar swyddogaethau corfforaethol ehangach yr awdurdod lleol i gyfranogi yn y cytundeb.

3 Cynnig ar gyfer ffordd ymlaen

Os yw'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn mynd i gyflawni'r weledigaeth uchelgeisiol a nodwyd yn adolygiad Beecham, bydd angen newid sylweddol yn y berthynas canolog-leol a'r ffordd y caiff y rôl arweinyddiaeth gymunedol a gwaith partneriaeth eu perfformio o fewn pob un o'r 22 o awdurdodau lleol.

Mewn perthynas â'r swyddogaeth dai, bydd angen newid sylweddol tebyg o safbwynt perfformio'r rôl dai strategol, y mae ei phrif orchwyl yw mynegi rôl dai wrth gyfrannu i gyflwyno amcanion Cynllun Cymunedol yr awdurdod. Bydd cyflwyno trawsnewidiad o'r fath yn gofyn am adnoddau, cefnogaeth ac arweiniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ar lefel leol, bydd angen buddsoddi adnoddau i ddatblygu gallu a sicrhau bod y sgiliau cywir yn eu lle i gyflwyno gwaith partneriaeth effeithiol, yn ogystal â newidiadau mewn diwylliant ac ymddygiad arweiniol.

Gwelwn y bydd ffurf ddiwygiedig ar gytundeb tai cymunedol yn chwarae rôl allweddol wrth gryfhau'r swyddogaeth dai strategol a symud tuag at yr agenda gwaith partneriaeth a gweithio cydweithredol mewn tai. Credwn y gallai ffurf ddiwygiedig ar y CTC weithredu fel elfen dai y PACTs a gynigiwyd gan Beecham.

Gan fod y berthynas awdurdod lleol-cymdeithas dai yn hollbwysig i gyflwyno'r

rôl dai strategol, nod ein cynnig yw sicrhau bod cymdeithasau tai yn cyfrannu tuag at gyflwyno cynlluniau lefel uchel pob awdurdod lleol yng Nghymru a bod amcanion allweddol cymdeithasau tai yn cydweddu o'r safbwynt hwn.

Mae'r cynnig yn nodi cyfres o awgrymiadau polisi mewn perthynas â rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar gryfhau'r swyddogaeth dai strategol a sicrhau bod cymdeithasau tai yn cyfrannu at amcanion polisi lefel uchel pob awdurdod lleol. Mae gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai rôl gydradd bwysig i'w chwarae, gan weithredu ar arweiniad a chynghor a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella cyflwyno gwasanaethau tai. Nodir eu cyfrifoldebau mewn perthynas â ffurf ddiwygiedig arfaethedig Cytundebau Tai Cymunedol, mewn cyfres o egwyddorion a ddangosir yn atodiad 12.

Gosodir y cynnig a nodir isod o fewn cyd-destun yr angen i ddeall pwysigrwydd rôl dai strategol awdurdodau lleol yn well ac yn fwy eang. Teimlwn hefyd y gallai ffurf ddiwygiedig ar gytundeb fod yn un o'r teclynau allweddol ar gyfer cyflwyno'r rôl dai strategol yn lleol ac yn cynnig bod datblygu ffurf ddiwygiedig ar gytundeb yn dod yn ofyniad i awdurdodau lleol Cymru. Awgrymwn hyn fel ffordd o godi proffil y swyddogaeth dai strategol o fewn awdurdodau lleol a sicrhau bod cytundebau yn cael eu gwreiddio yn gorfforaethol.

Cynigiwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- ddarparu hyfforddiant i aelodau ac uwch swyddogion awdurdodau lleol ar y swyddogaeth dai strategol, mewn partneriaeth â CLILC, er mwyn:
 - codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y swyddogaeth;

- codi ymwybyddiaeth o'r angen i roi adnoddau digonol i'r swyddogaeth yn lleol i'w galluogi i gael ei pherfformio'n effeithiol; a
- hyrwyddo gweithio cydweithredol rhwng awdurdodau lleol.
- Gwneud datblygu ffurf ddiwygiedig ar CTC yn ofyniad i awdurdodau lleol Cymru, drwy wneud ei ddatblygu yn un elfen o'r Cytundeb Polisi (neu unrhyw gytundeb sy'n olynu'r Cytundeb Polisi), a hynny wedi'i gyd-drafod rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a holl awdurdodau lleol Cymru;
- Annog awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i ddatblygu ffurf ddiwygiedig ar y cytundeb drwy:
 - darparu cymhellion i awdurdodau lleol i ddatblygu'r cytundebau drwy'r gronfa Grant Gwella Perfformiad;
 - sefydlu cronfa ar wahân (tebyg i'r gronfa Grant Rheoli Tai Cymdeithasol i wella gallu'r swyddogaeth dai strategol ar lefel leol a hyrwyddo datblygu cytundebau;
 - brigdorri cyllideb y Grant Tai Cymdeithasol i alluogi dyrannu GTC ychwanegol i awdurdodau lleol lle mae cytundeb wedi'i ddatblygu a'i weithredu'n gywir; ac
 - amlygu arfer positif a darparu adnoddau ariannol i alluogi awdurdodau lleol a chymdeithasau tai sy'n perfformio'n dda i fentora ardaloedd â pherfformiad gwael.
- Diwygio arweiniad i awdurdodau lleol ar baratoi'r Strategaeth Gymunedol a'r tri chynllun lefel uchel i atgyfnerthu cyfranogiad cymdeithasau tai yn natblygiad pob un;
- Datblygu arweiniad i awdurdodau lleol ar berfformiad effeithiol y swyddogaeth

dai strategol, sy'n ymgorffori arweiniad ar ddatblygu a gweithredu ffurf ddiwygiedig ar CTC, y dylid ei ailenwi "y cytundeb partneriaeth cymunedol".

- Cynhyrchu arweiniad ar ddatblygu a gweithredu cytundebau partneriaeth cymunedol, sy'n:
 - argymhell bod y cytundeb yn gytundeb cyffredin rhwng pob awdurdod lleol a'r holl gymdeithasau sy'n gweithredu yn yr ardal honno, gyda'r bwriad o fwyafu tryloywder, ac annog rhannu arfer da a gweithio ar y cyd. O ystyried dyfodiad consortia cymdeithasau tai, efallai y byddai'n briodol i agweddau penodol ar y cytundeb, sy'n benodol berthnasol i ddatblygu tai cymdeithasol newydd, fod rhwng awdurdod a chonsortia;
 - cydnabod y bydd cwmpas a chynnwys cytundebau a lofnodir rhwng awdurdod lleol a chymdeithasau tai unigol yn amrywio yn dibynnu ar y rôl y mae cymdeithas yn ei chwarae o fewn y farchnad dai leol;
 - argymhell y dylid talu sylw gofalus i'r broses a ddefnyddir er mwyn datblygu cytundebau. Dylai'r arweiniad hyrwyddo prosesau ar gyfer datblygu cytundeb sy'n annog rhannu gwybodaeth;.
 - dylid seilio'r arweiniad ar y chwe egwyddor partneriaeth allweddol, a nodwyd yn y teclyn asesu partneriaeth a ddatblygwyd gan y Nuffield Institute⁶¹, sef:
 - cydnabod a derbyn yr angen am bartneriaeth;

- datblygu eglurder a realaeth pwrpas;
- sicrhau ymrwymiad a pherchenogaeth;
- datblygu a chynnal ymddiriedaeth; a
- creu trefniadau partneriaeth clir a chadarn; a
- monitro, mesur a dysgu.
- Nodi egwyddorion i'w dilyn wrth ddatblygu'r cytundeb a ffurf y cytundeb, ond heb ragnodi ffurf fodel o gytundeb neu broses i'w dilyn wrth ei ddatblygu. Awgrymwn yr ymagwedd hon am nifer o resymau:
 - cafnod y gwerthusiad amrywiaeth eang o arfer positif mewn gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, a hynny o fewn cyd-destun CTC a lle nad yw CTCau yn eu lle. Bydd yn bwysig bod cyflwyno ffurf ddiwygiedig ar gytundeb yn ystyried, ac yn adeiladu ar lefelau a modelau presennol gwaith partneriaeth. Ni fyddai model fwy rhagnodol yn caniatáu hynny;
 - ni fydd model sy'n seiliedig ar broses o reidrwydd yn cyflwyno'r canlyniadau y mae gwaith partneriaeth yn ceisio eu cyflwyno. Canlyniad y broses o waith partneriaeth sy'n hollbwysig; a
 - chafodd y gwerthusiad bod materion perthnasol 'meddal' (e.e. ymddiriedaeth, bod yn agored, parch cilyddol ac ati) yn fwy pwysig mewn gwaith partneriaeth effeithiol na phresenoldeb neu absenoldeb CTC. Mae'r materion hyn yn

⁶¹ Nuffield Institute for Health (2003).

anodd, os nad yn amhosib, i'w cipio mewn model rhagnodol sy'n seiliedig ar broses.

- Yn awgrymu y dylai datblygu cytundeb ddechrau gyda dadansoddiad gwrthrychol o gyflwr y berthynas rhwng yr awdurdod lleol a chymdeithasau tai.
- Nid yw'n sefydlu terfyn amser cenedlaethol pendant ar gyfer cwblhau cytundebau, ond yn hytrach yn gosod amserlenni a tunir yn lleol, gan gydnabod y bydd y broses ddatblygu yn amrywio o ardal i ardal.
- Yn nodi'n glir sut y gall tai gyfrannu at gyflwyno amcanion corfforaethol ehangach, fel gwell iechyd, cyrhaeddiad addysgol, datblygiad economaidd, cynhwysiad ac ati, ac awgrymu pwy y dylai gyfranogi yn natblygu'r cytundeb o fewn yr awdurdod lleol, sef yr Aelod o'r Cabinet gyda'r portffolio tai, Pennaeth Cynllunio Corfforaethol ac aelod o Dîm Rheoli Corfforaethol yr awdurdod lleol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod ymrwymiad corfforaethol a gwleidyddol ar draws yr awdurdod lleol i'r cytundeb.
- Yn argymhell bod y cytundeb yn cynnwys elfennau strategol a gweithredol, i sicrhau bod y ddau wedi'u plethu ynghyd, gan gydnabod bod elwa ar allu cymdeithasau tai i gyflwyno ar amcanion strategol yr un mor bwysig ag elwa ar eu cyfraniadau i feddwl a blaenoriaethau strategol.
- Yn nodi'n glir gyfrifoldebau priodol awdurdodau lleol a chymdeithasau tai mewn perthynas ag elfennau strategol a gweithredol y cytundeb. Credwn na ddylid rhagnodi'r rhain

ac y dylent nodi egwyddorion gwaith partneriaeth.

- Yn awgrymu y dylai'r cytundeb yn y pen draw gynnwys pob agwedd ar y cyfraniad gweithredol y gallai cymdeithasau eu gwneud, ond argymhellwn fod y cytundebau yn dechrau drwy gynnwys yr elfennau hynny y mae'r cymdeithasau a'r awdurdodau yn fwyaf cyfforddus â hwy. Mewn rhai awdurdodau, bydd y rhain yn eang; mewn eraill byddant yn fwy cyfyngedig.
- Yn nodi rhestr o weithgareddau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn argymhell y dylid eu cynnwys mewn cytundeb cychwynnol.
- Yn cynnwys disgwyliad y dylai cytundebau:
 - nodi'r gweithgareddau sy'n cael eu hymgorffori i gychwyn; ac
 - yn cynnwys cynllun gweithredu yn nodi'r amserlenni ar gyfer ymgorffori gweithgareddau pellach.
- Yn nodi disgwyliad bod y cytundeb yn ymgorffori trefniadau ar gyfer monitro a'r disgwyliad i'r cytundeb gael ei ystyried yn ddogfen fyw. Dylai arweiniad argymhell i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai fod y cytundeb cychwynnol yn ymgorffori trefniadau ar gyfer adolygu'r canlynol yn rheolaidd:
 - amcanion strategol;
 - perfformiad yn erbyn elfennau gweithredol presennol;
 - diwygiadau angenrheidiol i drefniadau gweithredol presennol;
 - cytuno'r swp nesaf o weithgareddau y gellir eu hymgorffori;

- ystyried a ddylid ymestyn y cytundeb i gynnwys darparwyr tai eraill.

Credwn y gellid - ac y dylid - yn fuddiol ehangu'r dull gweithredu rydym yn ei awgrymu i gynnwys darparwyr tai eraill a rhanddeiliaid (fel landlordiaid sector preifat, darparwyr cefnogaeth, darparwyr cyngor ar dai), ond y dylai'r ffocws cychwynnol fod ar ddatblygu cytundebau gyda chymdeithasau tai. Yn hytrach nag ymestyn cytundebau i ymgorffori darparwyr eraill, awgrymwn y dylai cytundebau tebyg, ond ar wahân, gael eu datblygu gyda mathau eraill o ddarparwyr tai a darparwyr gwasanaethau tai, unwaith y gellir dangos bod cytundebau gyda chymdeithasau tai yn gweithredu'n effeithiol.

4 Casgliad

Mae agenda *Creu'r Cysylltiadau* ac adroddiad adolygiad Beecham yn gosod agenda heriol ar gyfer trawsnewid cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r ddau yn pwysleisio pwysigrwydd partneriaeth a gwaith cydweithredol wrth helpu i gyflwyno'r trawsnewidiad hwn.

Yn y sector tai, gall awdurdodau lleol ddilyn yr agenda hwn drwy gryfhau'r swyddogaeth dai strategol a gweithio'n

gydweithredol gyda rhanddeiliaid allweddol i:

- nodi'r materion allweddol yn y system dai leol;
- datblygu ymagweddau er mwyn mynd i'r afael â hwy sy'n cyflwyno targedau a blaenoriaethau cenedlaethol a lleol; a
- gwerthuso a monitro cyflawni targedau.

Mae'r berthynas allweddol i awdurdodau lleol mewn perthynas â'r rôl dai strategol gyda chymdeithasau tai y mae gan eu gweithgareddau effaith fawr ar y system dai leol. Bydd ffurf ddiwygiedig ar gytundeb sy'n adeiladu ar fanteision y CTCau yn gweithredu fel teclyn, gan helpu:

- i wella cyflwyno'r swyddogaeth dai strategol ar draws Cymru;
- i elwa ar gyfraniad cymdeithasau tai i gyflwyno amcanion a gytunir yn lleol; ac
- i wella cyflwyno gwasanaethau tai i'w defnyddwyr a chreu enillion effeithlonrwydd drwy ddarparu cyfle i asiantaethau drafod cyfleoedd am gydweithredu wrth gyflwyno gwasanaethau a rhannu arfer effeithiol.

Atodiad 1

Llyfryddiaeth

- Arend, N. & A. Lent (2004) *Making Choices: how can choice improve local public services*. Llundain, New Local Government Network.
- Arnstein, S. (1969) *A Ladder of Citizen Participation*, *Journal of the American Planning Association*, Cyfrol. 35, (4,) t. 216-224.
- Y Comisiwn Archwilio (1998) *A Fruitful partnership: effective partnership working*. Llundain, Y Comisiwn Archwilio. Ar gael yn <http://www.audit-commission.gov.uk/Products/NATIONAL-REPORT/A190CA25-7A7E-47D1-BCAB-373A86B709C0/A%20Fruitful%20Partnership.pdf>
- Y Comisiwn Archwilio (2004) *Partnerships - North Somerset Council (Inspection Report)*. Llundain, Y Comisiwn Archwilio.
- Bader, J. (1996) *Working in Harmony*. *Welsh Housing Quarterly*, Rhifyn 22 Prifysgol Caerdydd.
- Beecham, J. (2006) *Beyond Boundaries: citizen-centred local services for Wales*. Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael yn http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/403823121/40382213/528962/English_Report.pdf?lang=en
- Beirne, K. (2006) *Evaluating Capacity within the Strategic Housing Function*. Adroddiad i Banel Prif Swyddog Tai Cymru Gyfan. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Bristow, G, Entwistle T, Hines F, Martin S gyda Morgan K. & A. Pithouse (2003) *Partnerships Between the Public, Private and Voluntary Sectors in Wales : final report to the Welsh Assembly Government Steering Group*. Caerdydd, Prifysgol Caerdydd.
- Cartref (1998) *Social Landlords Forum Seeks Quality Approval*. Gorffennaf 1998. Caerdydd, Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru.
- Cartref (1999) *Wales' first local authority Community Housing Agreement*, Ebrill 1999. Caerdydd, Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru.
- Sefydliad Tai Siartredig Cymru (2004) *Home Truths - the theory and reality of working together*. Caerdydd, CTS Cymru.
- Chartered Institute of Public Finance Accountants (1994) *Building Effective Partnerships: practical guidance for public services on working in partnership*. Llundain, CIPFA.
- Corry, D. & E. Southwood (gol) (2004) *Procurement and Partnership: doing it right, making it work*. Llundain, New Local Government Network.
- Corry, D. (gol) (2005) *Choice Cuts:- essays on the improvement of public services*. Llundain, New Local Government Network.
- Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (2000) *Joining it up Locally, Report of Policy Action Team 17, National Strategy for Neighbourhood Renewal*. Llundain, DETR.
- Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (2000) *Mapping Partnerships in Eleven Local Authorities*. Llundain, DETR
- Sefydliad y Cyflogwyr ar gyfer Llywodraeth Lleol <http://www.lgpartnerships.com/default.asp> (darllenwyd Chwefror 2007).

- Fyre, M. & A. Webb (2002) *Working Together: Effective partnership working on the ground*. Llundain, Trysorlys EM.
- Gershon, P. (2004) *Releasing Resources for the Front-line: Independent review of public sector efficiency*, Llundain, Llyfrfa EM
- Hastings, A. (1996) *Unravelling the Process of Partnership in Urban Regeneration Partnerships*. Urban Studies, Cyfrol 33, Rhif. 2
- Hastings, A. & A. McArthur (1995) *A Comparative Assessment of Government Approaches to Partnership with the Local Community* yn Hambleton, R. a Thomas, P. (gol.) (1995) *Urban Policy Evaluation, Challenges and Change*. Llundain, Paul Chapman Publishing Ltd.
- Hastings, A; McArthur, A & A. McGregor, (1996) *'Less than Equal: Community Organisations and Estate Regeneration Partnerships'*, Caerefrog, The Policy Press/Joseph Rowntree Foundation.
- Hatter, W. & S. Reeve (2004) *Beyond Contract: What makes a PPP successful*. Llundain, New Local Government Network.
- Y Swyddfa Gartref (2005) *Strengthening Partnerships: Next steps for Compact*. Llundain, Y Swyddfa Gartref.
- Housing Corporation (2005) *Is Big Really Best - or Can Small and Friendly Deliver?* Llundain, Housing Corporation.
- Lyons, M. (2006) *The National Prosperity, Local Choice and Civic Engagement: a new partnership between central and local government for the 21st Century*. Llundain, Llyfrfa EM.
- Milliband, D. (2006) "Empowerment not Abandonment" Araith gan David Milliband i gynhadledd flynyddol Cyngor Cenedlaethol Sefydliadau Gwirfoddol. 21ain Chwefror 2006. Ar gael yn <http://www.communities.gov.uk/index.asp?id=1164236#>
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001) *Preparing Community Strategies; Guidance to Local authorities*. Caerdydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gael yn <http://www.wlga.gov.uk/uploads/publications/49.pdf>
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001) *Cartrefi Gwell i Bobl Cymru: Strategaeth Dai Genedlaethol i Gymru*. Caerdydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Nuffield Institute for Health (2003) *Assessing Strategic Partnerships - the partnership assessment tool*. Llundain, SDBW. Ar gael yn <http://www.nuffield.leeds.ac.uk/downloads/pat.pdf>
- Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (2002) *Structures for Partnerships - technical notes*. Llundain, SDBW.
- Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (2003a) *Rethinking Service Delivery - Volume 1 An introduction to strategic service delivery partnerships*. Llundain, SDBW.
- Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (2003b) *Rethinking Service Delivery - Volume 2 - from vision to outline business case*. Llundain, SDBW.
- Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (2003c) *Strategic Service Delivery Partnerships - a decision makers' guide*. Llundain, SDBW.
- Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (2003d) *Assessing Strategic Partnerships: the partnership assessment tool*. Llundain, SDBW.

- Swyddda'r Dirprwy Brif Weinidog (2004a) *Rethinking Service Delivery - Volume 3 Public/Public Partnerships*. Llundain, SDBW.
- Swyddda'r Dirprwy Brif Weinidog (2004b) *Rethinking Service Delivery - Volume 4 From outline business case to contract signing*. Llundain, SDBW.
- Swyddda'r Dirprwy Brif Weinidog (2004c) *Rethinking Service Delivery - Volume 5 Making the partnership a success* Llundain, SDBW.
- Swyddda'r Dirprwy Brif Weinidog (2004d) *Local Area Agreements: A prospectus*. Llundain, SDBW.
- Swyddda'r Dirprwy Brif Weinidog (2004e) *Local Authorities' Homelessness Strategies: Evaluation and Good Practice*. Llundain, SDBW.
- Swyddda'r Dirprwy Brif Weinidog (2004f) *Effective Cooperation in Tackling Homelessness: Nomination Agreements and Exclusions*. Llundain, SDBW.
- Swyddda'r Dirprwy Brif Weinidog (2005), *A Process Evaluation of the negotiation of pilot Local Area Agreements*, Llundain, SDBW.
- Office of Public Management (2005) *A process evaluation of the negotiation of pilot Local Area Agreements: Final Report*. Llundain, SDBW.
- Parker, I. (gol) (2004) *Business & Local Government: Partnership, Contracts and Corporate Social Responsibility*. Llundain, New Local Government Network.
- Robinson, E. (2004) *Living with Regions: Making multi level governance work*. Llundain, New Local Government Network.
- Gweithrediaeth yr Alban (2004) *Partnership Working: a research report*. Caeredin, Gweithrediaeth yr Alban. Ar gael yn <http://www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/47171/0025758.pdf>
- Shiel, L & I. Clark (2004) *Developing Local Outcome Agreements (LOAs) for the Better Neighbourhood Services Fund*. Caeredin, Gweithrediaeth yr Alban. Ar gael yn <http://www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/47237/0029604.pdf>
- Tai Cymru (1992) *Investment Policies & Plans 1992/93*. Caerdydd, Tai Cymru.
- Tai Cymru (1994) *Investment Policies & Plans 1994/95*. Caerdydd, Tai Cymru.
- Tai Cymru (1998) *Operational Plan 1998-1999*. Caerdydd, Tai Cymru.
- Gwerth Cymru (2006) *Smarter Buying - Sharing Success : Welsh Public Sector Sourcing Plan 2006-2009*. Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael yn http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/403823121/403829/Welsh_Public_Sector_Sourcin1.pdf?lang=en
- Swyddfa Archwilio Cymru (2005) *Regeneration in Wales since the 1950s: Timelines and Synopsis*. Caerdydd, Swyddfa Archwilio Cymru. Ar gael yn http://www.wao.gov.uk/assets/englishdocuments/Regeneration_Since_1950s.pdf
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) *Local Housing Strategies and the Role of the Private Sector*. Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael yn <http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/sjr/housing/localstrategy/roleprivatee?lang=en>
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) *Creu'r Cysylltiadau*. Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael <http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/403823121/40382213/403822133/mtc-document-e.pdf?lang=en>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005a) *Local Government Plan Rationalisation*.

Papur Ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru. Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005b) *Delivering the Connections: from vision to action*.

Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael yn <http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/403823121/40382213/403822133/action-plan-e.pdf?lang=en>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005c) *Adroddiad i Bwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth Cynulliad Cymru 1 beg Ionawr 2005*. Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005d) *Caerdydd Wales Programme for Improvement, guidance for local authorities*. Cylchlythyr 28/2005. Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Ar gael yn <http://www.wlga.gov.uk/uploads/publications/1086.pdf>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006a) *Preparing Local Housing Strategies 2007:*

revised guidance to local authorities in Wales (Drafft Ymgynghori). Caerdydd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael yn <http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/sjr/consult/2006/localhouseguideforlas/consultation?lang=en>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006b) *Regulatory Code for Housing Associations in Wales*. Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Welsh Housing Quarterly (2006) *Joint Working, Cyfrol 63, Mehefin 2006*.

Prifysgol Caerdydd.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2005) *Leading Reform in Local Services: manifesto for Welsh local government 2005-2008*. Caerdydd, CLILC.

Ar gael yn <http://www.wlga.gov.uk/uploads/publications/765.pdf>

Wilcox, D (2004) *A Short Guide to Partnerships*, ar gael yn

<http://www.partnershipsonline.org.uk/wiki/pmwiki.php?n=Guides.Home>

Atodiad 2

Ffynonellau Gwybodaeth ar y We

Sefydliad Cyflogwyr i Lywodraeth Leol - Gwneud y gorau o waith partneriaeth.

Teclyn gwe i helpu defnyddwyr i wella eu sgiliau a pherfformiad partneriaeth.

Mae'r safle yn darparu pecynnau gwaith, astudiaethau achos a dolenni i ddeunydd pellach ar bartneriaethau. Ar gael yn <http://www.lgpartnerships.com/>

Rhwydwaith Gwell IDeA - ffynhonnell o wybodaeth ac arweiniad ar y we ar waith partneriaeth. Ar gael yn <http://www.idea-knowledge.gov.uk/idk/core/page.do?pageId=5022665>

Mae Ourpartnership.org.uk yn hyrwyddo arfer gorau i unigolion a sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaethau rhwng y sectorau gwirfoddol a chyhoeddus. Ar gael yn <http://www.ourpartnership.org.uk/>

Atodiad 3

COMMUNITY HOUSING AGREEMENTS

A proposal by the
WELSH NATIONAL SOCIAL LANDLORDS FORUM

supported by

WELSH FEDERATION OF HOUSING ASSOCIATION

and

WELSH LOCAL GOVERNMENT ASSOCIATION

October 1998

EXPLANATORY GUIDANCE

1.0 INTRODUCTION

20. What mechanisms are used for reviewing/monitoring the effectiveness of the Council's partnership working with housing associations?
21. How often do you review/monitor the effectiveness of partnership working with housing associations?
22. How effective are the review/monitoring arrangements?
23. Who is involved in the review/monitoring of the effectiveness of partnership working with housing associations?
24. Have the monitoring/review arrangements lead to the introduction of change where weaknesses were identified during the process?

CHAs and the future

25. Do you feel that CHA's are an appropriate form of agreement to take forward joint working between local authorities and housing associations, particularly in the light of plan rationalisation and the community leadership role?
26. If no, what would improve partnership working with housing associations?

Questions to Housing Associations operating in Case Study Local Authorities where a CHA is not in place

1. Has the local authority taken a formal decision not to establish a CHA?
 - a. If yes, why was that decision taken?
 - b. If no, why has no CHA been developed?
 - c. Did you lobby for a CHA to be introduced?
2. What is your understanding of the CHA, its purpose and what it seeks to achieve?
3. Would a CHA improve partnership working with the local authority?
 - a. If yes, why?
 - b. If no, why not?
4. Describe how you work in partnership with the local authority to tackle homelessness?
5. What mechanisms are used for reviewing/monitoring the effectiveness of the authority's partnership working with housing associations?
 - a. How often do you review/monitor the effectiveness of partnership working with housing associations?
 - b. In your view, how effective are the review/monitoring arrangements?
 - c. Who is involved in the review/monitoring of the effectiveness of partnership working with housing associations?
 - d. Have the monitoring/review arrangements lead to the introduction of change where weaknesses were identified during the process?
6. Have there been any noticeable changes in partnership working with housing associations in the last 5 years?
 - a. Have these changes been positive or negative, please describe?
 - b. What factors do you attribute these changes to?
7. Do you feel that CHAs are an appropriate form of agreement to take forward joint working between local authorities and housing associations, particularly in the light of plan rationalisation and the community leadership role?
 - a. If so, what are your reasons for saying this?
 - b. If no, what would improve partnership working with local authorities?

Atodiad 10

Cytundebau Tai Cymunedol - Cynigion ar gyfer y ffordd ymlaen

1. Rhagarweiniad

1.1 Cynhyrchwyd y papur yma gan Housing + Cymru, fel un elfen o brosiect ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ceisio gwerthuso effeithiolrwydd Cytundebau Tai Cymunedol (CTCau). Cynhyrchwyd y papur yng nghyfnod olaf y prosiect ymchwil i gynorthwyo trafodaeth ynglŷn â dewisiadau polisi yn y dyfodol ar gyfer gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai.

1.2 Mae'r papur trafod yma'n crynhoi:

- rhai o ganlyniadau'r gwaith ymchwil; a'r
- cyd-destun polisi cyfnewidiol.

Mae canlyniadau'r gwaith ymchwil a'r cyd-destun polisi cyfnewidiol ill dau wedi rhoi ffurf i'r model arfaethedig a ddisgrifir yn adrannau 5 a 6.

1.3 Mae'r papur yn cynnig cyfle i randdeiliaid ac ymarferwyr allweddol i ddylanwadu ar ganlyniadau'r gwaith ymchwil a ffurf posibl cynigion polisi ar gyfer y dyfodol a fydd yn deillio o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd Housing + Cymru yn trefnu sesiynau gweithdy ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru i drafod y papur a'r cynigion ynddo. Gall rhanddeiliaid ac ymarferwyr na fyddant yn gallu mynychu'r digwyddiadau hyn anfon eu sylwadau ar y papur a'r cynigion yn electronig at Housing + Cymru i'r cyfeiriad ebost canlynol: simon@simoninkson.com.

2. Canlyniadau'r Ymchwil

2.1 Cafodd yr ymchwil:

- Nad yw CTCau yn cael eu defnyddio'n helaeth. Dim ond wyth awdurdod lleol (36%) sydd â CTC ar hyn o bryd;
- mewn rhai ardaloedd, arwyddwyd CTCau gyda'r holl gymdeithasau tai sy'n gweithredu yn yr ardal, mewn eraill, gwnaed cytundebau gyda rhai o'r cymdeithasau, ac mewn un ardal, roedd y cytundeb gydag un gymdeithas dai;
- dywedodd un awdurdod lleol mai holl bwrpas y broses o ddatblygu'r CTC oedd hybu newid. Fodd bynnag, ymddengys fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gweld y CTC yn fwy fel fframwaith sy'n dwyn ynghyd y cytundebau a'r trefniadau partneriaeth sy'n bod eisoes, a'u ffurfioli;
- roedd gwahaniaeth barn ymhlith awdurdodau lleol sydd wedi bod â CTCau ers mwy na blwyddyn ynglŷn â pha mor ddefnyddiol oedden nhw o hyd. Dywedodd tua'u hanner fod y CTCau wedi bod yn gatalyddion effeithiol o ran gwella gwaith partneriaeth yn y 1990au diweddar/2000au cynnar pan oedd y berthynas rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn fwy anodd. Dywedodd rhai cymdeithasau fod CTCau, ar y dechrau, wedi chwarae rhan fawr o ran creu cydweithrediad lle nad oedd dim yn flaenorol. Nododd un awdurdod lleol y defnyddiwyd y broses o ddatblygu'r CTC fel proses i ddatblygu diwylliant o weithio ar y cyd;

- roedd CTCau yn tueddu i gael eu gweld yn gorfforaethol fel “cytundebau tai” ac, yn ymarferol doedden nhw ddim yn “perthyn” yn gorfforaethol i’r awdurdod nac yn gysylltiedig ag adrannau/cyfarwyddiaethau eraill yr awdurdodau lleol;
- roedd defnyddioldeb y CTCau yn tueddu i ddibynnu ar ansawdd yr amserlen/cynllun gweithredu ac yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y rhain yn wan, heb fod yn manylu ar orchwylion, cyfrifoldebau a graddfeydd amser;
- dydy effeithiolrwydd gwaith partneriaeth ddim fel pe bai’n dibynnu ar fodolaeth CTC ai peidio. Daeth yr ymchwil o hyd i lawer enghraifft o fentrau partneriaeth creadigol a gawsai eu datblygu yn absenoldeb CTC, neu y tu allan i’r trefniadau CTC a oedd yn eu lle;
- mae gwaith partneriaeth effeithiol yn ymddangos fel pe bai i’w briodoli’n bennaf i ddiwylliant y cyrff dan sylw, yn enwedig diwylliant yr awdurdod lleol, ac ymddengys fel pe bai’n dibynnu ar nifer o ffactorau sy’n ymwneud â’r berthynas rhyngddynt, fel:
 - ymddiriedaeth;
 - bod yn agored;
 - parodrwydd i rannu gwybodaeth a phrofiadau;
 - cydnabod sgiliau a chymwysterau asiantaethau sy’n bartneriaid a’r hyn y gall pob parti ei gyfrannu;
- parodrwydd i ymwneud â phartneriaid nid dim ond ar lefel cytuno ar ddogfennau, ond mewn darganfod problemau y mae angen eu datrys, a datblygu atebion iddynt.

3. Y Cyd-destun cyfnewidiol

3.1 Er i’r model o GTC gael ei gynhyrchu gan Fforwm Landlordiaid Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru ym 1998, mae’r amgylchedd mae awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn gweithredu ynddo wedi newid yn sylweddol. Y materion allweddol sydd wedi cyfrannu at y cyd-destun cyfnewidiol yma yw:

- cydnabyddiaeth gynyddol o *bwysigrwydd marchnad dai gytbwys* fel maen adeiladu sylfaenol yn natblygiad cymunedau cymdeithasol gyfiawn a chynaliadwy. Mae hyn mewn cyferbyniad â’r 1990au diweddar pan ystyrid cyfraniad tai i gyflawni nodau polisi cenedlaethol a lleol fel rhywbeth ymylol, yn aml;
- gwerthfawrogiad sy’n araf ddatblygu o *bwysigrwydd swyddogaeth dai strategol* awdurdodau lleol o ran sicrhau cyflawni amcanion tai y Strategaeth Gymunedol, drwy amrywiaeth o ddulliau, a phwysigrwydd hanfodol cymdeithasau tai o ran cyflawni’r amcanion hynny;
- gweithredu’r cynnig *Rhesymoli Cynlluniau* a fydd yn sefydlu fframwaith cynllunio newydd ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru sy’n mynnu fod awdurdodau lleol yn cynhyrchu pedair strategaeth lefel-uchel ac yn dileu’r gofyniad ar i awdurdodau lleol gynhyrchu Strategaeth Dai Leol ar ôl 2008. Gallai’r fframwaith cynllunio diwygiedig danseilio’r swyddogaeth dai strategol ar lefel leol a bydd gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru ystyried yn ofalus y canllawiau y bydd yn eu cynnig i awdurdodau lleol ar gyflawni’r swyddogaeth dai strategol yn effeithiol, i sicrhau na fydd yn cael ei thanseilio;

- y canlyniadau o safbwynt swyddogaeth dai strategol awdurdodau lleol sy'n sicrhau pleidlais bositif gan eu tenantiaid o blaid *trosglwyddo stoc*. Bydd unrhyw drefniadaeth yn y dyfodol ar gyfer gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn gorfod darparu ar gyfer sefyllfa lle na fydd gan yr awdurdod lleol unrhyw stoc tai, a lle bydd ei berthynas gyda'r gymdeithas dai sydd wedi mynd yn gyfrifol am y stoc hwnnw yn un allweddol;
- symud tuag at *gydweithio rhanbarthol* ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru:
 - Roedd Cynllun Gofodol Cymru, *Pobl, Lleoedd, Dyfodol*, yn sefydlu fframwaith cynllunio cenedlaethol wedi ei seilio ar chwe rhanbarth;
 - Mae *Creu'r Cysylltiadau* yn ceisio darparu gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus, wedi eu seilio'n rhannol ar bartneriaethau rhanbarthol, weithiau er mwyn sicrhau gwell effeithlonrwydd, cyd-gynnig am gyllid neu fynd i'r afael ar y cyd â phroblemau sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol;
 - mae rhanbartholi ar y gweill yn y maes tai hefyd, fel y tystia nifer o gonsortia awdurdodau lleol cydweithredol fel Fforwm Tai Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru (FfTRhDDdC), Partneriaeth Dai Rhanbarthol Gogledd Cymru a Rhwydwaith yr Awdurdodau Tai Gwledig (RHAN);
 - mae datblygiad *consortia cymdeithasau tai* yn cynyddu'r duedd tuag at ranbartholi, gan fod y consortia eu hunain yn seiliedig yn rhannol ar fodelau o gydweithio rhanbarthol.
- gweithredu *Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella* (WPI) ar gyfer awdurdodau lleol, sy'n cymryd egwyddorion gwerth gorau a'u gosod yng nghyd-destun hunan-asesu a gweithredu ar gyfer gwella ar sail risg. Mae canllawiau'r WPI yn pwysleisio cyfranogaeth partneriaid yn y broses o gynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau;
- gweithredu'r *Côd Rheoliadol* newydd ar gyfer cymdeithasau tai, sy'n cynnwys dyletswydd sylfaenol ar gymdeithasau i weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol i ddarganfod a darparu ar gyfer anghenion cysylltiedig â thai yn yr ardal, a'r drefn reoliadol newydd, yn cynnwys dadansoddi ac arolygu cymdeithasau cyfan, i gefnogi'r Côd hwnnw.

4 Cynnig

4.1 Mae'r ymchwil wedi esgor ar nifer o bwyntiau cyffredinol sy'n cyfeirio'r ffordd ymlaen i Gytundebau Tai Cymunedol:

- pwysigrwydd cynyddol swyddogaeth dai strategol awdurdodau lleol yw'r prif ysgogiad i'r ffurf ddiwygiedig o'r cytundeb a gynigir. Nod ein cynnig yw sicrhau fod asiantaethau tai, yn enwedig cymdeithasau tai, yn cyfrannu tuag at gyflawni cynlluniau lefel-uchel pob awdurdod lleol yng Nghymru, a bod amcanion allweddol cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol yn cael eu cysoni yn y cyswllt hwn;
- dangosodd y gwerthusiad fod rhai CTCau rhwng awdurdod a phob cymdeithas dai a oedd yn gweithredu yn ei ardal, tra bod gan eraill gytundebau ar wahân rhwng yr awdurdod a phob cymdeithas unigol. Rydym yn awgrymu cytundeb cyffredin rhwng pob awdurdod lleol a'r holl gymdeithasau sy'n gweithredu yn ardal yr awdurdod hwnnw, gyda'r nod o gymaint o eglurdeb ag sy'n bosibl, a hyrwyddo rhannu arfer da a gweithio ar y cyd. Gyda dyfodiad consortia cymdeithasau tai, efallai y bydd yn

briodol gwneud y cytundeb rhwng awdurdod â chonsortium, ond bydd hynny'n dibynnu ar ddatblygiad y consortium unigol;

- mae'r gwerthusiad wedi dangos y gall y broses o ddatblygu cytundeb rhwng awdurdod a chymdeithasau fod yn bwysig iawn o ran datblygu'r ymddiriedaeth, y parodrwydd i fod yn agored, y parch, eglurdeb a pharodrwydd i rannu gwybodaeth sy'n gwneud gwaith partneriaeth yn beth effeithiol. Gan hynny, dylid rhoi sylw manwl i'r broses a ddefnyddir i ddatblygu cytundeb;
- dangosodd y gwerthusiad, tra bod CTCau mewn rhai awdurdodau wedi helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o gyfraniad posibl tai i amcanion strategol adrannau eraill ac amcanion corfforaethol yr awdurdod, fod CTCau ar y cyfan yn cael eu gweld fel dogfennau a oedd yn "perthyn" i'r adran dai. Bydd yn bwysig fod cytundebau yn y dyfodol wedi eu gwreiddio'n iawn yn gorfforaethol. Teimlwn y gellid hwyluso hyn pe cynhyrchid canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ar sut i baratoi'r pedwar cynllun lefel-uchel, gan atgyfnerthu cyfranogaeth cymdeithasau tai yn natblygiad pob un;
- dangosodd y gwerthusiad y deilliodd problemau o fewn rhai awdurdodau oherwydd fod y CTCau yn rhy uchelgeisiol, h.y. methwyd bwrw ymlaen â rhai - neu lawer - o'r gweithredoedd arfaethedig. Yn y pen draw, credwn y dylai'r cytundebau rydym yn eu hawgrymu gynnwys holl agweddau'r cyfraniad gweithredol y gallai cymdeithasau ei wneud, ond carem awgrymu y dylai cytundebau gychwyn drwy gynnwys yr elfennau hynny mae cymdeithasau ac awdurdodau'n fwyaf cyfforddus gyda hwy. Mewn rhai awdurdodau, bydd y rhain yn eang; mewn eraill, byddant yn fwy cyfyngedig. Ffordd arall o fynd ati fyddai derbyn fod rhai gweithgareddau'n hanfodol, a bod angen eu cynnwys yn y cytundeb o'r cychwyn cyntaf (dangosir enghraifft yn Atodiad 1). Y naill ffordd neu'r llall, dylai cytundebau gynnwys ymrwymiad penodol i ehangu amrediad y materion a gynhwysir yn gyson. Gwahoddir pobl i fynegi barn ynglŷn ag a ddylai unrhyw ganllawiau fod yn rhagnodol, o'r safbwynt eu bod yn nodi gweithgareddau y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cytundebau, neu a ddylid gadael i'r awdurdodau lleol a'r cymdeithasau tai bennu pa swyddogaethau cychwynnol y dylid eu cynnwys;
- yn y papur yma, rydym wedi cyfyngu'n hystyriaeth i'r berthynas rhwng awdurdodau a chymdeithasau tai, ond credwn y gellid - ac y dylid - yn fuddiol ehangu'r dull gweithredu rydym yn ei awgrymu i gynnwys darparwyr tai eraill a rhanddeiliaid (e.e. landlordiaid sector preifat, darparwyr cefnogaeth);
- dangosodd y gwerthusiad y rhoddwyd y gorau i ddefnyddio llawer o CTCau am eu bod wedi cael eu goddiweddyd gan ddatblygiadau nas rhagwelwyd pan ffurfiwyd y CTC yn y lle cyntaf. Mae'n bwysig ystyried y cytundeb fel dogfen fyw. Dylai gynnwys trefniant rheolaidd i adolygu:
 - amcanion strategol;
 - perfformiad yn erbyn yr elfennau gweithredol sy'n bodoli;
 - gwelliannau angenrheidiol i drefniadau gweithredol presennol;
 - er mwyn cytuno ar y gyfran nesaf o weithgareddau y gellir eu cynnwys;
 - er mwyn ystyried a ddylid ehangu'r cytundeb i gynnwys darparwyr tai eraill.

4.2 Rydym yn cynnig ffordd nad yw'n rhagnodol o fynd ati a fydd yn seiliedig ar ganlyniadau, am nifer o resymau:

- darganfu'r gwerthusiad amrywiaeth eang o enghreifftiau positif o waith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, yng nghyd-destun CTCau ond hefyd lle nad oedd CTC yn ei le. Bydd yn bwysig fod unrhyw gynigion newydd ar gyfer partneriaeth yn ystyried lefelau a modelau cyfredol o waith partneriaeth, ac yn adeiladu ar eu sail. Ni fyddai model mwy rhagnodol yn caniatáu ar gyfer hynny;
- ni fydd cynnig newydd yn seiliedig ar broses o anghenraid yn sicrhau'r canlyniadau y mae gwaith partneriaeth yn ceisio eu cynhyrchu. Canlyniad y broses o waith partneriaeth sydd o bwys hanfodol;
- cafodd y gwerthusiad fod elfennau 'meddal' perthynas (e.e. ymddiriedaeth, bod yn agored, parch cilyddol, ac ati) yn bwysicach mewn gweithio effeithiol mewn partneriaeth na phresenoldeb neu absenoldeb CTC. Mae'r rhain yn elfennau anodd - os nad amhosibl - eu cipio mewn model rhagnodol wedi ei seilio ar broses.

4.3 Mae'r model rydym yn ei gynnig yn cynnwys elfennau strategol a gweithredol. Mae hynny er mwyn sicrhau fod y ddau beth wedi eu cydblethu, gan gydnabod fod elwa ar allu cymdeithasau tai i gyflawni amcanion strategol mor bwysig ag elwa ar eu cyfraniad i feddwl strategol a blaenoriaethau, ac yn yr un modd mewn perthynas â chyfraniad awdurdodau lleol i flaenoriaethau cymdeithasau. Mae'n cynnig hefyd yn ceisio sicrhau fod yr elfennau gweithredol wedi eu cysylltu'n glir â blaenoriaethau strategol. Dangosodd y gwerthusiad fod rhai CTCau wedi bod yn effeithiol o ran galluogi cymdeithasau i gyfrannu'n strategol, ond eu bod yn wannach pan oedd hi'n fater o weithredu a darparu, tra'r oedd rhai eraill yn gryfach ar faterion gweithredol ac yn llai effeithiol mewn perthynas â materion strategol. At hynny, lle bu cysylltiad strategol cryf mewn perthynas â CTCau, dydy'r materion gweithredol a gynhwysir yn y cytundeb ddim bob amser wedi eu cysylltu'n eglur â'r blaenoriaethau strategol.

4.4 Lluniwyd y model hefyd yng nghyd-destun rhesymoli cynlluniau lle bydd gofyn i awdurdodau lleol osod pedwar cynllun lefel-uchel ger bron y Cynulliad.

5 Cytundeb Tai - Elfen Strategol

5.1 Prif ddiben swyddogaeth dai strategol awdurdod lleol yw diffinio'r rhan y gall tai ei chwarae o ran cyfrannu at gyflawni amcanion Cynllun Cymunedol yr awdurdod. Yn ein barn ni, prif swyddogaeth cytundeb tai yw diffinio a chynyddu i'r eithaf gyfraniad asiantaethau tai lleol at gyflawni'r amcanion hyn.⁶²

5.2 Nod yr agwedd hon o'r cytundeb yw cynyddu i'r eithaf gyfraniad cymdeithasau tai i feddwl a chynllunio strategol awdurdodau lleol, a chyfraniad awdurdodau lleol i feddwl a chynllunio strategol cymdeithasau tai.

⁶² Ar gyfer y papur yma, rydym wedi cyfyngu ein cynigion i gymdeithasau tai.

5.3 Yn ein barn ni, mae cyfrifoldebau awdurdodau lleol ar y naill law a chymdeithasau tai ar y llall parthed yr elfen hon yn y cytundeb fel a ganlyn:

Dylai'r awdurdod lleol:	Dylai'r gymdeithas dai: ⁶³
Ymwneud â chymdeithasau tai yn gynnar yn y broses o feddwl yn strategol	Gyfrannu'n llawn i broses feddwl a chynllunio strategol yr awdurdod lleol
Ceisio barn cymdeithasau tai ynglŷn â'r problemau sy'n wynebu cymunedau lleol a ffyrdd o'u datrys, yn hytrach nag ymgynghori gyda nhw ar gynigion drafft	Cyfrannu ei barn ynglŷn â'r problemau a wynebir gan y cymunedau mae'n gweithio gyda nhw, a rhannu ei phrofiad a'i syniadau ynglŷn â sut i'w datrys
Cydnabod nad yw barn neu gyfraniad cymdeithasau yn gyfyngedig i faterion tai 'traddodiadol' (e.e. enwebiadau, datblygu) ond y gallant gyfrannu ar draws amcanion strategol ehangach yr awdurdod (e.e. hyfforddiant sgiliau, cynhwysiad ariannol drwy undebau credyd, cefnogaeth i bobl hawdd eu niweidio)	Cynnig barn a chyfraniadau ar faterion tai 'traddodiadol' a meysydd ehangach
Siarad â chymdeithasau a cheisio eu barn ar ddatblygiad a chynnwys pedwar cynllun lefel-uchel yr awdurdod (Strategaeth Gymunedol, Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc) ac unrhyw gynlluniau eraill perthnasol y dewisa'r awdurdod eu cynhyrchu	Cynnig barn at gynnwys pedwar cynllun lefel-uchel yr awdurdod ac unrhyw gynlluniau eraill perthnasol y dewisa'r awdurdod eu cynhyrchu
Sicrhau fod y cytundeb wedi ei wreiddio'n gorfforaethol ar draws yr awdurdod ac nid yn perthyn i'r swyddogaeth dai yn unig	Sicrhau fod amcanion strategol allweddol yr awdurdod (o'r Strategaeth Gymunedol a chynlluniau lefel-uchel eraill) yn dylanwadu ar feddwl a chynllunio strategol y gymdeithas
Mabwysiadu ffyrdd o ymwneud rhwng yr awdurdod a chymdeithasau sy'n golygu cyn lleied â phosib o alw ar adnoddau (e.e. drwy gyfathrebu drwy gyfrwng consortia neu drwy gyfrwng cynrychiolwyr grwpiau o gymdeithasau y cytunwyd arnynt, gan gwtogi ar y nifer o fforymau strategol a gweithredol y mae disgwyl i gymdeithasau eu mynychu)	Trafod a chytuno ar ffyrdd o ymwneud â'r awdurdod sy'n golygu cyn lleied â phosib o alw ar adnoddau
Cydnabod y cyfyngir ar effaith a gwerth y cytundeb onid oes gan yr awdurdod ddiwylliant o wrando, bod yn agored, a thryloywder.	Cydnabod y cyfyngir ar effaith a gwerth y cytundeb onid oes gan y gymdeithas ddiwylliant o wrando, bod yn agored, a thryloywder.

⁶³ Defnyddir y ffurf unigol 'cymdeithas dai' i ddynodi bod hyn yn gyfrifoldeb ar bob cymdeithas dai unigol, hyd yn oed os yw'r ymwneud yn digwydd drwy gyfrwng consortia neu gynrychiolwyr.

6 Cytundeb Tai - Elfen Weithredol

- 6.1 Nod yr agwedd yma ar y cytundeb yw sicrhau fod gwasanaethau a ddarperir gan gymdeithasau tai yn cyfrannu cymaint ag sy'n bosibl at gyflawni amcanion strategol allweddol yr awdurdodau yn weithredol.
- 6.2 Yn ein barn ni, mae cyfrifoldebau awdurdodau lleol ar y naill law a chymdeithasau tai ar y llall parthed yr elfen hon yn y cytundeb fel a ganlyn:

Dylai'r awdurdod lleol:	Dylai'r gymdeithas dai: ⁶⁴
Nodi meysydd gweithredol penodol lle gall cymdeithasau tai gyfrannu at gyflawni amcanion strategol allweddol yr awdurdod (gweler Atodiad 1 am feysydd gweithgaredd lle mae cymdeithasau tai yn cyfrannu ar hyn o bryd)	Nodi ble y gall yr awdurdod lleol gyfrannu ar gyflawni amcanion strategol y gymdeithas ei hun
Gwneud cysylltiadau clir rhwng yr elfennau o ddarpariaeth weithredol a amlinellir yn y cytundeb ac amcanion strategol allweddol 4 cynllun strategol lefel-uchel yr awdurdod	Gwneud cysylltiadau clir rhwng yr elfennau o ddarpariaeth weithredol a amlinellir yn y cytundeb a'i amcanion strategol ei hun
Bod yn ymwybodol o brofiad, gwybodaeth arbenigol a gallu cymdeithasau tai mewn meysydd gweithredol penodol (e.e. datblygu tai cymdeithasol, cefnogi pobl, darparu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol, mentrau cynhwysiad cymdeithasol ac ati) a chydabod hynny.	Bod yn ymwybodol o brofiad, gwybodaeth arbenigol, gallu a chyfrifoldebau statudol yr awdurdod lleol mewn meysydd penodol o weithgaredd gweithredol (e.e. digartrefedd, lles y gymuned, lles economaidd, ac ati) a chydabod hynny.
Bod yn agored i'r posibilrwydd o gyflawni amcanion gweithredol mewn partneriaeth â chymdeithasau tai (e.e. drwy gyfrwng gweithio ar y cyd neu gyd-brosiectau)	Bod yn agored i'r posibilrwydd o gyflawni amcanion gweithredol mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol
Nodi meysydd gweithredol penodol lle gall yr awdurdod gyfrannu at gyflawni amcanion strategol y cymdeithasau tai	Nodi meysydd gweithredol penodol lle gall gyfrannu at gyflawni amcanion strategol allweddol yr awdurdod
Cyd-gytuno gyda chymdeithasau tai ar ganlyniadau, gweithgareddau a thargedau ar gyfer cyflawni amcanion gweithredol sydd yn benodol, yn fesuradwy, yn bosibl eu cyflawni, yn realistig ac o fewn terfyn amser penodol (SMART)	Cyd-gytuno gyda'r awdurdod ar ganlyniadau, gweithgareddau a thargedau ar gyfer cyflawni amcanion gweithredol sydd yn benodol, yn fesuradwy, yn bosibl eu cyflawni, yn realistig ac o fewn terfyn amser penodol (SMART)

⁶⁴ Defnyddir y ffurf unigol 'cymdeithas dai' i ddynodi bod hyn yn gyfrifoldeb ar bob cymdeithas dai unigol, hyd yn oed os yw'r ymwneud yn digwydd drwy gyfrwng consortia neu gynrychiolwyr.

7 Sicrhau fod cytundebau'n cael eu gweithredu

- 7.1 Dangosodd y gwerthusiad mai dim ond 8 awdurdod sydd â CTCau ar hyn o bryd. Bydd angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ystyried sut y gall sicrhau y bydd unrhyw ganllawiau newydd a gynhyrchir ganddi yn cael eu dilyn yn ymarferol.
- 7.2 O safbwynt cymdeithasau tai, credwn y dylai'r gofyniad i ddatblygu cytundebau gael ei gynnwys yn y Côd Rheoliadol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.
- 7.3 O safbwynt awdurdodau lleol, credwn y dylai'r gofyniad i ddatblygu cytundebau ffurfio un elfen o ganllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyflawni'r swyddogaeth dai strategol.

8 Sylwadau

- 8.1 Byddem yn croesawu sylwadau cyffredinol ar gynnwys y papur a ffurf arfaethedig y cytundeb. Er enghraifft:
 - (a) a ddylai'r canllawiau ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid o gymdeithasau tai ddatblygu cytundebau o'r fath?
 - (b) a ddylai'r canllawiau i'r cytundebau fod yn rhagnodol i'r graddau eu bod yn nodi gweithgareddau y bydd yn rhaid eu cynnwys mewn cytundebau?
 - (c) a ddylai awdurdodau lleol a chymdeithasau tai sy'n methu datblygu cytundebau neu'n methu eu gweithredu mewn modd ystyrlon gael eu cosbi ac, os felly, sut?

Atodiad 1: Rhestri o'r meysydd lle mae cymdeithasau tai wrthi'n cyfrannu at faterion gweithredol ar hyn o bryd

Hanfodol

Dyrannu/gosod eiddo (e.e. drwy enwebiadau, cofrestri tai cyffredin, polisïau dyrannu cyffredin, polisïau eithrio cyffredin)

Digartrefedd (e.e. drwy ddarparu llety dros-dro a pharhaol, gweithgaredd atal digartrefedd)

Budd-dâl tai (e.e. drwy'r fframwaith gwirio)

Dymunol

Ymddygiad gwrth-gymdeithasol

Datblygiad Cymunedol

Effeithiolrwydd ynni (e.e. drwy HEES)

Cynhwysiad ariannol (e.e. drwy undebau credyd)

Adfywio

Rheoli tenantiaethau/cynnal tenantiaethau

Cefnogaeth yn gysylltiedig â thenantiaethau

Cyfranogaeth tenantiaid

Cyngor ar fudd-daliadau lles

Atodiad 11

Adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar y cynigion polisi a gynhwyswyd yn y papur trafod "Cytundebau Tai Cymunedol - cynigion ar gyfer y ffordd ymlaen"

1. Cyflwyniad

- 1.1 Rhydd yr adroddiad hwn grynodedb o'r sylwadau ar y papur trafod a dderbyniwyd gan:
- gyfranogwyr a fynychodd y sesiynau gweithdy; a
 - rhanddeiliaid a anfonodd eu sylwadau ar bapur.

2. Cefndir

- 2.1 Ddiwedd mis Mai 2006, anfonwyd y papur trafod (atodiad 10) i bob awdurdod lleol a chymdeithas dai yng Nghymru ac asiantaethau rhanddeiliaid allweddol.
- 2.2 Gwahoddwyd asiantaethau i anfon cynrychiolydd i naill ai un o ddau weithdy. Gwahoddwyd asiantaethau hefyd i anfon eu sylwadau ar y cynigion ar bapur.
- 2.3 Cynhaliwyd y ddau weithdy ar y dyddiadau canlynol ac yn y lleoliadau canlynol:
- 27ain Mehefin, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe; a
 - 5ed Gorffennaf, Plas Tan y Bwlch, Gwynedd.
- 2.4 Yn y gweithdy cafodd y cyfranogwyr wybodaeth gefndir am ddatblygiad Cytundebau Tai Cymunedol (CTCau), canlyniadau'r ymchwil, yr amgylchedd polisi sy'n ymddangos a nododd fanylion y cynigion a gynhwyswyd o fewn y papur trafod.
- 2.5 Roedd y gweithdy hefyd yn ymgorffori sesiynau trafod a hwyluswyd lle y ceisiwyd barn a sylwadau'r cyfranogwyr ar y cynigion a gynhwyswyd yn y papur trafod.
- 2.6 Mynychodd cyfanswm o 25 o gyfranogwyr y ddwy sesiwn gweithdy a derbyniwyd ymatebion ysgrifenedig gan dri ymarferwr.

3. Canlyniadau'r Ymgynghoriad

- 3.1 Roedd y trafodaethau a gynhaliwyd yn ystod y gweithdai wedi'u strwythuro o gwmpas agweddau allweddol y cynigion.
- 3.2 Cyfeirir at y cyfranogwyr yn y gweithdai a'r rheiny a ddarparodd sylwadau ysgrifenedig fel atebwyr.

3.3 Sylwadau Cyffredinol

- 3.3.1 Cafwyd cefnogaeth unfrydol ar gyfer cyflwyno ffurf ddiwygiedig ar CTC. Mynegodd atebwyr gefnogaeth gref hefyd y dylai cynhyrchu arweiniad ar ffurf ddiwygiedig o CTC fod yn un elfen o'r arweiniad a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyflwyno rôl dai strategol awdurdodau lleol.

- 3.3.2 Awgrymodd nifer arwyddocaol o atebwyr y dylai Llywodraeth y Cynulliad gefnogi cryfhau rôl dai strategol awdurdodau lleol yng Nghymru drwy gyflwyno sesiwn hyfforddi i wleidyddion ac uwch swyddogion pob awdurdod lleol ar bwysigrwydd y rôl dai strategol ac y dylai cymdeithasau tai lleol gyfranogi yng nghyflwyno'r sesiwn.

3.4 Ffurf ddiwygiedig ar gytundeb wedi'i gysylltu â chyflwyno cynlluniau lefel uchel

- 3.4.1 Yn gyffredinol, mynegwyd cefnogaeth gref i'r cynigion a gynhwyswyd o fewn y papur trafod ar gyfer cyflwyno cytundeb nad yw'n rhagnodol sy'n seiliedig ar ganlyniadau rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai. Cytunodd yr atebwyr mai swyddogaeth allweddol swyddogaeth dai strategol awdurdodau lleol yw trosi amcanion lefel uchel strategaethau awdurdodau lleol yn dasgau tai a gweithgareddau ymarferol a gyflwynir gan ystod o bartneriaid. Felly, byddai cytundebau yn darparu'n ddefnyddiol peth strwythur i'r berthynas rhwng yr awdurdod lleol a chymdeithasau tai.

3.5 Cytundeb cyffredin rhwng Awdurdodau Lleol a phob Cymdeithas Dai/consortia sy'n gweithredu yn yr ardal

- 3.5.1 Cafwyd cytundeb eang y dylid cynnwys pob cymdeithas dai a chonsortia sy'n gweithredu mewn ardal mewn ffurf ddiwygiedig ar gytundeb tai cymunedol.
- 3.5.2 Bydd angen i gynnwys y cytundebau hynny adlewyrchu'r rôl y mae pob cymdeithas yn ei chwarae yn yr ardal, o bosib drwy gytundeb cyffredin ar lefel uchel, gyda hyblygrwydd islaw hynny drwy drefniadau gweithredol ar wahân gyda phob cymdeithas.

3.6 Talu sylw gofalus i'r broses ddatblygu

- 3.6.1 Ystyriwyd y broses o ddatblygu'r cytundeb tai cymunedol yn hollbwysig i'w lwyddiant, a chytunwyd nad oedd llawer o werth mewn cytundeb parod. Dywedodd atebwyr y dylai'r broses ddatblygu:
- gynnwys staff o swyddogaethau eraill y cyngor, aelodau o'r Cabinet ac aelod o Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor (i sicrhau bod y cytundeb yn cael ei wreiddio'n gorfforaethol);
 - cynnwys staff gweithredol a strategol;
 - dechrau gyda dadansoddiad gwrthrychol o gyflwr y berthynas rhwng yr awdurdod lleol a'r cymdeithasau tai, er enghraifft drwy ddadansoddiad SWOT;
 - peidio â gosod terfyn amser pendant ar gyfer ei gwblhau, gan gydnabod y gallai'r broses ddatblygu fod yn sylweddol.
- 3.6.2 Teimlodd atebwyr y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru nodi mewn arweiniad pwy ddylai gyfranogi yn natblygiad y cytundeb, er mwyn sicrhau bod ymrwymiad corfforaethol a gwleidyddol.
- 3.6.3 Dywedodd atebwyr hefyd y dylai arweiniad gynnwys enghreifftiau o arfer positif yn nhermau'r broses ddatblygu.

3.7 Gwreiddio'n gorfforaethol

- 3.7.1 Cafwyd cytundeb eang ar yr angen i sicrhau bod cytundebau yn gorfforaethol eu natur. Fodd bynnag, codwyd pryderon y gallai gwneud y cytundeb yn rhy gorfforaethol olygu y gellid anwybyddu materion tai gweithredol.
- 3.7.2 Dywedodd atebwyr:
- dylai arweiniad a roddwyd i awdurdodau lleol ar gynhyrchu'r pedwar cynllun lefel uchel ei wneud yn ofyniad ar awdurdodau lleol ymgynghori â chymdeithasau tai a'u cynnwys yn natblygu'r cynlluniau;
 - dylai arweiniad ar gynhyrchu cytundeb tai cymunedol nodi'n glir sut y gall tai gyfrannu at gyflwyno amcanion corfforaethol ehangach, fel gwella iechyd, cyrhaeddiad addysgol, datblygiad economaidd, cynhwysiad cymdeithasol ac ati;
 - nid oedd y term Cytundeb Tai Cymunedol yn ddefnyddiol ac roedd yn golygu bod yr awdurdod yn tueddu i aros o fewn y silo tai yn yr awdurdod lleol. Byddai ailenwi'r cytundeb yn " Gytundebau Partneriaeth Cymunedol" yn datrys yr anhawster hwn.
- 3.7.3 Nododd nifer o atebwyr nad oedd swyddogaeth dai strategol yr awdurdod lleol yn derbyn adnoddau digonol ar lefel leol a bod y gydnabyddiaeth gorfforaethol o gyfraniad posib tai i amcanion corfforaethol ehangach yn debygol o fod yn isel. Teimlodd rhai atebwyr, drwy wneud sefydlu cytundebau yn ofyniad ar awdurdodau lleol a darparu cefnogaeth ariannol i awdurdodau i gryfhau'r swyddogaeth dai strategol, byddai Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau bod tai a gweithgareddau asiantaethau tai, yn enwedig cymdeithasau tai, wedi'u gwreiddio'n gorfforaethol i raddau llawer helaethach.

3.8 Ymagwedd gyfyngedig i gychwyn

- 3.8.1 Cafwyd cytundeb eang y dylai cyflwr presennol y bartneriaeth leol rhwng cymdeithasau tai a'r awdurdod lleol bennu cynnwys cwmnasiad cychwynnol y cytundeb ac y dylai hyn ddilyn amcanion strategol yr awdurdod lleol ac adlewyrchu uchelgeisiau'r awdurdod lleol a'r cymdeithasau tai.
- 3.8.2 Dywedodd atebwyr:
- dylai arweiniad gydnabod y bydd cynnwys a chwmpas cytundebau yn amrywio o ardal i ardal;
 - dylai arweiniad gynnwys disgwyliad y dylai cytundebau nodi'r gweithgareddau a ymgorfforir i gychwyn a chynnwys cynllun gweithredu yn nodi'r amserlenni ar gyfer gweithgareddau pellach i'w hymgorffori yn y dyfodol;
 - dylai arweiniad gynnwys rhestr o weithgareddau y mae'r Cynulliad yn argymhell (ond nad ydynt yn ofynnol ganddynt) y dylid eu cynnwys mewn cytundeb cychwynnol.

3.9 Ehangu i ymgorffori darparwyr tai eraill

- 3.9.1 Derbyniwyd bod rôl dai strategol awdurdodau lleol yn ymgorffori gwaith partneriaeth gydag asiantaethau eraill. Fodd bynnag, cafwyd cefnogaeth gref i'r cytundeb gael ei gyfyngu i gymdeithasau tai a/neu gonsortia cymdeithasau tai. Awgrymodd atebwyr y gellid cyflwyno ffurfiau tebyg ar gytundeb gydag asiantaethau sector gwirfoddol a sector preifat, ond y dylid cadw'r rhain ar wahân i gytundebau gyda chymdeithasau tai.
- 3.9.2 Awgrymodd atebwyr hefyd:
- y gellir ehangu'r cytundebau ymhén amser i ddod yn gytundebau tridarn yn ymgorffori Llywodraeth Cynulliad Cymru;
 - gallai fod potensial mewn datblygu cytundebau rhanbarthol rhwng cymdeithasau ac awdurdodau ar draws nifer o ardaloedd awdurdodau lleol.

3.10 Trefniadau ar gyfer adolygu rheolaidd

- 3.10.1 Cafwyd cytundeb eang y dylai cytundebau fod yn destun adolygiadau rheolaidd a dylent nodi'r trefniadau ar gyfer adolygu ynghyd â dangosyddion ar gyfer monitro perfformiad awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ill dau.

3.11 Ymagwedd nad yw'n rhagnodol, yn seiliedig ar ganlyniadau

- 3.11.1 Cafwyd cefnogaeth unfrydol gan atebwyr na ddylai cytundebau fod yn rhagnodol ac y dylent fod yn seiliedig ar ganlyniadau. Teimlwyd bod osgoi bod yn rhagnodol yn angenrheidiol er mwyn annog blaengaredd, ond cydnabuwyd y byddai diffyg ymagwedd ragnodol yn ei wneud yn anodd i'r Cynulliad werthuso ansawdd gwahanol gytundebau. Fodd bynnag, dylid mesur llwyddiant cytundebau yn ôl y gwahaniaeth gwirioneddol y maent yn ei wneud ar lefel sylfaenol.
- 3.11.2 Awgrymodd atebwyr y dylai cwmplas posib y cytundeb gynnwys yr holl weithgareddau y mae cymdeithasau tai yn eu cyflwyno sy'n cyfrannu tuag at amcanion cynlluniau cymunedol ac y dylid nodi'r gweithgareddau hyn (ond nid eu rhagnodi) mewn arweiniad a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- 3.11.3 Ni chafwyd cytundeb clir ynghylch a ddylid pennu gweithgareddau hanfodol a dymunol i'w hymgorffori yn ganolog. Teimlodd rhai bod hyn yn groes graen i'r cytundeb ei hun, tra teimlodd eraill y gallai fod yn ddefnyddiol. Pe byddai'r cytundeb yn cynnig elfen o ragnodi, cytunwyd bod y gweithgareddau canlynol yn allweddol, ac y gellir eu labelu fel rhai hanfodol:
- materion yn ymwneud â gosodiadau (enwebiadau, mynediad i'r gofrestr dai, ac ati);
 - cyfraniad at fynd i'r afael â digartrefedd;
 - budd-dal tai;
 - diogelwch cymunedol/ymddygiad gwrthgymdeithasol; a
 - materion yn ymwneud â'r angen am dai a chyflenwi tai cymdeithasol.

3.12 Cynnwys elfennau strategol a gweithredol

Roedd yr holl atebwyr yn cytuno y dylai'r cytundebau gynnwys elfennau strategol a gweithredol.

3.13 Arweiniad i gynnwys gofyniad i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai partner ddatblygu cytundebau o'r fath

- 3.13.1 Roedd atebwyr, tra'n cydnabod na ellir gorfodi perthynas i ddatblygu yn teimlo'n gryf y dylai datblygu a gweithredu cytundeb tai cymunedol fod yn ofyniad. I gymdeithasau tai, teimlwyd bod ysgogwyr digonol o fewn trefn reoleiddiol cymdeithasau tai i'w wneud yn ofyniad i gymdeithasau weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol. Cafwyd cefnogaeth gref gan gymdeithasau ac adrannau tai awdurdodau lleol a gynrychiolwyd i wneud ffurf ddiwygiedig o gytundeb yn ofyniad i awdurdodau lleol. Awgrymodd atebwyr y gellid ymgorffori datblygu cytundeb mewn targedau cytundeb polisi, a darparu cymhellion i awdurdodau lleol drwy ddarparu grant gwella perfformiad (GGP).
- 3.13.2 Teimlodd atebwyr fod angen gofyniad i Lywodraeth Cynulliad Cymru reoleiddio a monitro'r cytundebau.
- 3.13.3 Roedd atebwyr yn cydnabod y byddai'r gofynion adnoddau wrth ddatblygu a monitro cytundebau yn codi materion gallu o fewn nifer o awdurdodau lleol a chymdeithasau tai (yn enwedig y cymdeithasau llai).

3.14 Cosbau i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai sy'n methu â datblygu neu weithredu yn gywir

- 3.14.1 Dywedodd atebwyr y gellir defnyddio cymysgedd o gosbau a chymhellion i sicrhau bod awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn datblygu ac yn gweithredu ffurf ddiwygiedig ar gytundeb yn llawn. Teimlodd atebwyr mai cymhellion dylai fod y prif ffocws er mwyn annog datblygu cytundebau.
- 3.14.2 Awgrymodd atebwyr y dulliau canlynol:
- brigdorri a dal cyfran o'r grant tai cymdeithasol yn ôl oddi wrth awdurdodau lleol lle nad yw cytundeb tai cymunedol wedi cael ei ddatblygu neu nad yw wedi'i weithredu'n llawn;
 - gellir dyrannu grant tai cymdeithasol ychwanegol lle mae cytundebau tai cymunedol wedi cael eu datblygu ac yn gweithredu'n effeithiol;
 - sefydlu cronfa bartneriaeth gymunedol (yn debyg i'r Grant Rheoli Tai Cymdeithasol) y gellid ei ddefnyddio i hyrwyddo datblygu cytundebau tai cymunedol;
 - gellid brigdorri rhan o'r rhaglen GRhTC hefyd i awdurdodau lleol sydd wedi datblygu a gweithredu cytundebau tai cymunedol yn llwyddiannus;
 - dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru amlygu arfer positif, ac ariannu awdurdodau a chymdeithasau gyda chytundebau llwyddiannus i weithredu fel mentoriaid i eraill;
 - enwi a chodi cywilydd ar awdurdodau lleol a chymdeithasau tai sy'n perfformio'n wael a rhoi cyhoeddusrwydd i berfformiad positif.

Atodiad 12

Rolau a chyfrifoldebau arfaethedig Partïon mewn perthynas â ffurf ddiwygiedig y Cytuned Tai Cymunedol

Ffurf ddiwygiedig ar Gytuned - Elfen Strategol

Prif ddiben swyddogaeth dai strategol awdurdod lleol yw diffinio'r rhan y gall tai ei chwarae o ran cyfrannu at gyflawni amcanion Cynllun Cymunedol yr awdurdod. Yn ein barn ni, prif swyddogaeth cytuned tai yw diffinio a chynyddu i'r eithaf gyfraniad asiantaethau tai lleol at gyflawni'r amcanion hyn.

Nod yr agwedd hon o'r cytuned yw cynyddu i'r eithaf gyfraniad cymdeithasau tai i feddwl a chynllunio strategol awdurdodau lleol, a chyfraniad awdurdodau lleol i feddwl a chynllunio strategol cymdeithasau tai.

Yn ein barn ni, mae cyfrifoldebau awdurdodau lleol ar y naill law a chymdeithasau tai ar y llall parthed yr elfen hon yn y cytuned fel a ganlyn:

Dylai'r awdurdod lleol:	Dylai'r gymdeithas dai: ⁶⁵
Ymwneud â chymdeithasau tai yn gynnar yn y broses o feddwl yn strategol	Gyfrannu'n llawn i broses feddwl a chynllunio strategol yr awdurdod lleol
Ceisio barn cymdeithasau tai ynglŷn â'r problemau sy'n wynebu cymunedau lleol a ffyrdd o'u datrys, yn hytrach nag ymgynghori gyda nhw ar gynigion drafft	Cyfrannu ei barn ynglŷn â'r problemau a wynebir gan y cymunedau mae'n gweithio gyda nhw, a rhannu ei phrofiad a'i syniadau ynglŷn â sut i'w datrys
Cydnabod nad yw barn neu gyfraniad cymdeithasau yn gyfyngedig i faterion tai 'traddodiadol' (e.e. enwebiadau, datblygu) ond y gallant gyfrannu ar draws amcanion strategol ehangach yr awdurdod (e.e. hyfforddiant sgiliau, cynhwysiad ariannol drwy undebau credyd, cefnogaeth i bobl hawdd eu niweidio)	Cynnig barn a chyfraniadau ar faterion tai 'traddodiadol' a meysydd ehangach

⁶⁵ Defnyddir y ffurf unigol 'cymdeithas dai' i ddynodi bod hyn yn gyfrifoldeb ar bob cymdeithas dai unigol, hyd yn oed os yw'r ymwneud yn digwydd drwy gyfrwng consortia neu gynrychiolwyr.

Dylai'r awdurdod lleol:	Dylai'r gymdeithas dai:
Siarad â chymdeithasau a cheisio eu barn ar ddatblygiad a chynnwys pedwar cynllun lefel-uchel yr awdurdod (Strategaeth Gymunedol, Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc) ac unrhyw gynlluniau eraill perthnasol y dewisa'r awdurdod eu cynhyrchu	Cynnig barn ar gynnwys pedwar cynllun lefel-uchel yr awdurdod ac unrhyw gynlluniau eraill perthnasol y dewisa'r awdurdod eu cynhyrchu
Sicrhau fod y cytundeb wedi ei wreiddio'n gorfforaethol ar draws yr awdurdod ac nid yn perthyn i'r swyddogaeth dai yn unig	Sicrhau fod amcanion strategol allweddol yr awdurdod (o'r Strategaeth Gymunedol a chynlluniau lefel-uchel eraill) yn dylanwadu ar feddwl a chynllunio strategol y gymdeithas
Mabwysiadu ffyrdd o ymwneud rhwng yr awdurdod a chymdeithasau sy'n golygu cyn lleied â phosib o alw ar adnoddau (e.e. drwy gyfathrebu drwy gyfrwng consortia neu drwy gyfrwng cynrychiolwyr grwpiau o gymdeithasau y cytunwyd arnynt, gan gwtogi ar y nifer o fforymau strategol a gweithredol y mae disgwyl i gymdeithasau eu mynychu)	Trafod a chytuno ar ffyrdd o ymwneud â'r awdurdod sy'n golygu cyn lleied â phosib o alw ar adnoddau
Cydnabod y cyfyngir ar effaith a gwerth y cytundeb onid oes gan yr awdurdod ddiwylliant o wrando, bod yn agored, a thryloywder.	Cydnabod y cyfyngir ar effaith a gwerth y cytundeb onid oes gan y gymdeithas ddiwylliant o wrando, bod yn agored, a thryloywder.

Ffurf ddiwygiedig ar Gytundeb - Efen Weithredol

Nod yr agwedd yma ar y cytundeb yw sicrhau fod gwasanaethau a ddarperir gan gymdeithasau tai yn cyfrannu cymaint ag sy'n bosibl at gyflawni amcanion strategol allweddol yr awdurdodau yn weithredol.

Yn ein barn ni, mae cyfrifoldebau awdurdodau lleol ar y naill law a chymdeithasau tai ar y llall parthed yr elfen hon yn y cytundeb fel a ganlyn:

Dylai'r awdurdod lleol:	Dylai'r gymdeithas dai: ⁶⁶
Nodi meysydd gweithredol penodol lle gall cymdeithasau tai gyfrannu at gyflawni amcanion strategol allweddol yr awdurdod (gweler Atodiad 1 am feysydd gweithgaredd lle mae cymdeithasau tai yn cyfrannu ar hyn o bryd)	Nodi ble y gall yr awdurdod lleol gyfrannu at gyflawni amcanion strategol y gymdeithas ei hun
Gwneud cysylltiadau clir rhwng yr elfennau o ddarpariaeth weithredol a amlinellir yn y cytundeb ac amcanion strategol allweddol 4 cynllun strategol lefel-uchel yr awdurdod	Gwneud cysylltiadau clir rhwng yr elfennau o ddarpariaeth weithredol a amlinellir yn y cytundeb a'i amcanion strategol ei hun
Bod yn ymwybodol o brofiad, gwybodaeth arbenigol a gallu cymdeithasau tai mewn meysydd gweithredol penodol (e.e. datblygu tai cymdeithasol, cefnogi pobl, darparu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol, mentrau cynhwysiad cymdeithasol ac ati) a chydabod hynny	Bod yn ymwybodol o brofiad, gwybodaeth arbenigol, gallu a chyfrifoldebau statudol yr awdurdod lleol mewn meysydd penodol o weithgaredd gweithredol (e.e. digartrefedd, lles y gymuned, lles economaidd, ac ati) a chydabod hynny
Bod yn agored i'r posibilrwydd o gyflawni amcanion gweithredol mewn partneriaeth â chymdeithasau tai (e.e. drwy gyfrwng gweithio ar y cyd neu gyd-brosiectau)	Bod yn agored i'r posibilrwydd o gyflawni amcanion gweithredol mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol

⁶⁶ Defnyddir y ffurf unigol 'cymdeithas dai' i ddynodi bod hyn yn gyfrifoldeb ar bob cymdeithas dai unigol, hyd yn oed os yw'r ymwneud yn digwydd drwy gyfrwng consortia neu gynrychiolwyr.

Dylai'r awdurdod lleol:	Dylai'r gymdeithas dai:⁶⁷
Nodi meysydd gweithredol penodol lle gall yr awdurdod gyfrannu at gyflawni amcanion strategol y cymdeithasau tai	Nodi meysydd gweithredol penodol lle gall gyfrannu at gyflawni amcanion strategol allweddol yr awdurdod
Cyd-gytuno gyda chymdeithasau tai ar ganlyniadau, gweithgareddau a thargedau ar gyfer cyflawni amcanion gweithredol sydd yn benodol, yn fesuradwy, yn bosibl eu cyflawni, yn realistig ac o fewn terfyn amser penodol (SMART)	Cyd-gytuno gyda'r awdurdod ar ganlyniadau, gweithgareddau a thargedau ar gyfer cyflawni amcanion gweithredol sydd yn benodol, yn fesuradwy, yn bosibl eu cyflawni, yn realistig ac o fewn terfyn amser penodol (SMART)

⁶⁷ Defnyddir y ffurf unigol 'cymdeithas dai' i ddynodi bod hyn yn gyfrifoldeb ar bob cymdeithas dai unigol, hyd yn oed os yw'r ymwneud yn digwydd drwy gyfrwng consortia neu gynrychiolwyr.